



CYNGOR BRO MORGANNWG
CYNLLUN GWELLA RHAN 2:
Arolwg Blynyddol o Berfformiad 2016/17

HYDREF 2017

Cymunedau
Cryf â
Dyfodol
Disglair

Contents

1. Cyflwyniad.....	2
2. Trosolwg o Berfformiad Bro Morgannwg 2016/17	5
2.1 Ein prif gyflawniadau.....	5
2.2 Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cenedlaethol (MAPau)	21
2.3 Gweithio mewn Partneriaeth a Chydweithio.....	24
2.4 Yr hyn a ddywed ein Rheoleiddwyr amdanom.	26
2.5 Sylwadau trigolion amdanom ni.....	28
2.6 Sylwadau ein staff amdanom ni.....	31
2.7 Ein Cyllideb.....	32
3. Ein Hamcanion Gwella mewn manylder.....	33
Amcan Gwella 1	33
Amcan Gwella 2.....	43
Amcan Gwella 3.....	52
Amcan Gwella 4.....	68
Amcan Gwella 5.....	78
4. Perfformiad Diwedd Blwyddyn Bro Morgannwg 2016/17: Dangosyddion Cenedlaethol.....	85
4.1 Crynodeb o berfformiad yn erbyn Dangosyddion Cenedlaethol ar 11/9/2017.....	85
4.2 Trosolwg Perfformiad Dangosyddion NSI/PAM ar gyfer 2016/17	92
4.3 Sylwadau ar ddangosyddion perfformiad chwarterel isaf	93

1. Cyflwyniad

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n rhaid i ni gyhoeddi dwy ddogfen bob blwyddyn; mae'r cyntaf o'r rhain yn Gynllun Gwella blaengar sy'n nodi ein blaenoriaethau gwella (a elwir yn Amcanion Gwella) ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf; ac mae'r ail yn adroddiad blynyddol i fyfyrio ar berfformiad y Cynllun hwnnw. Mae Cynllun Gwella Rhan 2: Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad 2016/17 yn ystyried a lwyddom i gyflawni'r Amcanion Gwella a nodwyd yn [Cynllun Gwella Rhan 1: Amcanion Gwella 2016/17](#) gyda golwg ar gydymffurfio â'r gofyniad cyfreithiol hwn yn ogystal â pharatoi asesiad o'n perfformiad ar gyfer ein dinasyddion.

Er ein bod ni wastad yn ceisio gwella ein gwasanaethau bob blwyddyn yn unol â gofynion y Mesur, mae'n bwysig ein bod ni'n nodi rhai meysydd i ganolbwyntio arnynt er mwyn cyflawni gwelliannau sylweddol yn gynt. Yn ystod 2016/17, aethom ati i nodi pump o Amcanion Gwella ac mae'r cynllun hwn yn adrodd yn fanwl ar ein cynnydd o ran cyflawni'r rhain.

Yn y cynllun, ceir crynodeb cyffredinol o berfformiad y Cyngor yn ystod 2016/17 gan gynnwys crynodeb o'n perfformiad ar ystod o wasanaethau fel y mesurwyd gan dangosyddion perfformiad cenedlaethol a gesglir ac a gyhoeddir yn flynyddol gan Unded Data Llywodraeth Leol. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys trosolwg byr o'r hyn sydd gan ein rheoleiddwyr a phreswylwyr i'w ddweud amdanom a'r cynnydd ar ein cynlluniau cydweithio strategol allweddol ar gyfer 2016/17.

Mae ein Hamcanion Gwella yn adeiladu ar [Gynllun Corfforaethol 2016-20](#) sy'n cyflwyno ein canlyniadau â blaenoriaeth fel Cyngor ar gyfer y pedair blynedd nesaf. Mae'r canlyniadau â blaenoriaeth yma yn eu tro wedi'u llywio gan y [Strategaeth Gymunedol Integredig Bro Morgannwg 2011-21](#), sy'n nodi cyfeiriad Cyngor Bro Morgannwg dros a 10 mlynedd nesaf. Mae'r Cynllun Corfforaethol hefyd yn myfyrto ar ein hymrwymiad fel Cyngor i groesawu gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae'r ymynghoriad ar Ganlyniadau Llesiant Cynllun Corfforaethol 2016-20 a chyllideb 2016-17, cynnydd o ran ein Hamcanion Gwella cyfredol, ein Hunanasesiad Corfforaethol Blynyddol, ein proses cynllunio gwasanaethau flynyddol a chanfyddiadau o adolygiadau gwella ac asesiadau rheoleiddiol yn brosesau allweddol sydd wedi llywio ein Hamcanion Gwella.

Gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys ein partneriaid statudol yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, aelodau etholedig. Cynghorau Tref a Chymuned, sefydliadau sector gwirfoddol, trigolion Bro Morgannwg a busnesau lleol i wneud sylwadau ar yr Amcanion Gwella arfaethedig drwy arolwg ar-lein a chyfryngau cymdeithasol. Roedd yr ymynghoriad hwn yn ein helpu i lywio ein hamcanion terfynol.

Isod mae rhestr o'n Hamcanion Gwella a chysylltiadau gyda'r Canlyniadau Llesiant perthnasol a amlinellwyd yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20 ynghyd â dyfarniad cyffredinol ar bob Amcan Gwella. Ceir manylion pellach ynghylch ein holl Amcanion Gwella dan yr adran [Gwella](#) yn y Cynllun.

Amcanion Gwella 2016/17	Canlyniadau Llesiant Cynllun Corfforaethol (2016-20)	Arweinydd	Gwerthusiad yr Awdurdod Lleol
Lleihau tlodi ac ynysu cymdeithasol.	Bro Ddiogel a Chynhwysol	Miles Punter	Cyflawnwyd
Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.	Bro sy'n gyfrifol yn amgylcheddol ac yn ffynnu	Rob Thomas	Cyflawnwyd
Codi safonau cyflawni yn gyffredinol.	Bro uchelgeisiol a bywiog o ran diwylliant	Paula Ham	Cyflawnwyd yn Rhannol
Annog a hyrwyddo ffordd o fyw actif a iach.	Bro iach ac actif	Lance Carver	Cyflawnwyd
Cyflawni rhaglen trawsnewid y Cyngor, Ail-lunio Gwasanaethau, i'w alluogi i ddiwallu anghenion dinasyddion yn y dyfodol a hynny yng nghyd-destun heriau ariannol nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen.	Iechyd Corfforaethol / Cynllunio Integredig	Rob Thomas	Cyflawnwyd

Mae'n bwysig adolygu ein cynnydd ac adrodd i aelodau etholedig a'r cyhoedd ar welliannau sydd wedi'u cyflawni a'r meysydd i'w gwella. Caiff ein Hamcanion Gwella eu cyflawni drwy Gynlluniau Gwasanaeth, sy'n nodi'n fanwl y camau a mesurau, adnoddau, amserlenni ac atebolrwydd o ran cyflawni. Mae cynnydd ein meysydd gwella yn destun ymarfer craffu ffurfiol chwarterol gan aelodau etholedig ac mae ein hadroddiadau yn cael eu cyhoeddi ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk Yn unol â threfniadau monitro perfformiad corfforaethol, caiff cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Gwella ei fonitro'n chwarterol i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC). Caiff Pwyllgorau Craffu a'r Cabinet a meysydd tanberfformiad eu herio gyda chamau adferol yn cael eu cytuno fel y bo'n briodol.

Fel pob cyngor arall yng Nghymru, mae Cyngor Bro Morgannwg yn dal i wynebu cyfnodau ariannol heriol. Mae'n rhaid i ni sicrhau arbedion sylweddol dros y tair blynedd nesaf wrth barhau i gyflawni agenda gwella uchelgeisiol. Mewn ymateb i'r her rydym wedi sefydlu Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau yn cynnwys ein partneriaid allweddol gyda golwg ar ystyried modelau darparu amgen ar gyfer gwasanaethau ym mhob rhan o'r Cyngor oherwydd ein bod yn cydnabod mai dyma'r unig ffordd y gallwn barhau i gynnig ystod eang o wasanaethau ac i safon dderbyniol.

Rydym wedi gosod targedau heriol yn erbyn yr holl fesurau gwella, sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i barhau i wella'r gwasanaethau a ddarperir gennym i drigolion Bro Morgannwg. Ar yr un pryd, mae'r Cyngor hefyd yn ystyriol o bwysau sylweddol o ran y galw am adnoddau ariannol a gwasanaethau yn ystod y flwyddyn i ddod ac mae targedau a cherrig milltir allweddol ar gyfer yr amcanion gwella wedi'u gosod yn y cyd-destun hwn. Mae hyn yn golygu mewn rhai meysydd er enghraifft; bydd cynnal lefelau perfformiad presennol wrth fynd i'r afael â chyllideb lai a rheoli'r cynnydd yn y galw am

wasanaethau neu'r ddau yn gyflawniad. Rhoddwyd ystriaeth i'r materion hyn yn ystod yr her fewnol o osod ein Hamcanion Gwella a thargedau.

Er mwyn hyrwyddo cynaliadwyedd a lleihau costau argraffu, bydd copi caled o Gynllun Gwella Rhan 2 ond ar gael ym mhrif dderbynfeydd a llyfrgelloedd y Cyngor. Mae'r Cynllun ar gael ar-lein yn www.bromorgannwg.gov.uk

Os oes gennych unrhyw sylwadau i'w gwneud ar ôl darllen y cynllun hwn, rhowch wybod i ni drwy gysylltu â ni fel a ganlyn:

Llythyrau i: Perfformiad a Datblygu, Cyngor Bro Morgannwg, Swyddfeydd Dinesig, Heol Holltwn, Y Barri, CF63 4RU

E-byst: improvements@bromorgannwg.gov.uk

Ffôn: 01446 700 101

Mae nifer o drefniadau ar waith i alluogi trigolion i ddylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau yn y Cyngor. Gallwch gymryd rhan drwy ymuno â Vale Viewpoint ein panel dinasyddion a chymryd rhan mewn ymgynghoriadau a gynhelir gan, neu ar ran, y Cyngor a'i bartneriaid, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Cwblhewch y ffurflen gwyno <http://forms.valeofglamorgan.gov.uk/en/ValeViewpoint>. Mae ein Pwyllgorau Craffu ar agor i'r cyhoedd ac yn cynnig y cyfle i gymryd rhan yng ngweithgareddau'r Cyngor. Gallwch wneud cais i wasanaeth neu fater gael ei ystyried gan Bwyllgor Craffu drwy gwblhau ffurflen [Ystyried Adolygiad](#). Gallwch hefyd gynnig Amcanion Gwella newydd i'r Cyngor drwy'r manylion cyswllt a ddarperir uchod.

2. Trosolwg o Berfformiad Bro Morgannwg 2016/17

Mae'r adran hon yn nodi uchafbwyntiau ein prif gyflawniadau yn ystod 2016/17 ochr yn ochr â Chanlyniadau Llesiant y Cynllun Corfforaethol. Cyflawnwyd y rhain er gwaethaf yr hinsawdd economaidd anodd a'r galw cynyddol am wasanaethau.

2.1 Ein prif gyflawniadau

Canlyniad Llesiant 1: Bro Gynhwysol a Diogel

Mae Bro Gynhwysol a Diogel yn disgrifio sut yr ydym yn cyfrannu tuag at wella ansawdd bywyd ein preswylwyr a meithrin ymdeimlad o berthyn, wrth sicrhau ein bod ni'n rhoi llais cryfach iddynt yn y gwaith o lunio'r ffordd y darperir gwasanaethau. Isod ceir amlinelliad o'n safle presennol fel yn 2017, o ran canlyniadau allweddol a meysydd yr ydym wedi bod yn bwrw ymlaen â nhw wrth gyfrannu at y Canlyniad Llesiant hwn.

Amcan 1: Lleihau tlodi ac allgáu cymdeithasol

- Mae bodddhad cwsmeriaid mewn cysylltiad â chael gafael ar wasanaethau Cyngor drwy bob sianel wedi parhau'n uchel, yn uwch na 98% ym mhob chwarter eleni. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd bron 99% (98.67%) o gwsmeiriad sydd wedi cysylltu â Cyswllt Un Fro yn dweud eu bod un ai'n fodlon iawn neu'n fodlon â'r gallu i gael gafael ar wasanaethau. O'r ymatebwyr rhoddodd 81.5% (6512) o gwsmeriaid y sgôr bodddhad uchaf posibl i'r Cyngor.
- Mae defnyddio un rhif ffôn ar cwsmeriaid y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir wedi gwella gwasanaethau ymhellach ar gyfer trigolion y rhanbarth. Mae hefyd wedi galluogi'r gwasanaeth i ragweld y galw yn fanwl gywir a sicrhau bod adnoddau priodol ar waith i ddiwallu anghenion cwsmeriaid yn gyson ac yn amserol.
- Rydym yn parhau i gynyddu cyfleoedd ledled y Fro ar gyfer cynhwysiant digidol drwy'r fenter 'Mynd ar-lein yn y Fro' drwy ddarpariaeth mynediad agored yn ogystal â dull a dargedir. Mae data wrthi'n cael ei gasglu o ran y niferoedd sy'n mynychu canolfannau galw-heibio ac yn ystod Chwarter 4 daeth 249 o bobl i'r sesiynau. Hefyd, mae'r nifer sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Hyrwyddwyr Digidol yn cynyddu. Ers mis Ebrill 2016, mae'r 5 o wirfoddolwyr Hyrwyddwyr Digidol Cymunedau'n Gyntaf yn y Barri wedi helpu 131 o gyfranogwyr drwy gydol y flwyddyn gan weithio bron 350 awr. Mae mwy na 500 o oedolion wedi cwblhau cyrsiau sgiliau digidol yn ystod y flwyddyn yn ogystal.
- Mewn ymdrech i gynyddu cynhwysiant digidol, mae Wi-Fi bellach ar gael i breswylwyr mewn 28 o leoliadau ledled Bro Morgannwg drwy'r 'Cloud' sy'n cynnig cyfleoedd pellach i bob gael mynediad i'r rhyngwyd. Mae'r lleoliadau dan sylw yn cynnwys swyddfeydd Cyngor, canolfannau ieuencid, llyfrgelloedd, cartrefi gofal preswyl, canolfannau cymunedol, llety gwarchod, a glan-môr Ynys y Barri.
- Rydym yn parhau i hyrwyddo Cyswllt Un Fro i'n trigolion ac mae nifer y tanysgrifwyr yn cynyddu. Ar hyn o bryd mae 44,615 o bobl wedi tanysgrifio i Cyswllt UnFro sy'n rhagori ar ein targed o 37,000 a'n perfformiad yn 2015/16 (31,115). Mae Cyswllt UnFro yn wasanaeth cyflym a syml a gynlluniwyd i anfon y wybodaeth ddiweddaraf am wasanaethau Cyngor sydd o ddiddordeb i breswylwyr yn syth i'w mewnflwch e-bost.
- Rydym yn gweithio i helpu trigolion sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol i symud i fynd i mewn i waith drwy gynnig ystod eang o gymorth gan gynnwys cyngor ar gyllidebu a

dyledion, cymorth i sicrhau'r incwm mwyaf, cymorth cyflogaeth, cynlluniau annibyniaeth personol a chymorth ag amrywiaeth o geisiadau am lwfans. Mae nifer y trigolion sy'n derbyn y Credyd Cynhwysol wedi cynyddu i 663 o'i gymharu â 15 yn ystod yr un cyfnod y llynedd.

- Yn unol â'n hymrwymiad i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, rydym yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd dysgu i ddysgwyr â blaenoriaeth, sy'n cynnwys dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf amddifad yn y Fro. Mae'r nifer sydd wedi cofrestru wedi cynyddu i 910 o ddysgwyr unigol o'i gymharu â 736 yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, sy'n rhagori ar ein targed o 810 o ddysgwyr. Mae'r gyfradd llwyddiant ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth ym mlwyddyn academaidd 2015/16 wedi gwella i 96% o 86% y flwyddyn flaenorol.
- Roedd 100% o gleientiaid cefnogi pobl yn hapus gyda'r gwasanaeth a gawsant yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cadarnhaodd mwy na 96% bod y cymorth a gawsant wedi eu helpu i ddal gafael yn eu hannibyniaeth.
- Mae bodddhad gyda'r gwasasnaeth Teuluoedd yn Gyntaf, sef 97%, yn gadarnhaol dros ben. Hon yw'r flwyddyn gyntaf o gofnodi'r data hwn ac mae a wnelo'r perfformiad â 1,569 o'r 16,22 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod y flwyddyn Drwy ganolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal, mae'r rhaglen yn helpu i atal teuluoedd rhag mynd i dlodi ac yn galluogi'r rhai mewn tlodi neu a allai fynd i dlodi wireddu eu potensial.
- Drwy'r cymorth effeithiol a gynigiwyd, llwyddodd y rhan fwyaf o blant (78%) a fu'n defnyddio gwasanaethau Dechrau'n Deg i fwrw'r cerrig milltir datblygiadol yn 3 mlwydd oed, sef cynnydd o 2% ar ein perfformiad y llynedd. Hefyd, yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, llwyddodd 88.31% i gyflawni'r canlyniad disgwylidig (Canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Gwnaed cynnydd cadarn yn y gwaith o dargedu meysydd angen drwy raglen Cymunedau yn Gyntaf ac mae hyn wedi cyfrannu at wella sgiliau, cyflogaeth a gweithgarwch economaidd lleol yn y Fro drwyddi draw. Yn ystod y flwyddyn: dywedodd 148 o gleientiaid Cymunedau yn Gyntaf eu bod yn teimlo'n fwy hyderus o ran chwilio am waith yn dilyn y cymorth a gynigiwyd; cafodd 60 gymorth i gael gwaith; cafodd 24% o'r holl gleientiaid gyngor ar ddyledion ac mae'r rhain bellach yn lleihau/rheoli eu dyledion; dywedodd 76% o gleientiaid eu bod yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well â phroblemau llesiant a/neu gofyn am gyngor priodol o ganlyniad i'r cymorth a gynigiwyd; o'r 71 o gyfranogwyr, llwyddodd 77.5% i ennill sgiliau TG sylfaenol gan ddweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur.

Amcan 2: Darparu cartrefi da a chymunedau diogel

- Mae gwelliannau yn dal i gael eu gwneud yn ein prosesau Grant Cyfleusterau i'r Anabl sy'n ein galluogi i leihau amserau aros ymhellach. Mae nifer y diwrnodau calendr cyfartalog a gymerir i gwblhau cais am Grant Cyfleusterau i'r Anabl wedi gostwng i 167 diwrnod o 178 diwrnod yn yr un cyfnod ag y llynedd, sef y trydydd safle yng Nghymru. Mae 142 o grantiau wedi'u cwblhau eleni. Roedd 5 o'r rhain yn ymwneud â phobl ifanc ac mae'r 137 yn weddill ar gyfer oedolion. Mae hyn wedi helpu pobl i ddal gafael yn eu hannibyniaeth yn eu cartrefi neu barhau i fyw yn eu cartrefi gyda llai o gymorth i gael bath, coginio neu symud o amgylch eu cartref. Dywedodd 99% o ymatebwyr bod y Grant yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogelach ac yn fwy annibynnol yn eu cartref eu hunain, sef cynnydd pellach ar y 97% yn ystod yr un cyfnod y llynedd.
- Dros y flwyddyn gwnaed 146 o atgyfeiriadau'r Fro i'r Gwasanaeth Rhyddhau Llety. O'r rheiny rhyddhawyd 59 o gleifion oherwydd ymyrraeth gan y gwasanaeth, gyda 10 claf yn cael eu

gosod mewn llety 'camu i lawr' nes iddynt allu dychwelyd gartref. Mae hyn gyfystyr ag arbed lle mewn 307 o welyau ysbyty yn ystod y flwyddyn.

- Nid oes unrhyw geisiadau am sbardunau cymunedol ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod i law eleni. Ffactor allweddol yn y perfformiad hwn yw ein ffocws ymyriadau a chymorth cynnar rhagweithiol i ddiodefwyr sy'n cael effaith gadarnhaol. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth drwy'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach i ledaenu gwybodaeth ar sut y gall trigolion toi gwybod i ni am ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Mae nifer y cymunedau sy'n cymryd rhan mewn ymarferion mapio cymunedol yn cynyddu yn y Fro gyda diddordeb pellach yn cael ei ddangos gan grwpiau cymunedol. Mae [adnodd mapio hwylus](#) i ddefnyddwyr wedi'i hyrwyddo ac mae fersiwn copi caled a fersiwn ar-lein ohono ar gael. Mae'r canllaw ymarferol yn helpu cymunedau i nodi asedau cymunedol, adnoddau a sgiliau ac anghenion y gymuned ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud hynny, bydd yn galluogi'r gwaith o lunio synergeddau i fanteisio i'r eithaf ar yr asedau ac adnoddau a nodwyd er budd trigolion. Yn ystod 2016/17, cafodd Gwenfô, Sain Tathan, Y Rhws ac Ystradowen gymorth i ddefnyddio'r adnodd hwn ac rydym yn parhau i'w helpu i wneud cais am arian cyfatebol allanol i ymestyn a gwella eu cyfleusterau lleol.
- Mae'r sylfeini eisoes wedi'u gosod ar gyfer 3 byngalo fel rhan o'r rhaglen adeiladu tai Cyngor £3 miliwn newydd y rhagwelir a gaiff ei gwblhau ar ddiwedd haf 2017. Mae dau gynllun wedi'u nodi dan y rhaglen hon cyn belled a fydd yn creu 8 o gartrefi newydd (byngalos yn bennaf) yn Gibbonsdown. Bydd y datblygiadau newydd yma, ar gyfer oedolion a phlant ag anableddau i ddechrau, yn cynnig cartrefi i'r rhai ag angen gwirioneddol sydd, mewn rhai achosion, wedi bod yn aros am amser hir iawn. Bydd y cartrefi newydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau'r trigolion hyn. Nod y cynllun hwn yw cynyddu nifer y tai Cyngor sydd ar gael ym Mro Morgannwg gyda golwg ar ddiwallu anghenion a nodwyd, a bydd yn helpu i sicrhau cartrefi a chymunedau gwella i denantiaid Cyngor yn yr hirdymor.
- Rydym yn parhau i helpu tenantiaid i liniaru effaith Diwygio Lles. O'r 227 o sesiynau cynghori ariannol a ddarparwyd, mae 227 o denantiaethau yn dal i redeg sydd yn gyfystyr â graddfa llwyddiant o 96%. Bellach mae 100% o'r tenantiaid hyn yn gallu defnyddio cyfrif banc/undeb credyd o ganlyniad i'r cymorth a gynigiwyd.
- Eleni buom yn treialu cynllun llety 'rhannu ystafell' o'r enw 'Rooms4U' mewn partneriaeth â phob un o'n 4 partner Landlord Cymdeithasol Cofrestredig. Hyd yn hyn, mae 3 eiddo a rennir wedi'i sefydlu gyda 6 o denantiaid yn byw ynddynt ac mae cynlluniau pellach i ehangu'r portffolio eiddo a rennir eisoes ar y gweill. Mae'r gwaith hwn yn helpu i liniaru effaith y newidiadau i fudd-dal tai i bobl dan 35 mlwydd oed a'r rheiny sy'n byw mewn llety a chymorth neu lety ar gyfer pobl hŷn.
- Fel rhan o raglen Ardal Adfywio Castleland, mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar 100% o'r eiddo preswyl ar Heol Holltwn ac ar 100% o'r cynllun masnachol. O ganlyniad i'r gwaith hwn mae siopau gwag wedi cael eu troi yn eiddo preswyl. Mae'r gwaith wedi cyfrannu at wella pryd a gwedd eiddo yn yr ardal, yr ardal gyhoeddus yn gyffredinol a hyder cynyddol yn ardal Heol Holltwn Uchaf. Yn Arolwg Barn Cyhoeddus diweddaraf 2016/17, roedd 61.4% o'r ymatebwyr o'r farn bod Heol Holltwn yn dda iawn neu'n eithaf da, sy'n well nag yn yr arolwg blaenorol (61%) yn 2014/15.
- Cafodd 301 o dai fforddiadwy eu creu eleni drwy'r broses gynllunio neu grantiau tai cymdeithasol. Mae hyn yn gynydd ar y 158 a gwblhawyd y flwyddyn flaenorol. O'r 301 o dai fforddiadwy, cafodd 245 eu hariannu drwy arian A106. Yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu nifer y tai fforddiadwy, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu polisi

'safleoedd bach' â thai sy'n 100% fforddiadwy a fydd yn helpu i gynyddu nifer yr opsiynau tai fforddiadwy sydd gan ddatblygwyr.

- Rydym yn parhau i weithio'n galed i nodi atebion priodol ac addas i'r broblem tai er mwyn sicrhau nad yw aelwydydd digartref â phlant neu heb blant yn cael eu hanfon i lety gwely a brecwast mwyach.
- Mae newid prosesau, gwella'r defnydd a wneir o lafur contractau a gwella dulliau adrodd ynghyd ag ymrwymiad timau i ddarparu gwasanaeth gwell wedi arwain at welliannau pellach o ran yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ail-osod eiddo gwag o 35 diwrnod yn 2015/16 i 28 diwrnod yn 2016/17. Rhagwelir y bydd y sefyllfa'n gwella eto yn 2017/18 wrth i'r dulliau newydd o weithio gael effaith ac ar 30 Mehefin 2017, mae hi'n cymryd ychydig mwy nag 17 o ddiwrnodau ar gyfartaledd i ail-osod eiddo gwag.

Deilliant Llesiant 2: Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu

Mae Bro sy'n Gyfrifol yn Amgylcheddol ac yn Ffynnu, yn nodi sut rydym yn cyfrannu at adeiladu economi ac amgylchedd cryf a chynaliadwy, nawr ac yn y dyfodol. Isod ceir amlinelliad o'n safle presennol ar ddiwedd 2016/17, o ran canlyniadau allweddol a meysydd yr ydym wedi bod yn bwrw ymlaen â nhw wrth gyfrannu at y Canlyniad hwn.

Amcan 3: Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth.

- Cafodd Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei gadarnhau ar 1 Mawrth 2017 a bydd yn galluogi twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys y deg awdurdod lleol canlynol: Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd. Nod Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw creu swyddi a hybu ffyniant economaidd drwy wella cynhyrchiant, mynd i'r afael â diweithdra, adeiladu ar sylfeini arloesedd, buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol, cynnig cymorth i'r byd busnes a sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn elwa ar unrhyw fuddiannau economaidd a grëir o ganlyniad. Mae'r Fargaen Ddinesig yn cynnwys cyllid o £734m ar gyfer Metro De Cymru, y mae mwy na £500 ohono yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a £125m gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi cyfraniad o £375m, ac mae'r deg awdurdod lleol wedi cytuno i ymrwymo i fenthycy cyfanswm cyfunol o £120 miliwn fel rhan o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach. Mae'r Cyngor wedi neilltuo £1.25 miliwn o'i gyllideb i'w osod yn erbyn cost y Fargaen Ddinesig, a thrwy hynny atal yr angen i fenthycy arian ychwanegol.
- Mae projectau wedi parhau i gael eu cyflawni yn y Barri fel rhan o raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru sy'n cyfrannu at wella'r amgylchedd i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr. Mae'r uchafbwyntiau eleni wedi cynnwys gwella'r amgylchedd lleol ar Main Street gyda 5 wyneb siop yn cael eu hadnewyddu, trosi blaen siop wag i fformat preswyl a gwella pryd a gwedd 27 o eiddo preswyl. Yng nghanol y dref, mae 4 eiddo preswyl ar Heol Holttwn wedi elwa o gael gwaith adnewyddu allanol wedi'i wneud arnynt. Yn ystod 2016/17, sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer gwella llwybrau beicio a cherdded ar Ynys y Barri. Roedd hyn yn galluogi'r gwaith o gwblhau cam y Sarn/Harbour Road a dechrau gwaith ar y cam i gysylltu'r Sarn/Harbour Road â Friars Point.
- Rydym yn parhau i weithio gyda datblygwyr i gynyddu nifer y tai fforddiadwy sydd ar gael ym Mro Morgannwg. Yn ystod 2016/17, roedd rhwng 30% a 40% o unedau ar ddatblygiadau tai sydd eisoes ar waith wedi'u dynodi'n dai fforddiadwy. Mae hyn

gyfystyr â 332 o eiddo fforddiadwy (28.97%). O'i gymharu, yn ystod 2015/16 darparwyd 164 o unedau tai fforddiadwy ychwanegol sydd gyfystyr â 24% o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd.

- Mae'r gwaith o adfywio twristiaeth yn Ynys y Barri wedi gwneud cynnydd da gyda chyfleusterau 'Gwybodaeth i Ymwelwyr' yn cael eu gosod mewn Mannau Gwybodaeth i Dwristiaid mewn safleoedd niferus o amgylch yr Ynys ac mewn 5 safle allweddol o ran nifer yr ymwelwyr i ategu gwybodaeth a llwybrau i ymwelwyr. Fel rhan o gynllun Sarn Ynys y Barri a gwblhawyd ym mis Mehefin mae'r cysylltiadau wedi'u huwchraddio gyda llwybr cerdded llydan, rheiliau wedi'u hadnewyddu, goleuadau a seddau sy'n ategu gwaith y Cyngor o ran sicrhau opsiynau trafndiaeth gynaliadwy yn ogystal ag amddiffyn yr arfordir. Mae ymdrechion i farchnata cabanau traeth wedi arwain at gynyddu nifer y cabanau sy'n cael eu defnyddio i 66% dros y flwyddyn, gan gyrraedd penllanw o fwy na 93% o gabanau'n cael eu defnyddio ym mis Awst 2016. Mae rhaglen o ddigwyddiadau hefyd wedi'u dylunio i hybu'r defnydd o'r gwaith adfywio ar y promenâd Dwyreiniol ac yn ardal ehangach Ynys y Barri, gan ddatblygu cyfleoedd twristiaeth ymhellach yn y dref glan-môr. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd adfywio a chyflogaeth yn yr ardal leol.
- Cafodd y cynllun blaenoriaeth i fysiau rhwng Croes Cwrlwys a Weycock Cross a'r cynllun beicio/cerdded eu hagor ym mis Mawrth 2017. Mae'r cynllun wedi arwain at greu 188 metr o lwybrau beicio newydd a lôn fysiau sydd wedi arbed amser sylweddol i ddefnyddwyr bysiau ac wedi cynyddu'r nifer sy'n beicio yn yr ardal. Mae'n ymddangos ar y cam cynnar hwn bod y nifer sy'n dewis beicio wedi cynyddu gan tua 500%.
- Yn yr Arolwg Barn Cyhoeddus diweddaraf (2017) roedd mwy na 90% o ymatebwyr yn fodlon gyda mynediad at drafndiaeth gyhoeddus (yn fodlon iawn 37.05%, yn weddol fodlon 53.15%).
- Roedd ymwelwyr ag ardal glan-môr Ynys y Barri yn ystod haf 2016 yn dweud eu bod yn fodlon iawn â'r ardal hon yn gyffredinol. Roedd 99% o ymwelwyr yn dweud bod yr ardal glan-môr un ai wedi bodloni neu ragori'n fawr ar eu disgwyliadau. Barnodd 84% arall bod yr ardal glan-môr un ai'n dda neu ardderchog. Roedd mwy na 97% o ymwelwyr yn fodlon gyda'r chyfleusterau ar Ynys y Barri gyda 77% yn dweud eu bod yn bendant yn bwriadu dychwelyd yno. Hefyd, dywedodd 95% o'r ymwelwyr a holwyd y byddant yn argymhell Ynys y Barri i bobl eraill. Mae'r canlyniad hwn yn ategu'r holl waith cadarnhaol sydd wedi'i gyflawni wrth adfywio'r Ynys glan-môr.
- Bu 2016 yn flwyddyn lwyddiannus arall o ran digwyddiadau nid yn unig yn ystod rhaglen Gŵyl Benwythnos Ynys y Barri ond hefyd ar lefel ehangach yn y Fro, gan wneud Bro Morgannwg yn gyrchfan boblogaidd iawn ar gyfer digwyddiadau gydol y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys Diwrnod Roald Dahl, y llawr sglefrio adeg y Nadolig a digwyddiadau Gŵyl Benwythnos Ynys y Barri. Mae'r digwyddiadau poblogaidd hyn yn cefnogi'r economi ac yn ymestyn y tymor ymhell y tu hwnt i'r tymor gwyliau haf traddodiadol blaenorol.

Amcan 4: Hyrwyddo datblygu cynaliadwy a diogelu'r amgylchedd

- Sicrhodd y Cyngor gyllid o fwy na £9.7 miliwn i'w fuddsoddi yn y gymuned drwy gytundebau Adran A106 mewn cysylltiad â chaniatâd cynllunio yn ystod 2016/17. Lluniwyd 23 cytundeb Adran S106 yn ystod y ddeuddeg mis rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017. Mae'r cytundebau hyn yn mynnu bod datblygwyr tai yn gwneud cyfraniad ariannol tuag at y Fro fel amod o'u caniatâd cynllunio. Roedd cyfanswm y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau cyfreithiol hyn yn £9,794,951.15. Mae'r Cyngor

yn defnyddio'r cyllid hwn i ddarparu neu wella cyfleusterau seilwaith, addysg a chymunedol. Yn ystod 2016/17 defnyddiwyd yr arian i ariannu lleoedd ysgol ychwanegol, cysylltiadau trafndiaeth gyhoeddus newydd, palmantau a llwybrau beicio gwell, cynlluniau celfyddyd gyhoeddus, uwchraddio parciau a meysydd chwarae i blant, a chyfleoedd ar gyfer hyfforddiant a datblygu. Mae'r enghreifftiau amlycaf yn cynnwys meithrinfa newydd yn Ysgol Gynradd Gwenfô, ardal chwarae newydd yn Plassey Square, y cynllun goleuadau ar gyfer y llwybr igam-ogam ym Mhenarth, Cynllun Llwybr Beicio Port Road, cyfleusterau parcio beiciau ym Mhenarth a llwybr beicio/cerdd Penlan yn Llandochoau. Mae'r gofynion rhwymedigaethau cynllunio a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn olaf hefyd wedi cynnwys rhwymedigaethau 'talu mewn nwyddau' megis tai fforddiadwy, man agored cyhoeddus a chelfyddyd gyhoeddus.

- Mae'r Cyngor yn parhau i gynyddu faint o wastraff sy'n cael ei ailgylchu gyda 68.5% o'r gwastraff dinesig a gesglir yn cael ei ailgylchu neu ei aildefnyddio mewn ffordd arall ar ddiwedd y flwyddyn. Mae'r perfformiad hwn yn rhagori ar y targed ailgylchu statudol o 58%. Ar ddiwedd 2016/17, ailgylchwyd 43.21% o'r gwastraff dinesig a gasglwyd gan ragori ar y targed o 35% a pherfformiad yn ystod y flwyddyn flaenorol o 41.62%. Cyflawnwyd hyn drwy'r atebion a sicrhawyd ar gyfer trin deunyddiau gwastraff ac ailgylchu ar wahân. Hefyd, mae perfformiad ailgylchu'r Cyngor wedi cael budd o greu ynni o wastraff drwy'r Prosiect Gwyrdd.
- Dyfarnwyd 6 gwobr i Bro Morgannwg am gyflwyr ei thraethau yn ystod 2016/17. Dyfarnwyd dwy Faner Las i Farina Penarth a Bae Whitmore, prif draeth Ynys y Barri. Y Faner Las a gydnabyddir yn rhyngwladol yw'r safon aur ar gyfer traethau a marinas ac mae ei sicrhau yn ategu'r gwaith adfywio a gyflawnwyd yn Ynys y Barri. Dyfarnwyd gwobrau glan-môr hefyd i Fae Whitmore, Bae Jacksons, y Cnap a Southerndown, gan ragori ar y targed am y flwyddyn. Wedi'i dyfarnu gan Cadwch Gymru'n Daclus, mae'r wobwr glan-môr yn symbol o safon sy'n sicrhau y gall ymwelwyr ddisgwyl traeth glân, diogel, deniadol sy'n cael ei reoli'n dda.
- Mae gwaith i wella bioamrywiaeth ym Mro Morgannwg wedi arwain at gyflawni rhaglen o brojectau bioamrywiaeth sy'n cynnwys y canlynol: Rheoli 5 hectar o goetir llydanddail yn sensitif; gwneud gwelliannau gynefin 500m² y Pili-pala Brith Brown; ailgyflwyno 250 o Lygod y Dŵr ym mhentref canoloesol Cosmeston; creu pyllau ar yr Arfordir Treftadaeth ar gyfer Madfallod Cribog Mwyaf; gwneud gwaith ar byllau ym Mharc Gwledig Porthceri a rheoli cynefinoedd nifer o rywogaethau a ddiogelir. Yn ychwanegol i'r projectau ffisegol, gwnaed gwaith ymgynghori sylweddol i hyrwyddo bioamrywiaeth i fwy na 100 o ysgolion/grwpiau a thrwy gynnal mwy na 120 o ddiwrnodau gwirfoddoli yn y cymunedau lleol.
- Yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i greu amgylchedd glanach a gwyrddach, rydym wedi penodi 3GS, sefydliad gorfodi amgylcheddol arbenigol, i gorfodi polisi diwygiedig y Cyngor. Bydd y dull hwn yn parhau i fynd i'r afael â sbwriel, tipio anghyfreithlon a throeddau baw cŵn ac mae'n adlewyrchu ein polisi dim goddefgarwch o ddelio â'r troeddau hyn ym Mro Morgannwg.
- Mae glendid strydoedd yn y Fro yn parhau yn uchel gyda 76.43% o'r strydoedd a archwiliwyd o dan y Mynegai Glendid yn cael eu cynnal i safon foddhaol, gan ragori ar y targed o 73.2% a pherfformiad yn ystod yr un cyfnod y llynedd (69.75%).
- Mae nifer y bobl sy'n fodlon ag ymweliadau i barciau gwledig yn parhau yn uchel o hyd. Dywedodd 98% o drigolion y Fro eu bod yn fodlon gyda'r parciau gwledig yn yr ardal. Hefyd, trefnwyd 26 o ymweliadau pwrpasol i barciau gwledig, gan ragori ar y targed o 245. Mae gwaith bioamrywiaeth, ad-drefnu staff y parciau Gwledig a'r gwaith parhaus o wella cyfleusterau a chyfleoedd masnachol yn y parciau oll wedi cyfrannu at gynyddu nifer yr ymwelwyr a lefelau boddhad uchel. Mae bwrw ati i farchnata'r

cyfleusterau yn y Pentref Canoloesol a phecyn Addysg Amgylcheddol a ddiweddarwyd yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n cyd-fynd â Chyfnodau Allweddol y Cwricwlwm Cenedlaethol hefyd wedi cyfrannu at y llwyddiant.

- Mae 100% o'r 249 o geisiadau 'cynllun llawn' sydd wedi dod i law eleni wedi'u cael eu cymeradwyo ar y cam cyntaf, gan ragori ar y targed o 99%. Mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio ar lefel y chwarterel uchaf wrth i nifer y ceisiadau gynyddu. Mae'r perfformiad uchel cyson drwy gydol y flwyddyn o ganlyniad i reoli adnoddau'n effeithiol a gwaith caled y staff. Mae perfformiad cadarnhaol yn parhau mewn perthynas â cheisiadau a benderfynir cyn pen 8 wythnos er gwaetha'r ffaith fod yr awdurdod yn y 5ed safle yng Nghymru o ran nifer y ceisiadau a gyflwynwyd eleni gyda 91.02% o'r holl geisiadau cynllunio yn cael eu penderfynu cyn pen 8 wythnos. Mae hyn yn rhagori ar ein targed o 80% a'n perfformiad o 85.7% yn ystod yr un cyfnod y llynedd. Mae cynnydd da hefyd wedi'i wneud wrth edrych yn benodol ar ganran y ceisiadau cynllunio gan berchenogion tai a benderfynir cyn pen 8 wythnos. Mae ein perfformiad o 95.75% yn rhagori ar ein targed o 90%, ac yn gynydd pellach ar y 93.6% a benderfynwyd yn ystod yr un cyfnod ym 2015/16.
- Mae gwelliannau'n parhau i fynd rhagddynt yn ein canol trefi fel rhan o fframwaith fabwysiedig y Cyngor. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnal bywiogrwydd ein prif canol trefi yn wyneb hinsawdd anodd i ganolfannau manwerthu ar lefel genedlaethol, gan gynnig amgylchedd gwell i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr. Yn yr Arolwg Barn Cyhoeddus ddiweddar (2017), barnwyd lefelau boddhad â chanol trefi'r Fro fel a ganlyn: Y Barri, Heol Holltwn (61.4%), Y Barri, Stryd Fawr (74.4%), Penarth (95.6%), Y Bont-faen (97.7%), Llanilltud Fawr (90.3%). Roedd y canlyniadau hyn yn well na chanlyniadau'r arolwg blaenorol.
- Yn ystod 2016/17, casglodd y Cyngor £6,748,338.63 o gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr drwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol / cytundebau Adran 106 (A106). Fel cymhariaeth, casglwyd tua £20 miliwn ledled Cymru gyfan yn ystod yr un cyfnod sy'n nodi ein llwyddiant o ran negodi yn y maes hwn fel dull o ariannu buddsoddiad yn yr ardal.
- Yn 2015 gwariodd y Cyngor £344,795 gan lenwi 2,300 o geudyllau dan ei fenter Trwsio Tyllau. Cyn ymweld â ward rydym yn gofyn i'r cyhoedd roi gwybod i ni os ydynt wedi dod ar draws unrhyw ddiffygion aar y briffordd gan gynnwys ceudyllau. Drwy gydol y flwyddyn buom yn ymweld â'r 23 ward gyda'r holl waith trwsio'n cael ei wneud dros un penwythnos. Rydym wedi parhau a'r ymgyrch hon yn 2016 gan wario £392,245 arall a thrwsio 2,568 o geudyllau pellach.

Canlyniad Llesiant 3: Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant

Mae Bro Uchelgeisiol a Bywiog o ran Diwylliant yn amlinellu sut rydym yn cyfrannu at sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn gallu manteisio ar gyfleoedd i'w galluogi i wireddu eu llawn botensial a chyfoethogi eu profiadau diwylliannol. Isod ceir amlinelliad o'n safle presennol ar ddiwedd 2016/17, o ran canlyniadau allweddol a meysydd yr ydym wedi bod yn bwrw ymlaen â nhw wrth gyfrannu at y Canlyniad hwn.

Amcan 5: Codi safonau cyflawni yn gyffredinol.

- Yn ystod y flwyddyn, mae'r Atodiad Awdurdod Lleol wedi cynnig cyfleoedd i rannu rhagoriaeth rhwng ysgolion â'r nod o godi safonau cyflawniad ar gyfer disgyblion ym Mro Morgannwg. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy ymweliadau i ysgolion yn Lloegr a ddilynir gan adolygiadau gan gyfoedion mewn triawdau. Mae llwyddiant y dull hwn

eisoes yn amlwg gyda safonau'n gwella yn yr holl ddangosyddion perfformiad allweddol ac ym mhob achos bron mae graddfa'r gwelliant wedi bod yn uwch yn y Fro nac yng Nghymru ar gyfartaledd yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16.

- Mae'r holl ysgolion a fu'n destun monitro gan yr Awdurdod Lleol wedi cael eu tynnu oddi ar y rhestr cyn pen blwyddyn o'r arolwg. Dim ond 2 ysgol sy'n destun monitro gan Estyn, ac mae'r ddwy ysgol dan sylw wedi gwneud cynnydd da fel sy'n amlwg mewn cyfarfodydd cynnydd gydag Gynghorwyr Herio a swyddogion yr awdurdod lleol, ac maent felly yn fwy tebygol o gael eu tynnu oddi ar y rhestr erbyn diwedd tymor yr haf.
- Rydym wedi rhoi Rhaglen Sefydlu Penaethiaid y Fro ar waith a anelir at gryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion a sicrhau bod penaethiaid newydd yn gwybod am y cymorth sydd ar gael iddynt. Mae adborth gan Benaethiaid wedi bod yn bositif dros ben.
- Mae cau'r blwch o ran perfformiad y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Eleni mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo o ran sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol drwy Gynghorwyr Herio yn craffu ar ddata tracio ysgolion a chynlluniau gwariant y Grant Amddifadedd Disgyblion. Ers 2012, mae perfformiad ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer disgyblion sy'n hawlio prydau ysgol am ddim wedi gwella. Mae'r uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys:
 - mae ein perfformiad mewn perthynas â disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim wedi gwella 14% o ran cyflawniad ar drothwy lefel 2 yn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg rhwng 2015/16 a 2016/17.
 - O ran cau'r blwch, yn ystod 2015/16 (blwyddyn academaidd 2014/15) roedd y bwch o ran cyflawniad rhwng disgyblion sy'n cael PYADd a disgyblion eraill ar gyfer trothwy lefel 2 yn 39.93% ac erbyn 2016/17 (blwyddyn academaidd 2015/16) roedd hwn wedi gostwng i 27.73%. Pan fo'r bwch cyflawniad wedi lledu mae hyn oherwydd bod y canlyniadau ar gyfer y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael PYADd wedi gwella'n gynt. Un o'r meysydd pwysicaf i'w nodi yw perfformiad yn lefel 2 lle mae'r bwch rhwng y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion eraill yn cau'n gynt ym Mro Morgannwg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru.
- Mae Panel Ymarferwyr bellach ar waith yn yr holl ysgolion sy'n cymryd rhan yn y project 'Ysbrydoli i Gyflawni' sy'n canolbwyntio ar dargedu pobl ifanc sy'n agored i niwed yn effeithiol er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol ac amserol i wireddu eu potensial. Bydd hyn yn cyfrannu tuag at leihau ymhellach y lefelau o ran nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) ym Mro Morgannwg.
- Mae parhau i leihau lefelau NEET yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Eleni mae canran y bobl ifanc NEET yn ysgolion y Fro wedi parhau i ostwng am y nawfed flwyddyn yn olynol i 1.6% (1.76% yn 2015/16). Mae nifer y bobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 12 sy'n NEET hefyd wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol o 1.52% i 1.3%. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion, sefydliadau lleol, gan gynnwys cyflogwyr a thrwy fenter Cymunedau yn Gyntaf drwy weithwyr NEET penodol i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant drwy glybiau gwaith, mentoriaid ieuencid a chynnig cyrsiau hyfforddi i hyrwyddo cyfleoedd dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth. Mae hyn wedi cyfrannu tuag at ein llwyddiant parhaus o ran sicrhau gostyngiad cyffredinol yn nifer bobl a ystyrir yn NEET yn y Fro sydd wedi gostwng gan 21% yn y flwyddyn ddiwethaf.

- Mae gwelliannau yn dal i fynd rhagddynt mewn ysgolion drwy'r rhaglen Ad-drefnu Ysgolion a Buddsoddi a rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif. Yn ystod 2016/17, cwblhawyd gwaith adeiladu yn Ysgol y Ddraig ac Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr sydd wedi sicrhau cyfleusterau ac amgylcheddau dysgu gwell.
- Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i asesu goblygiadau'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol ac o ran gofalu ein bod yn cydymffurfio ag ef er mwyn sicrhau canlyniadau uchelgeisiol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol. Yn ystod y flwyddyn, cwblhawyd pedwar project yn llwyddiannus gan y pum awdurdod yng Nghonsortium Canolbarth y De, gyda chymorth cyllid Arloesi ADY o £250,000 gan Lywodraeth Cymru. Y Fro oedd yn gyfrifol am arwain y project Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar y Person ac mae wedi hyfforddi'r holl Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol yn unol a chyfarwyddeb Llywodraeth Cymru.
- Mae data cyflawniad ar gyfer yr holl ddisgyblion ADY yn nodi bod y disgyblion hyn wedi cyflawni canlyniadau uwch o'i gymharu â gweddill Cymru ym mhob dangosydd perfformiad bron ym mhob cyfnod allweddol yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd canlyniadau disgyblion ADY yn uwch na chyfartaleddau Cymru gyfan ym mhob dangosydd perfformiad. Hefyd yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, roedd y canlyniadau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yn uwch na chyfartaleddau Cymru ym mhob dangosydd perfformiad ar wahân i'r Gymraeg. Yng Nghyfnod Allweddol 4, mae perfformiad ADY wedi gwella ar lefel 2+ ac roedd y canlyniadau yn uwch na chyfartaleddau Cymru gyfan yn Lefel 2 yn Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.
- Rydym wedi llwyddo i gyflawni rhaglen o weithgareddau drwy gydol y flwyddyn a anelir at gynyddu a gwella cyfleoedd dysgu i unigolion dan anfantais a'u teuluoedd. Mae'r project EMOJIS yn raglen ddwys sydd wedi bod yn targedu pobl ifanc 8-14 mlwydd oed y nodwyd eu bod yn dioddef problemau emosiynol ac ymddygiadol. Eleni, bu 50 o fyfyrwyr rhwng 8 a 12 mlwydd oed a 13 a 16 mlwydd oed yn cymryd rhan mewn chwe rhaglen 10 wythnos o hyd. Ar ôl cwblhau'r rhaglen, dywedodd 70% o'r bobl ifanc eu bod yn gallu ymdopi'n well â phroblemau sy'n codi o ddydd i ddydd. Mae'r rhaglen 'Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf' yn targedu plant oedran cynradd a'i nod yw cael gwared â'r hyn sy'n eu rhwystro rhag ymgysylltu a chanolbwyntio ar wella sgiliau rhianta, sgiliau cymdeithasol a sgiliau sylfaenol yn yr hirdymor. Eleni, bu 11 o ysgolion a 4 lleoliad cymunedol yn cymryd rhan yn y gwaith o gyflwyno'r project i fwy na 488 o deuluoedd. Yn ystod yr un cyfnod, cwblhaodd 40 o rieni gwrs Cysylltiadau Teuluol - Magu Plant, cyflwynwyd 41 o gyrsiau achrededig a 12 o gyrsiau 'Camau Cymhellant' yn ogystal. Cafwyd adborth cadarnhaol gan rieni gyda 100% o rieni yn nodi bod y cyrsiau Magu Plant/Datblygiad y Plentyn y maent wedi'u dilyn wedi gwneud gwahaniaeth o ran eu dealltwriaeth o'u rôl fel rhiant ac mae 96% o'r cyfranogwyr wedi dweud bod ganddynt yr hyder i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth eraill o ganlyniad.
- Rydym wedi parhau i gynnig cymorth i blant sy'n agored i niwed i bontio o'r ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd, sydd hefyd wedi helpu i grynha'u'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r cartref. Eleni cwblhaodd 633 o ddisgyblion Gynllun Pontio Personol a sefydlwyd mwy na 1,500 o gysylltiadau â disgyblion a rhieni. O ganlyniad dywedodd 100% o'r disgyblion a rhieni a gynorthwywyd gan y project eu bod wedi cael budd o'r ymyriadau a gynigiwyd. Mewn cysylltiad â'r gwaith a gyflawnwyd drwy'r fenter Cymunedau yn Gyntaf o ran cynnig cymorth i bontio rhwng ysgolion mewn ardaloedd cymwys, gwelwyd gwelliant ym mherfformiad academaidd 68 o bobl ifanc, gan ragori ar ein targed o 45, a chynyddodd lefelau presenoldeb 75 o bobl ifanc yn erbyn targed

o 45. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae 26 o rieni wedi cynyddu/gwella eu cysylltiadau ag ysgolion.

- Yn ystod 2015/16 (blwyddyn academaidd 2015/16) roedd y raddfa llwyddiant ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth ar gyrsiau achrededig yn 96%, sef gwelliant o 26% ar ganlyniadau'r flwyddyn academaidd flaenorol gan ragori ar y targed o 86% ar gyfer eleni. Yn ogystal bu cynnydd yn nifer yr ymrestrïadau ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth eleni o 736 i 910 o ddysgwyr, gan ragori ar y targed a osodwyd sef 100 o ddysgwyr ychwanegol. Roedd y gwelliant hwn yn rhannol oherwydd cynnydd yn argaeledd cyrsiau byr a thargedu gwell er mwyn bodloni anghenion dysgwyr.
- Mae tuedd barhaus tuag i fyny yng nghanran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg ar gyfer pob disgybl (96.64%) a disgyblion nad ydynt yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim (heb fod yn FSM) (96.24%), y ddau yn rhagori ar y targed a pherfformiad y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae ein perfformiad ar gyfer pob disgybl yn dangos cynnydd o 5.9% ers 2012 ac yn golygu mae ni yw'r ail Awdurdod Lleol uchaf yng Nghymru.
- Yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi parhau i godi i 95.05% o 94.71% yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Cafodd y perfformiad hwn ei gefnogi gan ein cydweithio gydag ysgolion o ran gweithredu hysbysiadau cosb benodedig a Strategaeth Callio. Mae hyn yn golygu ein bod ymhlith y chwarter uchaf o berfformwyr yng Nghymru (ail safle). Roedd perfformiad mewn perthynas ag ysgolion cynradd yn adlewyrchu ein perfformiad y llynedd, a 95.3% oedd y ffigwr. Roedd y ffigwr hwn yn golygu bod y Fro y bumed orau yng Nghymru unwaith eto.
- Barnwyd bod pob un o'r 8 ysgol a arolygwyd eleni o leiaf yn "dda" ar gyfer perfformiad presennol a rhagolygon ar gyfer gwella gan Estyn, sy'n well na'r 80% a gyflawnwyd y llynedd. Mae'r gwelliant hwn oherwydd y disgwyliadau uchel, y cyfathrebu clir a'r arweinyddiaeth gref a fu'n gyson drwy gydol y flwyddyn.
- Cyflwynwyd 100% o ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig o fewn 26 wythnos (gan gynnwys a heb gynnwys eithriadau).

Amcan 6: Gwerthfawrogi Diwylliant ac Amrywiaeth

- Agorodd Canolfan Dysgu Agored Bro Morgannwg sydd o'r radd flaenaf ym mis Tachwedd 2016. Mae'r buddsoddiad hwn yn Llyfrgell Y Barri wedi rhoi cyfleuster heb ei ail i'r Fro, a adeiladwyd yn bwrsapol er mwyn helpu trigolion o bob oedran i ennill sgiliau a gwybodaeth ac ehangu eu gorwelion. Cafodd holl wasanaethau mwyaf poblogaidd y llyfrgell eu cadw ac mae gwasanaethau newydd ychwanegol ar gael. Bellach gall defnyddwyr gael mynediad at ystod o gyrsiau addysgu i oedolion gan gynnwys gweithdai cyfrifiaduron galw heibio, sgiliau cyflogadwyedd, Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) a chysiau mathemateg ar gyfer y rhai sydd eisieu datblygu eu sgiliau ar gyfer bywyd a gwaith - i gyd yn yr un lleoliad.
- Mae gwaith i ddatblygu rhwydwaith o lyfrgelloedd dan reolaeth cymunedau wedi gwneud cynnydd da eleni ac mae pum llyfrgell wedi trosglwyddo i reolaeth gymunedol. Mae hyn yn unol ag ymagwedd y Cyngor i weddnewid sut mae'n darparu gwasanaethau er mwyn gwella a sicrhau eu cynaliadwyedd yn y tymor hir. Ers trosglwyddo, gwiredwyd rhai buddion eisoes, er enghraifft, cynnydd yn y defnydd yr adroddir arno yn llyfrgelloedd Sili a Gwenfô.
- Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i wella ein hamser ymateb ar gyfer yr holl gwsmeriaid sy'n cyrchu gwasanaethau'r Cyngor ar draws pob sianel. Derbyniwyd

cyfanswm o 1,307 o ymholiadau ar y llinell laith Gymraeg yn ystod y flwyddyn a rhagorodd cyflymder cyfartalog ateb y ffôn, sef 35 eiliad, ar y targed o 45 eiliad, ar gyfer bob chwarter. Mae hyn welliant ar y cyfartaledd o 42 eiliad ar gyfer yr un cyfnod y llynedd.

- Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i wella gwasanaethau ar gyfer siaradwyr a dysgwyr Cymraeg ym Mro Morgannwg, sy'n cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwm o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Yn ystod 2016/17, gwnaethom ymgynghori â phob rhanddeiliad allweddol ar ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-20 a chyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru (LIC) ym mis Ionawr 2017 i'w gymeradwyo. Yn ogystal, cafodd Strategaeth Hyrwyddo'r laith Gymraeg ei mabwysiadu ym mis Mawrth 2017, yn dilyn cyfnod o ymgynghori cyhoeddus.
- Mae pob agenda Pwyllgorau'r Cyngor yn cael eu hargraffu yn Gymraeg a Saesneg, sy'n caniatáu i ddinasyddion gael mynediad at agendâu yn eu dewis iaith, yn unol â safonau'r Gymraeg. Yn ogystal, mae trefniadau ar waith sy'n sicrhau, os gofynnir am gyfieithydd mewn cyfarfodydd, ceisir darparwr a fydd yn cynnig i'r rhai y mae'n well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg, y dewis o gael cyfieithu ar y pryd yn Gymraeg.
- Mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau bod ei bolisiâu a'i benderfyniadau'n deg ac yn gyfartal yn unol â'i ddyletswydd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Cymerir ymagwedd gorfforaethol i ymgymryd ag Aseidiadau Effaith ar Gydraddoldeb, ac mae arweiniad cam wrth gam ar sut i ymgymryd â'r aseidiadau ac enghreifftiau o ffurflenni wedi'u llenwi ar gael trwy StaffNet. Cafodd hyn ei hysbysebu'n eang a hefyd mae cefnogaeth ar gael gan y tîm Cydraddoldeb Corfforaethol a fydd yn helpu i wella ansawdd yr Aseidiadau o Effaith ar Gydraddoldeb a lunnir ar draws gwasanaethau'r Cyngor.

Deilliant Lles 4: Bro actif ac iach

Mae Bro Actif ac Iach yn rhestru sut y byddwn yn gwella iechyd a lles ein trigolion wrth sicrhau bod dulliau diogelu priodol ar waith er mwyn amddiffyn a chefnogi ein hunigolion mwyaf agored i niwed. Isod ceir amlinelliad o'n safle presennol ar ddiwedd 2016/17, o ran canlyniadau allweddol a meysydd yr ydym wedi bod yn bwrw ymlaen â nhw wrth gyfrannu at y Canlyniad hwn.

Amcan 7: Annog a hyrwyddo ffyrdd iach o fyw

- Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn y Fro yn ôl ein Harolwg Barn y Cyhoedd (2017). Roedd 46% o oedolion 16+ oed yn cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol bob dydd; 17% o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos a 9% o leiaf unwaith yr wythnos. Adroddodd y data diweddaraf o'r Arolwg Oedolion Actif (Chwaraeon Cymru 2014) fod 46% o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol 3 gwaith neu fwy yr wythnos (meini prawf "wedi gwirioni ar chwaraeon").
- Yn ôl yr Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru (2015/16), mae cyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc wedi cynyddu (ers 2013) o 8% ac mae 52% o blant rhwng 7 ac 16 oed yn y Fro erbyn hyn yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol o leiaf tair gwaith yr wythnos, sef y trydydd uchaf yng Nghymru.
- Rydym wedi llwyddo i weithredu ein Cynllun Chwaraeon a Gweithgareddau Corfforol yn y Fro (LAPA) ar gyfer 2016/17 trwy gyflwyno projectau cynlluniedig sy'n targedu'r 6 maes o fewn y Cynllun, sef: datblygu sgiliau sylfaen a llythrennedd corfforol; datblygu clybiau a chanolfannau hamdden cynhwysol sy'n ffynnu; datblygu gweithgareddau anffurfiol sy'n defnyddio amgylcheddau naturiol ac adeiledig y Fro; lleihau

anhydraddoldeb rhwng grwpiau gwahanol yn y gymdeithas; datblygu gweithlu gwybodus a chyflwyno mwy o bobl i gystadlaethau llawn hwyl. Mae hyn yn unol ag ymrwymiad y Cyngor i annog a chynyddu cyfranogiad rheolaidd mewn gweithgareddau corfforol. Mae llwyddiannau allweddol yn cynnwys: mwy na 292 o sefydliadau yn cael effaith ar y cynllun a'i gyflawniadau; manteisiwyd ar fwy na 1,174 o gyfleoedd hyfforddi gan unigolion o fwy nag 80 o sefydliadau trwy'r rhaglen datblygu'r gweithlu; Mwy na 1,000 o gyfranogwyr mewn cyfleoedd newydd ar gyfer benywod yn y project 'Merched yn Ymarfer Corff'; cymerodd 1,667 o blant a phobl ifanc ran yn rhaglen Cystadlaethau a Gwyliau'r Fro; manteisiodd 522 o aelodau anabl y clwb a 630 o aelodau sesiynau chwaraeon i bobl anabl ar 50 o gyfleoedd cynhwysol a rhai sy'n benodol i bobl anabl; cafodd dros 1,000 fynediad at sesiynau 'Dysgu Nofio' i ysgolion mewn canolfannau hamdden yn y Fro. Mae'r Fro yn parhau i fod yr unig Gyngor yng Nghymru nad oes arno angen cymhorthdal refeniw i weithredu ei Ganolfannau Hamdden.

- Trwy ein gwaith i gynyddu cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau corffol, enillasom y Wobr Efydd ar gyfer Insport gan Chwaraeon Anabledd Cymru, sef y wobwr uchaf a oedd ar gael ar y pryd ac rydym yn gweithio tuag at ennill y Wobr Arian. Rydym yn parhau i weithio gyda chlybiau chwaraeon er mwyn cynyddu'r nifer sy'n darparu naill ai cyfleoedd cynhwysol neu rai sy'n benodol i anableddau. Yn ystod 2016/17, cynigodd 50 o glybiau gyfleoedd cynhwysol neu rai sy'n benodol i anableddau o'i gymharu â 47 o glybiau yn ystod y flwyddyn flaenorol. O'r 50, mae 17 wedi cyflawni achrediad Insport cenedlaethol sy'n dangos eu cynwysoldeb ar gyfer pobl anabl.
- Mae gwasanaeth emosiynol a lles newydd wedi'i sefydlu, sy'n gweithio'n gyfannol gyda phobl ifanc ar draws y Fro er mwyn mynd i'r afael â nifer o faterion, gan gynnwys camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach er mwyn sicrhau ymyrraeth wedi'i thargedu sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd gyda'r nod o atal/lleihau tebygolrwydd o oedolion yn camddefnyddio sylweddau neu alcohol. Ers iddo gael ei sefydlu yn ystod Chwarter 2, mae'r gwasanaeth ar gyfer Caerdydd a'r Fro wedi derbyn 414 o atgyfeiriadau. O'r rhain roedd 37 (8.9%) ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau; 153 (36.6%) yn gysylltiedig â materion gorbryder; a 138 (33.3%) yn gysylltiedig â materion dicter. O'r holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd, roedd 198 (48%) yn wrywaidd a 216 (52%) yn fenywaidd.
- Dyfarnwyd y Faner Werdd ddymunol i 7 o'n parciau gan elusen amgylcheddol flaenllaw Cymru, sef Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n rhagori ar ein targed o 6. Mae statws y Faner Werdd yn nod rhagoriaeth sy'n cydnabod parciau a mannau gwyrdd gorau'r wlad. Hefyd, dyfarnwyd 3 Dyfarniad Cymunedol y Faner Werdd i'r Fro yn ystod y flwyddyn, gan gydnabod y mannau gwyrdd o ansawdd dda yn y Fro a reolir gan grwpiau gwirfoddol sy'n parhau i gynnig lle diogel i drigolion o bob oedran ddod ynghyd er mwyn cymdeithasu a dysgu.
- Mae boddhad â Teuluoedd yn Gyntaf yn gadarnhaol iawn ar 97%. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gofnodi'r data hwn ac mae'r perfformiad yn ymwneud â 1,569 allan o 1,622 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn defnyddio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.
- Cwblhawyd y gwaith o adeiladu 6 cae pêl-droed pump bob ochr bob tywydd yng Nghanolfan Chwaraeon Y Barri ac mae'r cyfleusterau newydd eisoes yn cael llawer o ddefnydd, sy'n cyfrannu at nod y Cyngor o gynyddu cyfranogiad trigolion y Fro mewn gweithgareddau corfforol er mwyn gwella eu hiechyd a'u lles.

- Mae 100% o'r ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd y mae'r Cyngor yn darparu ar eu cyfer yn cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) ac rydym yn parhau i weithio gydag ysgolion i gynnal hyn.
- Rydym wedi llwyddo i gyflwyno ein rhaglen addysg a hyfforddiant trafndiaeth ysgolion flynyddol ar gyfer 2016/17 er mwyn annog ffyrdd o fyw a theithio actif a gwella ymwybyddiaeth pobl ifanc o ddiogelwch ar y ffyrdd. Roedd uchafbwyntiau'r rhaglen yn cynnwys: cyflwyno hyfforddiant ar Gonffederasiwn Trafndiaeth i Deithwyr i 643 o ddisgyblion; derbyniodd 1124 o ddisgyblion lefel 1 hyfforddiant beicio safonol cenedlaethol; derbyniodd 1110 o ddisgyblion lefel 2 hyfforddiant beicio safonol a chyflwynwyd ymgynghoriad ar deithio llesol i 1,000 o ddisgyblion.
- Trwy'r cymorth effeithiol a ddarparwyd i deuluoedd, cyrhaeddodd mwyafrif y plant (78%) sy'n cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg y cerrig milltir datblygu yn 3 oed, sy'n gynydd o 2% ar ein perfformiad y llynedd. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16, cyflawnodd 88.31% o leiaf y canlyniad disgwylidiedig (Deilliant 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
- Er gwaethaf gostyngiad o ran cyllid ac effaith deddfwriaeth newydd, gwnaethom ddarparu rhaglen chwarae lwyddiannus yn ystod y flwyddyn, ar y cyd â sefydliadau partner megis Teuluoedd yn Gyntaf. Cafodd 586 o blant eu cofrestru fel rhai sy'n mynychu sesiynau cynllun chwarae a Cheidwad Chwarae, a mynychodd 1,475 o deuluoedd y 9 digwyddiad a oedd yn cynnwys gweithgareddau chwarae. Cafodd presenoldeb yn y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol a galluogodd y digwyddiadau fwy o blant i gael mynediad at weithgareddau chwarae traddodiadol megis celf a chreffft a chwarae yn yr awyr agored. Hefyd mae wedi annog teuluoedd i ymgymryd â rhagor o weithgareddau gyda'i gilydd ac mae wedi darparu cyfle i blant anabl chwarae gyda'u cyfoedion yn ystod cyfnodau o wyliau'r ysgol yn ogystal â rhoi seibiant i'r teuluoedd.

Amcan 8: Diogelu'r rheiny sy'n agored i niwed a hyrwyddo byw'n annibynnol.

- Mae 100% o ysgolion yn y Fro wedi mabwysiadu Polisi Recriwtio Diogelach y Cyngor ac ar hyn o bryd mae 93% o benodiadau o fewn cwrpas y polisi yn cydymffurfio, o'i gymharu â 67% yn y flwyddyn flaenorol. Mae monitro cydymffurfio yn parhau ac ymgymerir â hyfforddiant mandadol ar recriwtio diogelach ym mhob ysgol ac yn gorfforaethol.
- Roedd 363 o ddefnyddwyr teleofal newydd eleni, sy'n rhagori ar ein targed o 309 ar gyfer 2016/17 a'n perfformiad y llynedd o 330. Mae helpu pobl trwy gynyddu'r gefnogaeth sydd ar gael i'w galluogi i barhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi yn flaenoriaeth o hyd i'r Cyngor.
- Mae cynnydd cyson yn parhau i fod yn nifer y defnyddwyr gwasanaethau i oedolion sy'n derbyn taliadau o ganlyniad i'n hymdrech barhaus ni i hyrwyddo'r gwasanaeth. Cofrestrwyd 242 o ddefnyddwyr newydd i dderbyn taliadau uniongyrchol yn ystod y flwyddyn, sy'n welliant ar y 175 o ddefnyddwyr yn y flwyddyn flaenorol.
- Adroddodd 100% o gleientiaid Cefnogi Pobl a gafodd eu cyfweld yn ystod y flwyddyn eu bod yn fodlon â'u cefnogaeth, sy'n adlewyrchu ein perfformiad y llynedd. Mae ymagwedd ragweithiol yn parhau ei gael ei chymryd tuag at y gwelliannau yn y gwasanaeth trwy fonitro ac adolygu darpariaeth gwasanaeth yn rheolaidd sy'n galluogi gwasanaethau wedi'u targedu'n well yn unol ag anghenion.
- Cynhaliwyd cysylltiad gyda 100% o bobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal ar ôl rhagori ar ein targed o 98%. Gwyddys bod pob un o'r 29 o bobl ifanc (100%) a oedd gynt yn derbyn gofal ac rydym mewn cysylltiad â nhw o hyd, mewn llety addas nad yw ar gyfer argyfwng yn 19 oed.

- Cafodd 97.62% o blant eu cefnogi i barhau i fyw gyda'u teuluoedd er mwyn atal y plentyn rhag mynd yn un sy'n derbyn gofal.
- Rydym wedi defnyddio Cyllid Gofal Canolradd (ICF) er mwyn datblygu gwasanaethau ataliol sy'n helpu i hyrwyddo byw'n annibynnol ac mae chwe gwasanaeth ychwanegol yn cael eu creu trwy'r cynllun grant; maent i gyd yn addo bod yn gynaliadwy ac yn hunan-gyllidol. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys: gwasanaeth gosod rampiau newydd a ddarperir gan Gofal a Thrwsio, clwb ciniawa ar gyfer pobl hŷn a ddarperir gan Broiect Ieuenctid Tregatwg, a chefnogaeth i alluogi'r Food Shed i weithredu ar draws y Fro gan ddsbarthu bwyd poeth, a therapi crefftau a chelf a ddarperir gan Nexus.
- Yn ystod 2016/17, cafodd 6 gwely gofal canolradd yn Uned Ail-alluogi Tŷ Dyfan eu comisiynu gan Gyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro gan ddefnyddio cyllid ICF. Mae'r uned newydd hon wedi cyfrannu at leddfu rhywfaint o'r pwysau ar welyau ysbytai ac wedi cefnogi preswylwyr hŷn i adennill eu hannibyniaeth.
- Rydym wedi lansio Strategaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant sydd wedi derbyn cyhoeddusrwydd helaeth ymysg staff gwasanaethau cymdeithasol a phartneriaid a sefydliadau allanol. Mae gweithredu yn canolbwyntio ar ymgysylltu'n effeithiol gyda phob partner a monitro cynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol mewn modd effeithlon.
- Cafodd penderfyniad ei wneud o fewn un diwrnod gwaith mewn 99.73% o atgyfeiriadau mewn perthynas ag ymholiadau neu bryderon am blant, sy'n rhagori ar ein targed o 99%. Mae hyn yn welliant ymylol ar berfformiad y llynedd, sef 99.34% ac mae'n parhau'n gyson uchel.
- Yn dilyn diwygiad Llywodraeth Cymru i ddiffiniad Mesur Gwasanaethau Cymdeithasol Statudol 19 i gynnwys y rhai sy'n 75 oed ac yn hŷn yn unig (o'r blaen roedd wedi cynnwys y rhai 18 oed ac yn hŷn), y gyfradd o drosglwyddiadau gofal wedi'u gohirio ar gyfer y rhai 75 oed ac yn hŷn oedd 2.59 ar ddiwedd y flwyddyn, sydd ymhell o fewn ein targed o 4.5. Mae'r perfformiad hwn yn ymwneud â 30 gohiriad o ran trosglwyddo dros y flwyddyn.
- Cafodd risgiau eu rheoli ym mhob un (100%) atgyfeiriad amddiffyn oedolion, sy'n rhagori'n gyson ar ein targed o 95%.
- Parheir i wneud gwelliannau yn ein prosesau Grantiau Cyfleusterau i bobl Anabl (DFG) sy'n ein galluogi ni i leihau amseroedd darparu ymhellach. Mae nifer gyfartalog y diwrnodau calendr a gymerir i ddarparu DFG wedi lleihau i 167 diwrnod o 178 diwrnod yn yr un cyfnod y llynedd. Cafodd 142 o grantiau eu darparu eleni; roedd 5 ohonynt yn ymwneud â phobl ifanc a darparwyd y 137 sy'n weddill ar gyfer oedolion. Mae hyn wedi'u helpu i gadw eu hannibyniaeth gartref neu i barhau i fyw gartref gyda llai o gymorth i ymolchi, coginio neu symud o gwmpas eu cartrefi. Adroddodd dros 99% o ymatebwyr fod y DFGiau yn peri iddynt deimlo'n fwy diogel ac yn fwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain, sy'n gynydd pellach ar y 97% yn yr un cyfnod y llynedd.
- Gwnaethom weithredu'r polisi 'Pan fyddaf yn barod' sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ac yn galluogi pobl ifanc i barhau mewn gofal maeth y tu hwnt i 18 oed os bydd hyn o'r budd pennaf iddynt.
- Cafodd porth gwybodaeth DEWIS Cymru ei lansio'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gan wella hygyrchedd ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael am wasanaethau cymdeithasol i oedolion a chymorth teulu i drigolion a chwsmeriaid. Mae gwaith yn

parhau o ran cynyddu nifer yr adnoddau sydd ar gael ar y porth ac o ran hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r adnodd i drigolion a gweithwyr proffesiynol.

- Yn ystod y flwyddyn, cyflwynwyd ffurflen hunangyfeirio i oedolion ar y we, gan alluogi oedolion i hunangyfeirio a sbarduno'r broses i gael asesiad gan weithiwr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol. Mae hyn yn cyfrannu at fynediad gwell at wasanaethau i drigolion ac mae'n galluogi gwelliant o ran effeithlonrwydd gweithredol. Hefyd, caiff cwsmeriaid eu cyfeirio at wefan DEWIS er mwyn adnabod ffyrdd posibl o gyflawni canlyniadau heb yr angen am atgyfeiriad at wasanaethau'r Cyngor, ac felly'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).
- Darperir y wybodaeth berthnasol y gofynnwyd amdani y tro cyntaf i'r mwyafrif llethol o oedolion (85%) sy'n defnyddio ein gwasanaeth cymorth, gwybodaeth a chynngor, a naill ai nid ydynt yn cysylltu â'r gwasanaeth eto neu o fewn 6 mis o'u hymholiad cychwynnol.

Blaenoriaethau Iechyd Corfforaethol a Chynllunio Integredig

Mae Iechyd Corfforaethol yn disgrifio perfformiad cyffredinol y Cyngor. Mae hyn yn dod â'n Canlyniadau Llesiant a'r gweithgarwch cynllunio integredig sy'n cefnogi ei ddarpariaeth ynghyd.

- Roedd y Cyngor yn un o chwe awdurdod lleol yn y DU a gyrhaeddodd y rhestr fer yng ngwobr Awdurdod Lleol y Flwyddyn 2017 y Municipal Journal. Enillodd y Cyngor Tîm y Flwyddyn yng ngwobrau Cronicl Llywodraeth Leol 2017 am y gwaith sy'n cael ei wneud gan Gaffi Arweinyddiaeth y Cyngor. Mae'r gydnabyddiaeth gan y cynlluniau gwobrwyo cenedlaethol hyn yn amlygu'r cynnydd da sy'n cael ei wneud gan y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau o ansawdd i drigolion y Fro o'i gymharu â'r Deyrnas Unedig gyfan.
- Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ganfyddiadau ei Hasesiad Corfforaethol o'r Cyngor a asesodd ein capasiti i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer trigolion y Fro. Daeth yr asesiad cadarnhaol i'r casgliad, 'Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ynghylch yr hyn y mae eisiau ei gyflawni ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau â'r gwelliannau hyn. Bu i SAC nodi bod gweledigaeth y Cyngor yn adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol, a bod uwch-wleidyddion a rheolwyr yn gweithio'n effeithiol gyda staff ar bob lefel i wella gwasanaethau a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Yn ddiweddarach hefyd, derbyniodd y Cyngor adborth cadarnhaol gan SAC yn ei hadroddiad Gwella Blyneddol (AGB) ar gyfer 2016/17. Mae'r AGB sy'n dod â chasgliadau nifer o arolygiadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ynghyd, yn rhoi sêl bendith i'r Cyngor ar draws nifer o agweddau ar ei berfformiad ac yn dod i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael â'r pum cynnig ar gyfer gwelliant a wnaed fel rhan o'r Asesiad Corfforaethol a gynhaliwyd yn 2016.
- Yn gyffredinol, roedd Arolwg Barn y Cyhoedd bob dwy flynedd y Cyngor yn gadarnhaol ac adroddodd 92% o drigolion y Fro eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor, o'i gymharu ag 84% yn 2014/15. Roedd 97% yn fodlon â Bro Morgannwg fel lle i fyw ac roedd 88% yn fodlon â chyfathrebiadau'r Cyngor yn gyffredinol.
- O'r 395 o gwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor eleni, ymdriniwyd â 73.5% ohonynt o fewn graddfeydd amser targed corfforaethol. Nifer y cwynion a gafodd eu datrys yn ystod Cam 1 oedd 87.6% (346) a 12.4% (49) yn ystod Cam 2. Cafodd dangosfwrdd cwynion newydd a hyfforddiant eu cyflwyno'n raddol a rhagwelir y bydd hyn yn gwella

ein perfformiad ymhellach yn y maes hwn. Ni chynhaliwyd unrhyw gwynion gan yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn erbyn y Cyngor eleni. Cafodd 1 gŵyn ei hymchwilio gan yr Ombwdsmon yn ystod y flwyddyn.

- Cafodd Asesiad Llesiant y Cyngor ei gymeradwyo gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) a'i gyhoeddi ar wefan y BGC. Cafodd yr Asesiad ei lywio gan ymgynghoriad gyda nifer o randdeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru a Chynghorau Tref a Chymuned. Bydd y gwaith hwn bellach yn llywio Cynllun Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Lanswyd ein Siarter staff yn llwyddiannus ar 19 Medi 2016 ac rydym yn gwneud cynnydd da o ran gweithio gyda chydweithwyr i gyflawni'r 15 ymrwymiad (cwblhawyd 8 hyd yn hyn). Roedd y canfyddiadau o'r 'Arolwg Staff' yn gadarnhaol. Mae mwyafrif y cyflogeion yn teimlo bod eu rheolwyr yn ymddiried ynddynt, maent mewn cysylltiad rheolaidd gyda'u rheolwyr ac maent yn deall yr hyn y mae eu rheolwyr yn disgwyl ohonynt. 71% oedd y gyfradd ar gyfartaledd o staff a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r 20 disgwyliad yn y Siarter Staff, ac roedd lefel yr ymatebion cadarnhaol yn gymharol uchel ym mhob Cyfarwyddiaeth. Bydd rhoi'r Siarter ar waith yn helpu i wella ymgysylltiad â gweithlu'r Cyngor, sy'n cyd-fynd â Rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau'r Cyngor a chyflawni'r Cynllun Corfforaethol yn gyffredinol.
- Cafodd Cynllun Gweithluoedd Corfforaethol y Cyngor (2016-2020) ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 23 Mai 2016. Mae'r Cynllun yn ceisio rhagweld goblygiadau agenda'r Cabinet ar newid ac yn rhestru camau gweithredu yn benodol er mwyn helpu i gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor o fewn Cynllun Corfforaethol 2016-2020.
- Cafodd trefniadau rheoli perfformiad sy'n perthyn i reoli presenoldeb eu cryfhau a'u hadolygu drwy gydol 2016/17 er mwyn sicrhau ffocws parhaus ar lefelau arweinydd tîm, uwch-reolwr a chorfforaethol. Mae hyn yn parhau fel blaenoriaeth gorfforaethol ar gyfer y dyfodol. Mae perfformiad eleni yn parhau â'r duedd gadarnhaol ac adroddwyd rhagor o welliant yn nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch ar draws y Cyngor. Collwyd 8.8 diwrnod fesul cyfwerth ag amser llawn (FTE) o'i gymharu â 9.56 diwrnod yn 2015/16. Rhagorodd y perfformiad hwn ar ein targed blynyddol o 8.9 diwrnod a chyfartaledd Cymru o 10.3 diwrnod.
- Mae ein Caffi Arweinyddiaeth sydd wedi ennill gwobrau yn parhau i fynd o nerth i nerth, gan ddarparu cyfleoedd i arweinwyr presennol a rhai'r dyfodol o bob maes yn y Cyngor i fynd i ddigwyddiadau misol mewn amgylchedd cyfeillgar ac ymlaciedig er mwyn datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth. Cafodd y Caffi, sydd wedi bod yn rhedeg yn llwyddiannus ers dros flwyddyn ei nodi fel arfer cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn Asesiad Corfforaethol diweddar y Cyngor (2016). Hefyd cafodd llwyddiant y Caffi Arweinyddiaeth ei gydnabod gan yr LGC, gan fod y tîm cydlynu wedi ennill Gwobr fawreddog Tîm y Flwyddyn LGC yn 2017.
- Cafodd strwythurau Pwyllgorau Craffu newydd eu cyflwyno ym mis Mai 2016, wedi'u halinio i Ddeilliannau ac Amcanion Llesiant y Cynllun Corfforaethol. Mae'r trefniadau newydd yn galluogi'r Cyngor i weithredu dull mwy trawsbynciol tuag at graffu ar y Canlyniadau Llesiant sydd yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20, wrth leihau'r posibilrwydd o ddyblygu gwaith y Pwyllgorau. Ochr yn ochr â'r strwythurau craffu newydd, mae Gweithgor Aelodau wedi gweithio gyda swyddogion er mwyn datblygu ymhellach fformat ein hadroddiadau perfformiad gan sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau. Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod 2017/18.
- Drwy gydol y flwyddyn, mae boddhad cwsmeriaid o ran cael gafael ar wasanaethau'r Cyngor drwy bob sianel wedi parhau'n uchel, yn uwch na 98% ar gyfer pob chwarter. Ar ddiwedd y flwyddyn adroddodd bron 99% (98.7%) o gwsmeriaid eu bod yn fodlon â

mynediad at wasanaethau, a rhoddodd 81.5% (6512 o ymatebwyr) y sgôr boddhad uchaf posibl o'i gymharu â 0.4% (28 o ymatebwyr) a roddodd y sgôr isaf. Mae'r perfformiad hwn wedi golygu bod lefelau boddhad cwsmeriaid yn rhagori ar y targed o 95% a osodwyd am y flwyddyn er bod y perfformiad ychydig o dan y 98.9% a adroddwyd yn yr un cyfnod yn 2015/16.

- Drwy gydol y flwyddyn mae gwaith wedi mynd yn ei flaen yn dda er mwyn cyflawni'r targed arbedion cyffredinol o £3.052 miliwn sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Ail-lunio Gwasanaethau ar gyfer 2016/17. Cafodd 86% o'r targed arbedion ei fwrw eleni o ganlyniad i'r cynnydd cryf a wnaed gan wasanaethau ar draws y Cyngor ym mhrojectau cyfran 2. Mae gwaith i symud ymlaen â'r projectau gofynnol ar gyfer cyfran 2 a datblygu cynigion y dyfodol wedi parhau i wneud cynnydd da.
- Mae argaeledd gwasanaethau systemau TGCh mwyaf hanfodol y Cyngor wedi gwella ymhellach eleni i 99.97% o 99.95% yn y flwyddyn flaenorol, sy'n rhagori ar ein targed o 99.75%. Mae cadw lefel uchel o argaeledd TGCh yn cyfrannu at fwy o wydnwch o ran holl wasanaethau'r Cyngor. Mewn perthynas â chymorth TGCh, cafodd 97.30% o'r 33,060 o alwadau i'r ddesg gymorth eu datrys o fewn cyfnodau amser y cytunwyd arnynt o'i gymharu â 96.84% o alwadau a ddatryswyd yn 2015/16, sy'n rhagori ar ein targed o 92%.
- Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2016/2020 gan y Cabinet ar 26 Medi 2016 ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor fel y'u rhestrir yng Nghynllun Corfforaethol 2016-20, egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'r Cynllun yn amlinellu'r heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor, yn benodol diffyg o ran cyllid sy'n gofyn dod o hyd i £24.1 miliwn mewn arbedion rhwng 2017/18 a 2019/20.
- Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y swm a wariwyd yn erbyn cyllideb refeniw'r Cyngor a gymeradwywyd yn 100% a gwariant yn erbyn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd yn 84%. 94% oedd ein perfformiad cyffredinol o ran ein targed arbedion.
- Mae Bwrdd Mewnwelediad y Cyngor a sefydlwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn parhau i gyfarfod er mwyn ystyried materion cynllunio integredig ac i adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Mae gwaith y grŵp hwn wedi cyfrannu at ragor o arferion cynllunio integredig, rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygu staff, wedi parhau i hyrwyddo gweithio fel "un Cyngor" ac wedi lleihau yn sylweddol gyfanswm amser swyddogion a dreulir mewn cyfarfodydd.
- Cafodd y cynllun newydd ar gyfer gwerthusiadau staff, '#itsaboutme' ei lansio ym mis Gorffennaf 2016. Nod y broses ddiwygiedig yw darparu ymagwedd fwy effeithiol ac ystyrlon i werthusiadau staff fel rhan o'r drafodaeth barhaus rhwng rheolwyr a staff. Y gyfradd gwblhau ar gyfer gwerthusiadau staff ar draws y Cyngor yn 2016/17 oedd 97%, sydd yn unol â'r gyfradd gwblhau y llynedd.

2.2 Sut y gwnaethom berfformio yn erbyn y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Cenedlaethol (MAPau)

Yn gyffredinol, rydym yn perfformio'n dda mewn dangosyddion perfformiad ar draws pob gwasanaeth. Ers y tair blynedd diwethaf, ni yw'r Cyngor sy'n perfformio orau yng Nghymru mewn perthynas â'r gyfres dangosyddion cenedlaethol. Perfformiodd y Fro'n well na'r ffigwr cyfartalog yng Nghymru mewn 64.3% (18) o'r dangosyddion y gallir eu cymharu yn 2016/17. O'i gymharu â Rhanbarth De-ddwyrain Cymru, perfformiodd y Fro'n well mewn 64.3% (18) o'r dangosyddion y gallir eu cymharu yn ystod yr un cyfnod.

Casglasom ac adroddasom ddata ar 31 o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol yn 2016/17 - mae modd cymharu 28 o'r rheini â'r flwyddyn flaenorol sy'n dangos:

- gwelodd 46.4% (13)
- Cyflawnodd 10.7% (3) y perfformiad gorau posibl
- dirywiodd 35.7% (10)
- Arhosodd y perfformiad yn statig mewn 17.8% (5) o ddangosyddion

Dangosodd dadansoddiad pellach:

- Cyflawnodd cyfanswm o 3 dangosydd y perfformiad gorau posibl yn 2016/17, sef un yn llai na'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, parhaodd y tri i gadw eu perfformiad gorau posibl (naill ai 100% neu 0%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Dangosodd 46.4% (13) o ddangosyddion welliant (yn seiliedig ar werth eu Dangosydd Perfformiad) yn ystod 2016/17 o'i gymharu â'r llynedd, ac mae tri ohonynt yn dangos gwelliant o ran perfformiad o'i gymharu â 2015/16 a oedd yn dirywio o'r blaen.
- Dangosodd 10 o ddangosyddion (35.7%) ddirywiad o ran perfformiad, sydd wedi aros yn statig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Parhaodd dau o'r 10 mesur i ddangos dirywiad yn 2016/17. Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys: EDU/006ii (canran y disgyblion a aseswyd gan yr ALI yn derbyn Asesiad Athrawon yn Gymraeg yn CA3) a welodd ychydig o ostyngiad, sef 0.4%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ac LCL/001b (nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd fesul 1,000 o'r boblogaeth) a welodd ostyngiad o 450 o ymweliadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae 5 dangosydd yn ystod 2016/17 nad ydynt wedi dangos unrhyw newid yn eu perfformiad o'i gymharu â 2015/16.¹ Mae tri o'r rhain wedi parhau i gadw'r perfformiad gorau posibl. Mae'r rhain yn perthyn i EDU/002ii (canran y disgyblion yng Ngofal yr Awdurdod Lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy), EDU/015a (canran y datganiadau AAA terfynol a ddsbarthwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau) ac EDU/015b (canran y datganiadau AAA terfynol a ddsbarthwyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau).
- Mae 6 dangosydd a oedd wedi dangos gwelliant yn flaenorol yn 2015/16 (yn seiliedig ar werth eu Dangosydd Perfformiad) sydd bellach yn dangos dirywiad yn eu perfformiad ar gyfer 2016/17. Mae'r rhain yn perthyn i:
 - EDU/011, y sgôr pwyntiau cyfartalog ar gyfer disgyblion 15 oed mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol.
 - PSR/004, canran anheddau'r sector preifat a fu'n wag ers mwy na 6 mis a gafodd eu meddiannu eto drwy gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol.
 - PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai.
 - STS/006: Canran yr holl achosion o dipio anghyfreithlon sydd wedi'u clirio o fewn 5 diwrnod gwaith.
 - STS/005b: Canran y priffyrdd a archwilir sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol.
 - THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu'n hŷn sydd â thocyn bws consesiynol.

¹ Mae dangosyddion lle y mae perfformiad wedi aris yr un fath yn cynnwys: EDU/002ii, EDU/015a, EDU/015b, EDU/016a a THS/012a.

Mae dadansoddiad o'n perfformiad yn ôl chwartelau o'i gymharu â Chymru fel a ganlyn:

- Roedd 46.4% (13) o ddangosyddion yn y chwartel uwch o ran perfformiad ar gyfer 2016/17, o'i gymharu â 69% (18) o ddangosyddion yr adroddwyd eu bod yn y chwartel uwch o ran eu perfformiad yn 2015/16.
- Roedd 17.9% (5) o ddangosyddion yn y chwartel canol uwch (2il) yn ystod 2016/17 o'i gymharu â 15% (4) o ddangosyddion yn 2015/16.
- Mae canran y dangosyddion yn safle'r chwartel canol is wedi cynyddu o 7.7% (2) yn 2015/16 i 17.9% (5) o ddangosyddion yn ystod 2016/17.
- Mae canran y dangosyddion yn y chwartel isaf wedi cynyddu o 7.7% (2) yn 2015/16 i 17.9% (5) o ddangosyddion.

Y meysydd lle y gwnaethom berfformio orau (yn y safle cyntaf yng Nghymru) oedd:

- Ni adawodd unrhyw blant sy'n derbyn gofal addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy;
- Cyflwynwyd 100% o ddatganiadau Anghenion Addysgol Arbennig o fewn 26 wythnos (gan gynnwys a heb gynnwys eithriadau).

Rydym hefyd yn cydnabod bod angen gwella yn y meysydd hynny lle y mae ein perfformiad yn y chwartel isaf o'i gymharu â gweddill Cymru. Mae'r rhain yn perthyn i:

- Gwella ffyrdd mewn cyflwr gwael;
- Codi nifer y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd;
- Codi'r nifer sy'n ymweld â chanolfannau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth;
- Codi nifer yr unedau o dai fforddiadwy sy'n cael eu darparu;
- Mynd ati'n gyflymach i glirio ar ôl cael gwybod am achosion o dipio anghyfreithlon.

Eir i'r afael â'r materion hyn o fewn cynlluniau perthnasol y Cyngor. Gellir gweld dadansoddiad mwy manwl o'n perfformiad yn erbyn pob dangosydd cenedlaethol yn adran ['Ein Perfformiad yn erbyn yn erbyn Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol'](#) y cynllun.

2.3 Gweithio mewn Partneriaeth a Chydweithio

Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag ystod o sefydliadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r materion cymhleth sy'n wynebu ein dinasyddion a'n cymunedau. Mae'r rhain yn ein galluogi ni i weithredu mewn ffordd effeithiol ac effeithlon, gan arwain at wasanaethau gwell ar gyfer ein dinasyddion ac arbedion ariannol. Wedi'u hamlygu isod y mae rhai o'n prif gyflawniadau drwy gydweithio.

Yn dilyn cefnogaeth gan y deg awdurdod lleol o fewn y ddinas-ranbarth ar gyfer egwyddorion cyffredinol y fargen, llofnododd Arweinwyr pob Cyngor **Bargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd (P-RC)** mewn seremoni ym Maes Awyr Caerdydd ar 1 Mawrth 2017. Nodau'r Fargen Ddinesig yw creu swyddi a hybu ffyniant economaidd trwy wella cynhyrchiant, mynd i'r afael â diweithdra, adeiladu ar sylfeini arloesedd, buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol, rhoi cefnogaeth i fusnesau, a sicrhau y manteisir unrhyw fuddion economaidd a grëir o ganlyniad, ar draws y rhanbarth. Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys cyllid gwerth £734m ar gyfer Metro De Cymru, y mae mwy na £500 miliwn ohono yn cael ei roi gan Lywodraeth Cymru a £125 miliwn gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi cyfraniad gwerth £375m, ac mae'r deg awdurdodau lleol wedi cytuno i ymrwymo i fenthycu cyfanswm cyfunol o £120 miliwn fel rhan o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach.

Cafodd polisi a chanllaw **Trosglwyddo Asedau Cymunedol (TAC)** newydd eu gweithredu gan y Cyngor fis Ebrill 2016. Mae ein proses TAC yn seiliedig ar egwyddorion allweddol o angen cymunedol, cefnogi nodau ac amcanion ehangach y Cyngor, yr angen i sicrhau tryloywder a chynnaladwyedd unrhyw gynigion. Cafodd 3 ased (llyfrgelloedd Dinas Powys, Y Rhws a Sain Tathan) eu trosglwyddo i'r gymuned eleni fel rhan o ddull y Cyngor i drawsnewid sut mae'n darparu gwasanaethau er mwyn gwella eu cynnaladwyedd. Hefyd, derbyniwyd 12 cais am drosglwyddo asedau cymunedol (yn perthyn i 8 project) a gwahoddwyd 4 sefydliad i ddarparu achos busnes.

Wedi'u hariannu trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop, nod rhaglenni **Ysbrydoli i Gyflawni (I2A)** ac **Ysbrydoli i Weithio (I2W)** yw cefnogi cyflogaeth a chyrhaeddiad ieuencid ym Mro Morgannwg. Anelir y rhaglen I2A at leihau nifer y bobl ifanc sydd mewn perygl o fynd yn NEET (heb fod mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant) a chaiff ei chyflwyno ar y cyd â Gyrfau Cymru a bydd y rhaglen I2W yn cynnig cyfleoedd drwy lwybr cyflogaeth sengl a chydlynol ar gyfer holl bobl ifanc yn y Fro. Trwy gydweithio effeithiol gyda phartneriaid, mae lefelau NEET yn y Fro wedi parhau i wella ar gyfer blynyddoedd 11 a 12 ac eithrio blwyddyn 13 a gynyddodd yn ymylol o 2.9% i 3.07% (gan un person). Rhagwelir gwelliant yn y grŵp blwyddyn hwn yn 2017/18, yn dilyn sefydlu'r rhaglen I2W.

Yn seiliedig ar fodel Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer gweithio rhanbarthol mae **Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GAC CCD)** yn darparu ystod o swyddogaethau statudol ar gyfer gwella ysgolion yn y Fro. Mae'r holl ysgolion yn derbyn cefnogaeth a heriau sy'n gysylltiedig â'u categoreiddiad cenedlaethol gyda rhagor o bwyslais ar ddulliau ysgol i ysgol tuag at wella ysgolion. Ers 2012 bu gwelliant da a chyson o ran canlyniadau dysgwyr ar bob lefel ac ym mhob awdurdod lleol yn y rhanbarth. Yn benodol, mae'r rhanbarth wedi dangos cynnydd sylweddol o ran gwella canlyniadau ar gyfer y rhai sydd fwyaf agored i niwed, gan gulhau'r bwlch rhwng perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion. Mae

presenoldeb yn yr ysgol hefyd wedi gwella'n sylweddol ar draws y rhanbarth. Fodd bynnag, mae rhagor o waith i'w wneud i sicrhau bod pob plentyn waeth beth fo'u cefndir yn cyflawni. Cafodd y Consortiwm ei arolygu gan Estyn ym mis Mawrth 2016 a chafodd ei farnu fel 'da' mewn 3 maes sy'n cynnwys ei waith partneriaeth, ac yn ddigonol mewn 2 faes. Cafodd cynllun gweithredu ei ddatblygu er mwyn mynd i'r afael ag argymhellion Estyn a chaiff ei adlewyrchu yng Nghynllun Busnes y Consortiwm ar gyfer 2017-2020.

Mae **Triniaeth Gwastraff Organig Caerdydd** yn bartneriaeth sy'n cynnwys Bro Morgannwg a Chyngor Caerdydd er mwyn sicrhau ateb tymor hir (15 mlynedd) ar gyfer trin bwyd y gegin a gwastraff gardd gwyrdd. Mae'r bartneriaeth yn atgyfnerthiad o ymrwymiad yr awdurdodau i fwrw targedau statudol Llywodraeth Cymru wrth ni weithio tuag at ei nod 'Dim Gwastraff' ar gyfer 2050. Yn dilyn dod â'r cyfnod comisiynu i ben yn llwyddiannus, dechreuodd y contract 15 mlynedd ar 31 Mawrth 2017 gyda Kelda (Llofnododd Cyngor Dinas Caerdydd fel yr awdurdod lletyol, gontract gyda Kelda, a llofnododd y Fro Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRh-A) gyda Chaerdydd sy'n cwblhau'r bartneriaeth). Mae'r gwaith newydd sydd erbyn hyn yn hollol weithredol yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf a bydd yn trin tua 5,000 tunnell o wastraff bwyd a 5,500 tunnell o wastraff gwyrdd y flwyddyn. Mae'n trin ac yn ailgylchu gwastraff organig a hefyd yn cynhyrchu ffynonellau ynni cynaliadwy a chyfrwng tyfu ar gyfer ffermio â'r. Mae'r cyfleuster Compostio Ffenestr Agored yn darparu compost cynaliadwy a ddefnyddir ar draws ffermydd lleol ac o fewn cymuned y Fro a Chaerdydd.

Mae **Dysgu Oedolion a'r Gymuned (DOG)** yng Nghaerdydd a'r Fro wedi gwella'n sylweddol drwy ymdrechion pob agwedd ar y bartneriaeth, gan weithio mewn ffordd fwy cydlynol. Mae aelodau'r bartneriaeth yn cydweithio ar gynllunio'r cwricwlwm, marchnata, data, ansawdd ac adnoddau. Dros bedair blynedd y bartneriaeth mae perfformiad wedi gwella'n sylweddol. Mae cyfraddau llwyddiant wedi codi o 80% yn y flwyddyn academaidd 2012/13 i 91% yn 2015/16, sydd llawer uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 84%. Caiff dyfodol y bartneriaeth ei adolygu ar ôl derbyn polisi DOG newydd Llywodraeth Cymru sydd i fod i gael ei lansio yn haf 2017 ac wrth ystyried fframwaith arolygu DOG newydd Estyn, sydd hefyd i fod i gael ei lansio yn ystod 2017.

Mae gan y **Fforwm Tai Cyffredinol** ddiben i ddatblygu'r ymateb strategol i'r angen am dai ym Mro Morgannwg. Trwy ystyried cyfeiriad deddfwriaethol a pholisi sy'n dod i'r amlwg gan Lywodraeth Cymru, mae'r fforwm wedi sefydlu amcanion tymor byr a thymor canolig sy'n gysylltiedig â thai o bob daliadaeth yn y Fro. Gwnaed cynnydd sylweddol wrth gyflawni elfennau allweddol Deddf Tai (Cymru) 2014, gan gynnwys: cwblhau a chyflwyno Aseiad Sipsiwn a Theithwyr i Lywodraeth Cymru (LIC); LIC a Shelter yn cydnabod ymagwedd 'Atebion Tai' yn y Fro; cytundeb partneriaeth rhwng Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Awdurdod Lleol wedi'i lofnodi gydag ymrwymiad a rennir o ran cyflawni atebion tai fforddiadwy a thai cymorth yn y Fro; y Gwasanaeth Tenancy Ready a'r Cynllun Rooms4U a sefydlwyd gyda phartneriaid sy'n Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig; y bartneriaeth gyda Llywodraeth Cymru ar gyllido gan gynyddu'r cyflenwad tai trwy ei Raglen Grant Tai Cymdeithasol; adeiladu ton gyntaf o dai cymdeithasol dan berchnogaeth y Cyngor yn yr ardal; cwblhau aseiad Marchnad Tai Lleol a Strategaeth Tai Lleol (STLI) ar gyfer y Fro. Cyfrannodd gwaith y Fforwm at 301 o unedau tai fforddiadwy yn cael eu darparu yn 2016/17, sef cynnydd ar y 158 a gafwyd yn y flwyddyn flaenorol. O'r 301 o dai fforddiadwy, cafodd 245 eu hariannu trwy arian A106. Yn unol â'n hymrwymiad i gynyddu nifer y tai fforddiadwy, mabwysiadodd y Cyngor

bolisi tai ar 'safleoedd bach' sydd 100% yn fforddiadwy a fydd yn helpu ymhellach wrth gynyddu opsiynau tai fforddiadwy gan ddatblygwyr.

Mae gwaith yn mynd yn ei flaen o ran datblygu cynigion ar gyfer **gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng** a rennir i'w gynnal gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr. Cytunodd y Cyngor ar y gwelliannau ar gyfer y gwasanaeth Teledu Cylch Cyfyng ym mis Gorffennaf 2017. Mae contract y gwasanaethau rhwng Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr a'r Fro i fod i gael ei gwblhau ym mis Awst 2017 a chaiff y gwasanaeth ei fonitro gan y tîm Diogelwch Cymunedol. Bydd y trefniadau ar y cyd yn darparu arbedion ac yn sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau ac yn galluogi Teledu Cylch Cyfyng i chwarae rôl werthfawr wrth atal a rhwystro trosedd ym Mro Morgannwg.

Gallwch ddysgu am brojectau strategol eraill y mae'r Cyngor yn rhan ohonynt trwy edrych ar y [Crynodeb o Gydweithio Strategol](#).

2.4 Yr hyn a ddywed ein Rheoleiddwyr amdanom.

Yn unol â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'n ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru lunio adroddiad blynyddol ar gynghorau Cymru a chyrff cyhoeddus eraill gyda'r teitl, yr 'Adroddiad Gwelliant Blynyddol (AGB)', sy'n crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2016-17.

Derbyniodd y Cyngor adborth cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ei [Hadroddiad Gwelliant Blynyddol \(AGB\)](#) ar yr awdurdod ar gyfer 2016/17 ac mae'n rhoi sêl bendith i ni ar draws nifer o agweddau ar ei berfformiad. Mae'r adroddiad hefyd yn dod i'r casgliad fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran mynd i'r afael â'r pum cynnig i wella a bennwyd yn rhan o'r Asesiad Corfforaethol yn 2016. Rhoddir manylion o'r canfyddiadau allweddol o'r gwaith archwilio isod:

Disgrifiad o'r gwaith	Crynodeb o'r casgliadau	Cynigion am Wella
Llywodraethu	Mae gan y Cyngor fframwaith corfforaethol clir ar gyfer pennu newidiadau i wasanaethau a threfniadau effeithiol i gefnogi cyflawni, ac mae ganddo gyfleoedd i annog rhagor o ymgysylltiad â rhanddeiliaid.	<p>C1: Dylai'r Cyngor gynnwys mwy o wybodaeth mewn Rhaglenni Gwaith Cabinet a Chraffu Ymlaen am fanylion a dibenion eitemau sydd ar y gweill (gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gynigion am newid yn y gwasanaeth) er mwyn gwella tryloywder trefniadau a chyfleoedd i rhanddeiliaid gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.</p> <p>C2: Dylai'r cyngor barhau i ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid ar bob newid yn y gwasanaeth lle</p>

Disgrifiad o'r gwaith	Crynodeb o'r casgliadau	Cynigion am Wella
		y mae'n debygol y bydd effaith glir ar y cyhoedd a/neu ddefnyddwyr gwasanaeth, neu sicrhau y caiff rhesymwaith clir a thryloyw dros beidio â gwneud hynny ei ddogfennu.
<p>Asesiad Gwelliant 2016-17, Corfforaethol Dilyniant i'r Asesiad: Mae'r adolygiad yn archwilio a yw'r Cyngor yn gwneud cynnydd effeithiol yn erbyn y cynigion ar gyfer gwelliant a gyflwynwyd yn yr Asesiad Corfforaethol (Awst 2016).</p>	Mae'r Cyngor yn cryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad ac mae'n gwneud cynnydd o ran ein cynigion ar gyfer gwellia mewn cysylltiad â chyllid a TGCh; er hynny, mae angen rhagor o waith i fynd i'r afael â rhai o'r cynigion yn llawn, gan gynnwys y cynnig yn ymwneud â rheoli asedau.	<p>C3: Caiff adroddiadau monitro arbedion eu hadrodd i bwyllgorau craffu yn chwarterol, fodd bynnag, mae dal lle i wella'r manylion sy'n gynwysedig mewn rhai adroddiadau ac nid yw dehongliad cyfraddiadau RAG yn dryloyw;</p> <p>C4: Mae'r Cyngor wedi cwblhau ei strategaeth TGCh; fodd bynnag, mae'n cydnabod y bydd angen mireinio hon ar ôl cwblhau Strategaeth Ddigidol drafft y Cyngor; a</p> <p>C5: Nid oedd y Cyngor wedi bwrw ei darged o fis Mawrth 2017 ar gyfer mynd i'r afael â'r cynnig ynglŷn â gwelliant mewn perthynas â rheoli asedau.</p>
Defnyddio adnoddau		
Mae'r Ilythyr archwilio blynyddol 2015-16 yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n codi o gyfrifoldebau statudol yr Archwilydd Cyffredinol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.	Nododd yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar ddatganiadau cyfrifon 2015-16 y Cyngor gan gadarnhau eu bod yn adlewyrchiad gwir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor.	Ddim yn berthnasol
Cynllunio Arbedion: Adolygiad o drefniadau arbedion ariannol y Cyngor, gan gynnwys pa mor dda	Er nad oes gan y Cyngor rai cynlluniau arbedion dangosol ar gyfer y blynyddoedd nesaf, mae	<p>C1 Cryfhau trefniadau cynllunio ariannol trwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> - ddatblygu cynlluniau

Disgrifiad o'r gwaith	Crynodeb o'r casgliadau	Cynigion am Wella
mae'n cyflawni'r arbedion gofynnol ac a oes ganddo ddulliau cadarn ar gyfer cynllunio, rheoli a chyflawni arbedion cyllidebol, ar gyflymder sy'n cefnogi gwydnwch ariannol.	ganddo fframwaith cynllunio ariannol cadarn sy'n gosod y sylfeini ar gyfer gwydnwch ariannol yn y dyfodol.	arbedion dangosol er mwyn cynnwys cyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig; - datblygu dull strategol i gynhyrchu incwm; a - sicrhau bod pob cynllun arbedion sy'n gynwysedig yn y gyllideb flynyddol yn cael eu datblygu'n llawn pan gaiff y gyllideb ei chytuno.
Cynllunio ac adrodd am welliant		
Archwiliad Cynllun Gwelliant blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru: Adolygu cynlluniau cyhoeddiedig y Cyngor am gyflawni amcanion gwella.	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran cynllunio gwelliant.	Ddim yn berthnasol
Archwiliad blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru o'r asesiad perfformio: Adolygiad o asesiad perfformio cyhoeddiedig y Cyngor.	Mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol o ran adrodd am welliant	Ddim yn berthnasol

Cewch chi hefyd edrych ar ein Hadroddiad Gwelliant Blynyddol ar gyfer 2016/17 ar www.wao.gov.uk

2.5 Sylwadau trigolion amdanom ni

Mae ymgysylltu â dinasyddion yn ymddangos fel un o werthoedd craidd y Cyngor o fewn ei Gynllun Corfforaethol ac rydym yn rhagweithiol wrth annog trigolion a chwsmeriaid i rannu eu barn a'u profiadau o'n gwasanaethau oherwydd ei fod yn hyrwyddo ymgysylltiad, yn rhoi syniad i ni o ran sut rydym yn perfformio o'u safbwynt nhw ac yn gwella ein hymagwedd tuag at ddatblygu gwasanaethau yn y Cyngor. Wedi'i amlinellu isod y mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol o'n Harolwg Barn y Cyhoedd 2016/17 (POS) diweddaraf [Addroddiad Arolwg Barn Cyhoeddus 2016](#) a gynhaliwyd rhwng mis Rhagfyr 2016 a mis Ionawr 2017, gan gynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb gyda sampl cynrychiadol (1005) o drigolion y Fro sy'n 16 oed neu'n hŷn.

Ar gyfartaledd, mae'r POS yn dangos ein bod yn gyffredinol yn perfformio'n dda o ran bodddhad cyffredinol â gwasanaethau'r Cyngor. Yn gyffredinol, roedd cyfradd uwch o drigolion y Fro yn fodlon â gwasanaethau'r Cyngor yn 2016/17 nag yn 2014/15 (92% o'i gymharu ag 84%). Ar y cyfan, roedd trigolion yn fodlon â phob math o gyfathrebu, a gwybodaeth ar wefan y Cyngor oedd yn bodloni'r ganran uchaf (97% yn fodlon iawn/yn eithaf bodlon). Gwelwyd bod dealltwriaeth y cyhoedd o'r cyd-destun ariannol y mae'r

Cyngor yn gweithio ynddo (cyllideb) yn gymharol gyfyngedig. Wrth eu hysgogi â manylion am raddfa'r toriadau i'r gyllideb (£9.3 miliwn o arbedion dros y tair blynedd nesaf) dim ond 13% oedd yn llwyr ymwybodol o raddfa'r arbedion sy'n ofynnol. Dywedodd 39% eu bod yn ymwybodol ond nid i'r graddau llawn, ac adroddodd ychydig o dan hanner, sef 48%, nad oeddent yn gwybod bod y Cyngor yn wynebu'r heriau hyn o ran y gyllideb. Nodir uchafbwyntiau allweddol yr arolwg isod:

Gwasanaethau'r Cyngor

- Roedd 92% yn fodlon â'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor.
- Roedd 97% yn fodlon â Bro Morgannwg fel lle i fyw.
- Y canol trefi mwyaf poblogaidd i ymweld â nhw yn gyffredinol oedd Y Barri (Heol Holltwn), Penarth a'r Barri (Heol Fawr) er, nid yw'n syndod mai'r trefi y mae pobl yn ymweld â nhw amlaf oedd y rhai sydd agosaf i'w cartrefi.
- Ystyriwyd canol tref y Bont-faen, Penarth a Llanilltud Fawr fel y rhai gorau, ac ystyriodd o leiaf 9 allan o 10 o drigolion eu bod yn dda iawn neu'n eithaf da.
- Roedd bron pawb yn fodlon â'r arfordir treftadaeth yn gyffredinol (98%) a'r llwybrau arfordirol yn Y Fro (97%).
- Pan ofynnwyd am Ynys y Barri, roedd 81% yn fodlon â'r cyfleusterau ac roedd 85% yn fodlon ag Ynys y Barri yn gyffredinol.
- Dywedodd bron pawb eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon â'r parciau gwledig (98%), y mannau agored (95%), y parciau (94%) a'y cyfleusterau chwarae (89%).
- Mae bron hanner y trigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol bob dydd (46%) ac mae 17% arall yn cymryd rhan 2 i 3 gwaith yr wythnos.
- Dywedodd 90% eu bod yn fodlon â gwasanaethau hamdden yn gyffredinol.
- Nid yw'n syndod mai'r dull teithio mwyaf poblogaidd oedd y car, ac mae 69% o'r trigolion yn defnyddio un bob dydd. Roedd 20% yn defnyddio'r bws unwaith yr wythnos a 16% yn defnyddio'r trê'n unwaith yr wythnos. Hefyd dywedodd chwech allan o 10 (60%) eu bod yn cerdded bob dydd.
- Roedd tua 9 allan o 10 o drigolion yn fodlon â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus (90%), gwybodaeth am drafnidiaeth gyhoeddus (89%), gwasanaethau rheilffordd (89%) a thrafnidiaeth gymunedol (88%) ac roedd 78% yn fodlon â gwasanaethau bysus. Roedd llawer llai o drigolion yn fodlon â diogelwch ar y ffyrdd (56%), cyflwr y palmentydd (41%) a chyflwr y ffyrdd (36%).
- Mae 85% o aelwydydd yn ailgylchu gwastraff cymysg a 78% yn ailgylchu gwastraff bwyd.
- Roedd ychydig dros 9 allan o 10 o breswylwyr yn fodlon â phob agwedd ar ailgylchu a rheoli gwastraff. Mae cyfradd uchel o aelwydydd yn ailgylchu gwastraff cymysg (83%) a gwastraff bwyd (78%) ac mae cyfradd ychydig yn llai yn ailgylchu gwastraff yr ardd (61%).
- Pan ofynnwyd iddynt ynghylch teimlo'n ddiogel, roedd y rhan fwyaf o drigolion yn teimlo'n ddiogel ym mhob sefyllfa.

Cyfathrebu gyda'r Cyngor

- Er mwyn dylanwadu ar benderfyniad a wnaed gan y Cyngor, byddai dros hanner (52%) yn cysylltu â Swyddog Cyngor lleol. Dywedodd ychydig dros chwarter (26%) na fyddent yn ceisio dylanwadu ar benderfyniad gan y Cyngor.
- Anghytunodd ychydig dros 6 allan o 10 (62%) y gallent ddylanwadu ar benderfyniad a wnaed gan y Cyngor. Dim ond 26% a gytunodd y gallent wneud hynny.

- Roedd 88% yn fodlon â chyfathrebu'r Cyngor yn gyffredinol. Y boddhad isaf oedd ynglŷn â galwadau ffôn (86% yn fodlon).
- Y ffynonellau mwyaf poblogaidd i gael gwybodaeth am y Cyngor oedd y wefan (31%), ac wedyn llythyrau/taflenni trwy'r post (18%) a hysbysfyrddau lleol (18%).
- Y ffynhonnell gyfryngau fwyaf poblogaidd i gael gwybodaeth am y Cyngor oedd rhaglenni teledu BBC Wales (23%) a phapur newydd y Glamorgan Gem (18%).
- Honnodd 14% eu bod yn gwrando ar Bro Radio o leiaf unwaith yr wythnos neu'n amlach. Roedd 40% wedi defnyddio gwefan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er bod defnydd yn eithaf anaml (58% llai nag unwaith y mis).
- Roedd ymwybyddiaeth o wasanaethau a gynigiwyd gan y wefan yn uchel, ac roedd o leiaf 6 allan o 10 o drigolion yn ymwybodol o'r holl wasanaethau, ni waeth a oeddent wedi defnyddio'r wefan ai peidio.
- Cytunodd ychydig o dan draean (32%) y dylai'r Cyngor barhau i fuddsoddi mewn rhagor o wasanaethau ar-lein.
- Pan ofynnwyd iddynt am eu defnydd cyffredinol o wasanaethau ar-lein, dim ond 26% o drigolion nad oeddent wedi defnyddio unrhyw wasanaethau ar-lein yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Dywedodd 14% o drigolion na fyddent yn teimlo eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau'r Cyngor ar-lein.

Cyllideb y Cyngor

- Roedd 13% yn hollol ymwybodol o sefyllfa cyllidebol bresennol y Cyngor ac roedd 39% arall yn ymwybodol ond nid yn llwyr ymwybodol.
- Roedd tri chwarter y trigolion (75%) yn hapus i rai gwasanaethau a ddarperir ar hyn o bryd gan y Cyngor gael eu darparu gan sefydliadau eraill.
- Roedd 83% yn gefnogol o ymagwedd y Cyngor tuag at aildrefnu ei wasanaethau er mwyn bodloni ei heriau cyllidebol a sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau yn y tymor hir. Roedd pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol gyda'r sector gwirfoddol a'r trydydd sector yn sylwadau rheolaidd gan ymatebwyr fel ffactor allweddol wrth fynd i'r afael â heriau cyllidebol y Cyngor.
- Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn gefnogol iawn o'r Cyngor yn datblygu gwasanaethau newydd er mwyn cynhyrchu incwm er mwyn mynd i'r afael yn rhannol â'r diffyg yn y gyllideb.
- Roedd 84% yn gefnogol o'r Cyngor yn ystyried nawdd er mwyn creu incwm.
- Pan ofynnwyd iddynt a fyddent yn hapus i dalu i wasanaethau anstatudol barhau i gael eu darparu, dywedodd 57% o ymatebwyr y byddent yn hapus i dalu i gadw gwasanaethau a dywedodd 43% o ymatebwyr na fyddent yn fodlon talu am wasanaethau.
- Dewis arall sy'n cael ei archwilio gan y Cyngor yw gweithio gyda grwpiau cymunedol er mwyn eu galluogi nhw i gymryd yr awenau â chynnal gwasanaethau anstatudol. Pan ofynnwyd iddynt a oeddent yn cytuno y dylai'r Cyngor gefnogi'r gymuned i ddarparu ei wasanaethau ei hun, dywedodd 66% o'r ymatebwyr 'dylai' a dywedodd 34% 'na ddylai'. Mae hyn yn dangos bod cefnogaeth ar gyfer trosglwyddo rhai gwasanaethau i'r gymuned. Mae ymchwilio i'r potensial i hyn yn un o'r meysydd gwaith allweddol ar gyfer Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau'r Cyngor.
- Y trydydd dewis yw i'r Cyngor gael rhagor o gyllid ar gyfer gwasanaethau trwy gynyddu dirwyon ar gyfer methu â chydymffurfio ac ymddygiad gwrthgymdeithasol megis sbwriela, parcio'n anghyfreithlon neu fethu â dilyn rheolau ailgylchu. Roedd

tipyn mwy o gefnogaeth i'r dewis hwn na'r ddau flaenorol, a dywedodd 81% o ymatebwyr y byddent yn ei gefnogi. Dywedodd 19% na fyddent yn cefnogi hyn.

- Yn olaf, pan ofynnwyd iddynt a yw'r Cyngor yn darparu digon o wybodaeth am y gyllideb, dywedodd 39% o'r ymatebwyr 'Ydy' a dywedodd 61% 'Nac ydy'. Erys hyn yn faes i'w wella gan y Cyngor. Er ei bod hi'n anodd rhoi darlun clir o'r broses pennu cyllideb, mae angen i ni wneud rhagor i roi gwybod i drigolion am ein heriau ariannol drwy gydol y flwyddyn er mwyn iddynt ddeall yn well.

Cynllun Corfforaethol Bro Morgannwg 2016-2020

- Cytunodd y mwyafrif llethol o ymatebwyr â'r Canlyniadau a'r Amcanion Llesiant a restrir yn y Cynllun Corfforaethol ac roeddent yn credu bod yn rhain yn amcanion teilwng i'r Cyngor weithio tuag atynt. Mae cymeradwyaeth gadarnhaol o'r amcanion hyn yn adlewyrchu'r gwaith ymgysylltu cynhwysfawr blaenorol a oedd yn sail i ddatblygiad y Cynllun, gyda barn trigolion lleol, grwpiau cymunedol, partneriaid strategol a rhanddeiliaid allweddol eraill yn llywio'r Cynllun.

2.6 Sylwadau ein staff amdanom ni

Dyma arolwg cyflogeion cyntaf y Cyngor ers lansio ei Siarter Staff ([Arolwg Staff](#)) ym mis Medi 2016. Cyflawnwyd cyfradd ymateb galonogol o 48% (1240), gan ragori ar safonau'r diwydiant ar gyfer ymarferion ymgysylltu o'r fath. Yn gyffredinol, roedd canfyddiadau'r arolwg yn gadarnhaol a byddant yn ffurfio llinell sylfaen er mwyn cymharu mewn arolygon blynyddol dilynol ac er mwyn mesur cynnydd mewn perthynas â'r Siarter Staff (a gweithgarwch ymgysylltu â chyflogeion cysylltiedig). Mae crynodeb o'r canfyddiadau allweddol wedi'i amlinellu isod:

- Y gyfradd ymateb gyfartalog gyffredinol i'r 20 disgwyliad yn Siarter y Staff oedd 71% (h.y. cytuno'n gryf neu'n cytuno). Mae hyn yn sgôr calonogol a bydd yn gosod y meincnod ar gyfer gwaith ymgysylltu yn y dyfodol ac arolygon dilynol.
- Roedd lefel yr ymatebion cadarnhaol yn gymharol uchel ar draws pob Cyfarwyddiaeth, yn amrywio o 68% yn y Cyfarwyddiaethau Dysgu a Sgiliau, ac Amgylchedd a Thai i 76% yng Nghyfarwyddiaeth y Rheolwyr-Gyfarwyddwyr ac Adnoddau.
- Roedd lefel yr ymatebion cadarnhaol o fewn yr 17 gwasanaeth ychydig yn fwy amrywiol, gan amrywio o 58% mewn Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth i 94% yn Swyddfa'r Cyfarwyddwr o fewn Gwasanaethau Tai a'r Amgylchedd.
- Roedd y gyfradd ymateb cadarnhaol gyffredinol uchaf yn perthyn i'r honiad "Ymddiriedir ynof i fwrw ymlaen gyda'm swydd." Ymatebodd 91% o bob cyflogai yn gadarnhaol i'r gosodiad hwn a denodd y sgôr uchaf ym mhob Cyfarwyddiaeth ac mewn 12 allan o 17 o'r gwasanaethau.
- Roedd y ddau ymateb uchaf nesaf mewn perthynas â "Rwyf mewn cysylltiad rheolaidd â'm rheolwr" (81%) ac "Rwy'n cael fy nhrin â pharch" (81%). Eto, mae hyn yn galonogol a bydd yn darparu sail gref ar gyfer rhagor o ddatblygiad fel rhan o Siarter y Staff.
- Roedd y lefel isaf o ymateb cadarnhaol yn perthyn i'r honiadau "Rwy'n teimlo y caf fy nghefnogi i gyflawni fy mhotensial" (64%), "Rwy'n derbyn y newyddion diweddaraf am waith ehangach y Cyngor" (61%) ac "Rwy'n cael fy helpu i ddeall fy nghyfraniad i'r Cyngor ehangach" (51%). Cafodd yr atebion sy'n perthyn i ddatblygiad personol ac i ba raddau mae'r staff yn deall eu cyfraniad ehangach eu hadlewyrchu ar draws pob Cyfarwyddiaeth a hefyd yng ngradd a hyd y categorïau gwasanaeth.

Bydd canfyddiadau'r arolwg yn parhau i lywio gwaith ymgysylltu staff gyda'r ffocws ar weithredu pob un o'r 15 ymrwymiad fel y rhestrir yn Siarter y Staff. Bydd yn bwysig, er enghraifft, sicrhau y gwneir ymdrechion parhaus er mwyn helpu cyflogeion i ddeall sut mae eu gwaith yn cyfrannu at waith y Cyngor yn ei gyfanrwydd a hefyd cael gwybod (lle y bo'n briodol) am waith ehangach y Cyngor. Bydd adolygiad o gyfathrebiadau mewnol a mewnosod y broses newydd ar gyfer gwerthuso cyflogeion hefyd yn helpu gyda'r ddau amcan hwn.

Mater ychwanegol a gafodd ei amlygu trwy ganlyniadau'r arolwg yw'r angen i adolygu hygyrchedd cyfleoedd hyfforddi a datblygu ar gyfer staff ar draws y Cyngor er mwyn helpu cyflogeion i gyflawni eu potensial. Bydd adolygiad o'r Strategaeth Dysgu a Datblygu a mynd ar drywydd Cynllun Pasbort i Hyfforddiant yn helpu â hyn, fel y bydd buddion y broses newydd ar gyfer gwerthuso staff.

2.7 Ein Cyllideb

Mae mesurau cyni parhaus y llywodraeth ganolog wedi creu cyfnod o straen ariannol digynsail yn y sector cyhoeddus. Ers y saith mlynedd ddiwethaf, bu Cyngor Bro Morgannwg yn gwneud arbedion sylweddol ar draws y sefydliad, sef tua £45 miliwn ers 2010/11. Bydd toriadau blynyddol i ariannu'r Cyngor yn parhau ac mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2016/17 i 2019/20 y Cyngor yn amcangyfrif bod gofyn am rhagor o arbedion, sef £24 miliwn rhwng 2017/18 a 2019/20.

Yn ystod 2016/17, gwnaethom gynnydd da o ran cyflawni arbedion o £8.69 miliwn mewn arbedion effeithlonrwydd a mathau eraill o arbedion, sy'n 94% o'r targed gofynnol o £9.289 miliwn. Fodd bynnag, mae angen gwneud tipyn mwy o waith er mwyn cyflawni'r arbedion gofynnol ar gyfer 2017/18 a thu hwnt.

Mae'r Cyngor yn derbyn y rhan fwyaf (71%) o'i gyllid refeniw net gan Lywodraeth Cymru (LIC) yn nhermau Grant Cymorth Refeniw (GCR) a chyfran o'r Gronfa Ardreth Annomestig Genedlaethol (AAG). Gyda'i gilydd maent yn cynnwys Cyllid Allanol Cyfanredol y Cyngor (CAC) a nhw yw'r prif benderfynydd ar gyfer cyllideb refeniw blynyddol yr Awdurdod, a oedd yn £213.288 miliwn ar gyfer 2016/17. Mae gweddill y cyllid yn dod o'r Dreth Gyngor a gesglir (29%).

Cafodd penderfyniadau yn ymwneud â gosod cyllideb 2016/17 y Cyngor eu llywio gan ymgynghoriad gyda thrigolion y Fro trwy arolwg barn y cyhoedd ([arolwg](#)) a grwpiau trafod wyneb yn wyneb. Ymgynghorwyd â phartneriaid strategol allweddol hefyd gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus erbyn hyn), cynghorau tref a chymuned, y sector gwirfoddol, panel Safbwynt Dinasyddion y Fro, Fforwm Strategaeth 50+ Bro Morgannwg, grwpiau cydraddoldeb sy'n cynrychioli grwpiau y mae ymgysylltu â nhw'n anodd, a Chabinet leuencid y Fro. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y gyllideb yn Natganiad Cyfrifon llawn y Cyngor ar gyfer 2016/17 ([Cyngor Bro Morgannwg Datganiad Cyfrifon 2016/17.](#))

3. Ein Hamcanion Gwella mewn manylder

Canlyniad
Lles 1



Mae gan ddinasyddion Bro Morgannwg ansawdd bywyd da ac maen nhw'n teimlo'n rhan o'r gymuned leol.

Amcan
Gwella 1

Lleihau tlodi a gwaharddiad cymdeithasol.

3.1 Datganiad sefyllfa

Beth a ystyrir yn llwyddiant?	Statws Gwerthuso: WEDI'I GYFLAWNI
<ul style="list-style-type: none"> • Cynnydd yn nifer y penderfyniadau cadarnhaol sydd wedi llwyddo i atal digartrefedd. • Gostyngiad o ran achosion o droi allan. • Gostyngiad o ran lefel yr ôl-ddyledion rhent. • Pobl ddi-waith yn cael cyflogaeth. • Mwy o fynediad at TGCh i Geiswyr Gwaith a chymunedau'n gyffredinol. • Mae TGCh yn helpu i gael mynediad at fudd-daliadau, arweiniad a gwybodaeth. • Cynnydd o ran dysgwyr o grwpiau blaenoriaeth sy'n cymryd rhan mewn dysgu ac ennill sgiliau. • Mwy o bobl yn cymryd rhan mewn mentrau effeithlonrwydd ynni lleol. 	<p>Gwyddom hyn gan ein bod, ar y cyfan, wedi cyflawni'r amcanion y gwnaethom osod i'n hunain yn 2016/17:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn cynyddu cyfleoedd ar gyfer cynhwysiant digidol ar draws y Fro trwy ymagwedd wedi'i thargedu a gallwn ddangos bod mwy o bobl yn manteisio ar y rhain. • Rydym yn rhagweithiol o ran cefnogi rhagor o drigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol (CC) a thrwy'r rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Chefnogi Pobl er mwyn cadw eu hannibyniaeth a chychwyn gweithio lle y bo'n briodol drwy ystod amrywiol o wasanaethau. Hefyd, rydym yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i weithio ar y cyd ar y rhaglenni hyn, gan arwain at ganlyniadau gwell ar gyfer cwsmeriaid a thargedu adnoddau'n well. Erys boddhad cwsmeriaid â chefnogaeth a ddarperir trwy'r rhaglenni yn gadarnhaol. • Trwy gefnogi tenantiaid yr effeithir arnynt gan Ddiwygio Lles trwy ystod o gefnogaeth, mae 227 o denantiaethau yn rhedeg o hyd sy'n cyfateb i gyfradd lwyddiant o 96%. Bellach mae gan 100% o'r tenantiaid hyn fynediad at gyfrif banc/

	<p>undeb credyd o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae mwy o ddysgwyr blaenoriaeth yn manteisio ar gyfleoedd dysgu ac mae'r gyfradd lwyddiant wedi cynyddu i 96% ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16 o 86% yn y flwyddyn flaenorol. Rydym yn parhau i hyrwyddo cyfleoedd yn unol â'n hymrwymiad i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol. • Er gwaethaf wynebu heriau sylweddol, rydym wedi gweithio mewn partneriaeth i atal digartrefedd yn llwyddiannus mewn bron 70% o aelwydydd lle'r oedd risg. • Roedd gostyngiad mewn ôl-ddyledion rhent o 1.06% yn 2015/16 i 0.84% yn 2016/17 o ganlyniad i gefnogaeth ragweithiol i denantiaid ac mae hyn wedi sicrhau bod y Fro yn parhau fel y darparwyr tai sy'n perfformio orau o ran ôl-ddyledion rhent yn y DU. • Trwy waith rhagweithiol Ymgynghorydd Ynni Cymunedol y Fro, rydym yn mynd i'r afael â thlodi tanwydd trwy ystod eang o wasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, gwnaed tua £5,000 o arbedion gan drigolion y Fro yn dilyn cyngor yr Ymgynghorydd Ynni Cymunedol.
--	---

3.2 Beth wnaethon ni a beth ydym wedi'i gyflawni?

- Rydym yn parhau i gynyddu cyfleoedd ledled y Fro ar gyfer cynhwysiant digidol drwy'r fenter 'Cael y Fro ar-lein' drwy ddarpariaeth mynediad agored yn ogystal â dull a dargedir. Mae data wrthi'n cael ei gasglu o ran y niferoedd sy'n mynychu canolfannau galw heibio ac yn ystod Chwarter 4 daeth 249 o bobl i'r sesiynau. Hefyd, mae'r nifer sy'n cymryd rhan yn y rhaglen Hyrwyddwyr Digidol yn cynyddu. Ers mis Ebrill 2016, mae 5 gwirfoddolwr Cymunedau yn Gyntaf Y Barri sy'n Hyrwyddwyr Digidol wedi cefnogi 5 sesiwn galw heibio digidol ac wedi helpu 131 o gyfranogwyr drwy gydol y flwyddyn, gan gronni 349 o oriau.
- Mewn ymgais i gynyddu cynhwysiant digidol, mae rhyngrwyd diwifr bellach ar gael i drigolion mewn 28 o leoliadau ar draws Bro Morgannwg trwy'r 'Cwmwl', gan ddarparu mwy o gyfleoedd i bobl gael mynediad at y rhyngrwyd. Mae'r lleoliadau'n cynnwys swyddfeydd y Cyngor, canolfannau ieuenctid, llyfrgelloedd, cartrefi gofal preswyl, tai gwarchod, canolfannau cymunedol ac Ynys y Barri.
- Rydym yn parhau i hyrwyddo Cyswllt UnFro i'n trigolion ac mae nifer y tanysgrifwyr yn codi. Ar hyn o bryd mae 44,615 o danysgrifwyr i Gyswllt UnFro, sy'n rhagori ar ein targed o 37,000 a'n perfformiad yn 2015/16 (31,115). Mae Cyswllt UnFro yn wasanaeth cyflym a syml wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau'r Cyngor y mae gan

drigolion ddiddordeb ynddynt, yn uniongyrchol i'w mewnlwch e-byst.

- Rydym yn rhagweithiol wrth gefnogi trigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol (CC) i gychwyn gweithio trwy ystod amrywiol o gefnogaeth sy'n cynnwys cyngor ar gyllidebu, cyngor ar ddyledion, cymorth i wneud y mwyaf o'ch incwm, cymorth cyflogaeth, cynlluniau annibyniaeth bersonol a chymorth gyda gwahanol geisiadau am lwfansau. Mae nifer y trigolion sy'n derbyn Credyd Cyffredinol wedi cynyddu'n sylweddol i 663 o'i gymharu â 15 yn yr un cyfnod y llynedd. Mae'r gwasanaeth Cymorth Cyllidebu Personol (CCP) a ddarperir wedi arwain at 33 o atgyfeiriadau CCP yn cael eu gwneud, a darperir cymorth i hawlwyrr sydd ag anghenion cymhleth.
-

- Mae ymgymryd â mapio cymunedol yn cynyddu ymhlith cymunedau'r Fro a dangosir rhagor o ddiddordeb gan grwpiau cymunedol ar draws y Fro. Cafodd pecyn cymorth mapio cymunedol ([Pecyn cymorth mapio cymunedol](#)) ei ddatblygu a'i hyrwyddo'n eang. Mae'r canllaw ymarferol hawdd ei ddefnyddio yn helpu cymunedau i ddeall a chyfranogi yn y broses fapio er mwyn nodi asedau, adnoddau, sgiliau ac anghenion y gymuned ar gyfer y dyfodol. Wrth wneud hyn, bydd yn galluogi datblygu synergeddau er mwyn gwneud y mwyaf o asedau ac adnoddau a nodir er budd trigolion. Yn ystod 2016/17, cafodd Gwenfô, Sain Tathan Y Rhws ac Ystradowen eu cefnogi i gymhwyso'r pecyn cymorth.
-

- Roedd 100% o cleientiaid cefnogi pobl yn hapus gyda'r gwasanaeth y gwnaethon nhw ei dderbyn yn ystod y flwyddyn. Hefyd, cadarnhaodd dros 96% fod y cymorth roeddent wedi'i dderbyn wedi eu helpu i gadw eu hannibyniaeth.
-

- Mae bodddhad â Teuluoedd yn Gyntaf yn gadarnhaol iawn ar 97%. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gofnodi'r data hwn ac mae'r perfformiad yn ymwneud â 1,569 allan o 1,622 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael mynediad at wasanaethau yn ystod y flwyddyn. Trwy ganolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar, mae'r rhaglen yn helpu i atal teuluoedd rhag mynd i dlodi a galluogi'r rhai sydd mewn tlodi neu y mae risg y byddant yn mynd i dlodi i wireddu eu potensial.
-

- Trwy'r cymorth effeithiol a ddarparwyd i deuluoedd, cyrhaeddodd mwyafrif y plant (78%) sy'n cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg y cerrig milltir datblygu yn 3 oed, sy'n gynnydd o 2% ar ein perfformiad y llynedd. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16, cyflawnodd 88.31% y canlyniad disgwyliedig (Deilliant 5+) o leiaf ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.
-

- Cafodd cynnydd cadarnhaol ei wneud wrth dargedu meysydd o angen trwy'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ac mae hyn wedi cyfrannu at gynyddu sgiliau lleol, cyflogaeth a gweithgarwch economaidd yn y Fro yn gyffredinol. Yn ystod y flwyddyn: Adroddodd 148 o gleientiaid Cymunedau'n Gyntaf (CG) eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am chwilio am gyflogaeth ar ôl dilyn cefnogaeth a ddarparwyd; cafodd 60 cleient eu cefnogi'n llwyddiannus i mewn i gyflogaeth; cafodd 24% o'r holl gleientiaid eu helpu gyda chynngor ar ddyledion ac maent yn lleihau/yn rheoli eu dyledion; adroddodd 76% o gleientiaid eu bod yn teimlo y gallent ymdopi'n well gyda phroblemau llesiant a/neu geisio cyngor priodol o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd; allan o 71 o gyfranogwyr, dysgodd 77.5% sgiliau TG sylfaenol gan adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio cyfrifiadur.
-

- Rydym yn parhau i gefnogi tenantiaid i liniaru effaith Diwygio Lles. O'r 237 o sesiynau cyngor ar arian a ddarparwyd mewn perthynas â Diwygio Lles, mae 227 o

denantiaethau'n weithredol o hyd, sydd gyfwerth â chyfradd llwyddiant o 96%. Bellach mae gan 100% o'r tenantiaid hyn fynediad at gyfrif banc/ undeb credyd o ganlyniad i'r gefnogaeth a ddarparwyd.

- Rydym yn parhau i sicrhau bod preswylwyr a chwsmeriaid y Fro yn cael mynediad at wybodaeth am wasanaethau cyngor ar arian trwy wefan y Cyngor a'r porth gwybodaeth Cymru Dewis a chaiff holl denantiaid y Cyngor eu cyfeirio fel rhywbeth safonol. Mae gan bob tenant gyfarfod cyngor ar arian gorfodol gyda Swyddog Cyngor ar Arian y Cyngor ynghylch llofnodi eu Cytundeb Tenantiaeth. Mae cylchlythyrau Credyd Cyffredinol a Diwygio Lles yn rhoi gwybod am newidiadau ar gael ar wefan y Cyngor a chânt eu hanfon at holl denantiaid y Cyngor. Cynigir apwyntiad gyda Swyddog Cyngor Ariannol y Cyngor i bob tenant sydd ag ôl-ddyledion neu sydd mewn trafferthion ariannol. Yn ystod 2016/17, cynhaliodd y gwasanaeth Cyngor ar Arian 20 apwyntiad yr wythnos ar gyfartaledd. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at fwy o denantiaethau'n cael eu cynnal yn hirach ac at atal digartrefedd.
-

- Eleni, aethom ati i dreialu cynllun llety 'ystafell a rennir' o'r enw 'Rooms4U', mewn partneriaeth â phob un o'r 4 partner Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (LCC). Hyd yma, mae 3 eiddo a rennir wedi'u sefydlu ac maent yn cynnig llety i 6 thenant, gyda rhagor o gynlluniau i ehangu'r portffolio llety a rennir sydd ar y gweill eisoes. Mae'r gwaith hwn yn helpu i liniaru effaith y newidiadau i fudd-daliadau tai ar gyfer pobl o dan 35 oed a'r rhai sy'n gweithio mewn llety cysgodol/llety i bobl hŷn.
-

- Mae gwaith yr ymgymerir ag ef gyda phartneriaid allweddol i alinio'r gweithgareddau a mapio'r gwasanaethau a ddarperir gan raglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Cefnogi Pobl yn cyfrannu at fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth a gwneud y defnydd gorau o adnoddau wrth leihau dyblygu ymdrechion yn gyffredinol. Hefyd, mae'r gwaith hwn yn galluogi ymagwedd fwy cydgysylltiedig tuag at ymgysylltu a darparu gwybodaeth ar draws y pedair rhaglen. Mae cyflwyno DEWIS wedi cyfrannu'n sylweddol at y gwaith hwn trwy ddarparu gwybodaeth er mwyn helpu i nodi pa wasanaethau sy'n bodoli a lle mae bylchau neu ddyblygu o bosibl er mwyn llywio darpariaeth gwasanaethau yn y dyfodol. Gan ddefnyddio'r ymagwedd hon, ymgymerwyd â gwaith mewn cysylltiad â phobl NEET a babanod sydd â phwysau geni isel. Yn ogystal, mae project peilot a ariennir trwy Cefnogi Pobl wedi dechrau darparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i bobl sy'n gleientiaid i Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a Cymunedau yn Gyntaf. Fe'i ddefnyddir hefyd i fapio ymyraethau er mwyn gallu nodi cyfleoedd pellach i fanteisio i'r eithaf ar ddefnydd o adnoddau er budd defnyddwyr gwasanaeth ar draws pob un o'r pedair rhaglen. Wrth fynd ymlaen, mae rhagor o waith yn cael ei wneud er mwyn archwilio alinio agosach o'r pedwar bwrdd rhaglen a'u gweithgareddau wrth ystyried goblygiadau dirwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben erbyn 31 Mawrth 2018, a gyhoeddwyd yn ddiweddar.
-

- Mae projectau wedi parhau i gael eu darparu yn Y Barri fel rhan o raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LILILIA) Llywodraeth Cymru, sy'n cefnogi twf busnesau lleol a gwella'r amgylchedd lleol. Roedd uchafbwyntiau eleni yn cynnwys gwelliannau i'r amgylchedd lleol ar Main Street gyda 5 blaen siop yn cael eu hadnewyddu, 1 blaen siop wag yn cael ei drawsnewid i fformat preswyl a gwelliannau yn cael eu gwneud i 27 eiddo preswyl. Yng nghanol y dref, mae 4 eiddo preswyl ar Heol Hollltwn wedi elwa ar waith
-

adnewyddu allanol. Yng nghanol y dref, mae 4 eiddo preswyl ar Heol Holltwn wedi elwa ar waith adnewyddu allanol. Yn ystod 2016/17, sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer gwelliannau i lwybrau beicio/cerdded ar Ynys y Barri. Roedd hyn yn galluogi'r gwaith o gwblhau cam y Sarn/Harbour Road a dechrau gwaith ar y cam i gysylltu'r Sarn/Harbour Road â Friars Point. Trwy'r LILLIA, rydym hefyd wedi cefnogi gwasanaethau gwirfoddol megis Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg gyda chyllid a alluogodd astudiaeth ddichonoldeb er mwyn nodi lleoliad addas ar gyfer Hyb Trydydd Sector yn Y Barri. Nododd yr astudiaeth y Ganolfan Fenter Gymunedol fel yr opsiwn a ffefrir ar gyfer yr Hyb yn amodol ar Drosglwyddo Asedau Cymunedol.

- Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid er mwyn atal digartrefedd. Mewn bron 70% o aelwydydd lle'r oedd risg, cymerwyd penderfyniad cadarnhaol a lwyddodd i atal digartrefedd. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau i wynebu heriau sylweddol wrth nodi opsiynau 'symud ymlaen', yn enwedig ar gyfer yr aelwydydd sengl sy'n fwy heriol (A73 achosion yr oedd bron 60% ohonynt) o lety dros dro. Rydym yn parhau i weithio gyda'n partneriaid i ddatblygu opsiynau er mwyn rheoli'r heriau hyn. Yn ystod y flwyddyn, llwyddasom i atal dros 75% o achosion Adran 66 rhag fod angen llety dros dro.
- Mae gwaith rhagweithiol Ymgynghorydd Ynni Cymunedol y Fro yn ein galluogi ni i fynd i'r afael â tholodi tanwydd drwy amrywiaeth eang o wasanaethau gan gynyws cefnogaeth am gyfnewid tanwydd, awgrymiadau am arbed ynni, cyngor ar ddyledion tanwydd ac ymgymryd â mentrau'r llywodraeth megis y Gostyngiad ar gyfer Cartrefi Cynnes. Gwnaed tua £5 mil o arbedion gan drigolion y Fro yn dilyn cyngor yr Ymgynghorydd Ynni Cymunedol gyda 45 o aelwydydd yn cael eu hatgyfeirio at y gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.
- Yn unol â'n hymrwymiad i leihau tlodi ac allgáu cymdeithasol, rydym yn parhau i annog dysgwyr blaenoriaeth i fanteisio ar gyfleoedd dysgu i oedolion. Cynyddodd ymrestrïadau i 910 o ddysgwyr unigol o'i gymharu â 736 yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol, sy'n rhagori ar ein targed o 810 o ddysgwyr. Gwellodd y gyfradd llwyddiant ar gyfer dysgwyr blaenoriaeth ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/2016 i 96%, o 86% yn y flwyddyn flaenorol, sy'n welliant o 10% gan ragori ar darged eleni sef 86%.

3.3 Sut aethom ati i fesur cynnydd?

Dangosyddion Poblogaeth							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17 ²	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran y bobl o oedran gweithio	22.5%	22.4%		21.6%	25.2%	😊 ³	↑ ⁴



² Nid yw bob amser yn briodol i bennu targed ac ar gyfe nifer fach o fesurau, mae'r golofn wedi'i lliwio'n llwyd i adlewyrchu hyn.

³ Statws perfformiad: mae perfformiad wedi bodloni'r targed neu wedi rhagori arno 😊; mae perfformiad o fewn 10% o'r targed 😐; mae perfformiad wedi methu'r targed o fwy na 10% ☹.

⁴ Mae cyfeiriad teithio'n cymharu perfformiad 2016/17 â pherfformiad y flwyddyn flaenorol (2015/16) ar gyfer yr holl fesurau lleol. Mae mesurau cenedlaethol wedi'u cymharu â pherfformiad Cyfartaledd Cymru 2016/17, lle y bo ar gael. Mae saeth am i fyny yn dangos bod perfformiad y Fro yn uwch na chyfartaledd Cymru, ac mae saeth am i lawr yn dangos bod perfformiad y Fro yn is na chyfartaledd Cymru.

Dangosyddion Poblogaeth							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17 ²	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
nad ydynt yn economaidd weithgar.							
Aelwydydd yn y Fro sydd mewn tlodi incwm cymharol, wedi'i fesur ar gyfer plant, pobl o oedran gweithio a'r rhai o oedran pensiwn.				Dangosydd Llesiant Cenedlaethol: Nid yw'r data eto ar gael gan LIC			

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran yr holl aelwydydd lle llwyddodd camau atal cadarnhaol i atal/lliniaru digartrefedd.		44%	75%	68.63%		☹	↑
Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd cerrig milltir datblygiadol yn dair oed.	48%	53%	53%	78%		☺	↑
Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyflawni o leiaf y canlyniadau disgwyledig (canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.	86.97%	88.16%		88.31%			↑
Canran cyfradd llwyddiant ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr		86%	86%	96%		☺	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
blaenoriaeth							
Nifer y cleientiaid Cymunedau yn Gyntaf sy'n mynd i mewn i gyflogaeth	90	102	67	60			↓ ⁵
Nifer y cleientiaid Cymunedau yn Gyntaf sy'n adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus am geisio cyflogaeth.	317	329	216	148			↓
Nifer yr ardaloedd a wellwyd yn Y Barri o dan y cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid/ ardal adfywio.				3			
Canran y defnyddwyr gwasanaeth Cefnogi Pobl sy'n cadarnhau bod y cymorth maen nhw wedi'i dderbyn wedi'u cynorthwyo i gynnal eu hannibyniaeth.				96.15%			
Nifer y tenantiaethau a gynhelir o ganlyniad i gymorth y				227			

⁵ Ni wnaeth perfformiad mewn cysylltiad â Cymunedau yn Gyntaf ar y cyfan fwrw'r targed, oherwydd hanner ffordd drwy 2016/17, lansiodd Llywodraeth Cymru'r rhaglen Cymunedau am Waith newydd sy'n mynd i'r afael â llawer o'r un grŵp cleientiaid, gan arwain at ostyngiad yn nifer y cleientiaid o fewn y rhaglenni Ffyniant craidd Cymunedau yn Gyntaf.

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Gwasanaeth Cyngor ar Arian/ Cymorth gan y Cyngor.							
Canran y cleientiaid Cymunedau yn Gyntaf a gynorthwywyd â phroblemau dyledion sy'n lleihau/rheoli dyledion.				23.98%			
Canran y rheiny sy'n defnyddio'r gwasanaeth Hyrwyddwyr Digidol sy'n dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus o ran defnyddio TGCh o ddydd i ddydd.				44% (Data Ch4 yn unig)			

Pa mor dda yr ydym wedi perfformio?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran y cwsmeriaid sy'n fodlon â mynediad at wasanaethau ar draws yr holl sianeli.		98.87%	95%	98.69%		😊	↓ ⁶
Canran yr ymholiadau cwsmeriaid i Cyswllt Un Fro a ddatryswyd ar y			70%	68.07%		😐	

⁶ Roedd 98.7% o gwsmeriaid yn hapus â mynediad at wasanaethau'r Cyngor. Er bod hyn yn ostyngiad ymylol o'i gymharu â pherfformiad y llynedd, sef 98.9%, mae lefelau bodlonrwydd wedi aros yn gyson uchel, yn uwch na 98% ar gyfartaledd dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Pa mor dda yr ydym wedi perfformio?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
cyswllt cyntaf.							
Canran y defnyddwyr sy'n dangos boddhad â'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a ddefnyddir.				97%			
Canran y cleientiaid Cymunedau yn Gyntaf sy'n ennill sgiliau TG sylfaenol				77.46%			
Cartrefi sy'n elwa ar berfformiad ynni domestig gwell a fesurir gan raddfa SAP Gyfartalog.	69.81%	64.05%	70%	67%		☹	↑
Ôl-ddyledion rhent tenantiaid fel canran o rent casgladwy presennol.				0.84%			

Faint ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Nifer y Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn a Wnaed.			400	926			
Nifer y trigolion sy'n derbyn hyfforddiant ar sut i gael mynediad at wasanaethau digidol trwy fentrau partneriaeth Cael y Fro Ar-lein				249 (Data Ch4 yn unig)			

Faint ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Nifer y cleientiaid Cymunedau yn Gyntaf a gaiff eu cefnogi i gael mynediad at y budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt.				297			

Meysydd i'w gwella		Erbyn
1	Cefnogi cymunedau i ddefnyddio adnoddau a datblygu capasiti tuag at wella a rhedeg asedau cymunedau.	31/3/2018
2	Cyflawni blwyddyn olaf y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a pharatoi'r Rhaglen Cymunedau am Waith newydd ar draws ardal y Fro yn 2018/19.	31/3/2018
3	Parhau i gefnogi cyflwyno Credyd Cyffredinol yn raddol ar draws Bro Morgannwg, gan gynnwys rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau etholedig ar gynnydd o ran Diwygio Lles bob chwe mis a diweddarau gwefan y Cyngor er mwyn adlewyrchu gwybodaeth gyfredol ar Ddiwygio Lles ar gyfer trigolion y Fro.	31/3/2018
4	Parhau i weithio â phartneriaid trwy'r grŵp 'Cael y Fro Ar-lein' i wella mynediad a sgiliau digidol i grwpiau sydd fwyaf tebygol o brofi allgau digidol.	31/3/2018
5	Hyrwyddo gwasanaethau ar-lein, hyfforddiant sgiliau digidol a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau digidol trwy'r Strategaeth Ddigidol.	31/3/2018
6	Gweithredu dull mwy cydlynol tuag at ymgysylltu a darpariaeth gwybodaeth ar draws y rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Cefnogi Pobl.	31/3/2018
7	Cwblhau mapio gwasanaethau a ddarperir gan raglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Cefnogi Pobl er mwyn gwneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio ar y cyd.	31/3/2018



Mae gan Fro Morgannwg economi cryf a chynaliadwy ac mae'r amgylchedd lleol wedi'i ddiogelu ar gyfer cenedlaethau presennol a'r dyfodol.

Amcan Gwella 2	Hyrwyddo adfywio, twf economaidd a chyflogaeth
---------------------------	---

3.4 Datganiad sefyllfa

Beth a ystyrir yn llwyddiant?	Statws Gwerthuso: WEDI'I GYFLAWNI
<ul style="list-style-type: none"> • Mwy o fuddsoddi ym Mro Morgannwg. • Delwedd well ar gyfer canol trefi. • Mwy o fywiogrwydd a hyfywedd ar gyfer canol trefi. • Llai o leoedd gwag mewn unedau masnachol. • Codir proffil ac enw da Bro Morgannwg. • Caiff yr amgylchedd adeiledig ei wella. • Gostyngiad mewn lefelau diweithdra. • Mae'r rhai nad ydynt mewn gwaith yn cael mynediad at waith a rhagolygon gwell. • Pobl yn cael eu helpu i wella eu sgiliau er mwyn cael cyfleoedd gwell o ran swyddi. • Gostyngiad o ran pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) • Cynnydd o ran ymgymryd â chymorth busnes. • Rhagor o ymweliadau gan dwristiaid â'r Fro. • Rhaglen ddigwyddiadau lwyddiannus. • Gwelliannau i wasanaethau trafnidiaeth. 	<p>Gwyddom hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Casglodd y Cyngor bron £7 miliwn o gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â thua £20 miliwn ar draws Cymru gyfan am yr un cyfnod amser ac mae hyn yn cael ei ddefnyddio i ddarparu neu i wella seilwaith, addysg a chyfleusterau cymunedol er budd trigolion y Fro. • Trwy wahanol fentrau gan gynnwys y rhai a gefnogir gan grantiau'r llywodraeth, rydym yn parhau i gynyddu buddsoddiad yng nghanol ein trefi. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnal bywiogrwydd canol ein prif trefi yn wyneb darlun cenedlaethol anodd ar gyfer canolfannau manwerthu, sy'n cynnig amgylchedd gwell i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr. Gwerthuswyd canol trefi'r Fro yn gadarnhaol yn ôl ein harolwg Barn y Cyhoedd (2017) diweddar: Heol Holltwn Y Barri (61.4%), Stryd Fawr Y Barri (74.4%), Penarth (95.6%), Y Bont-faen (97.7%), Llanilltud Fawr (90.3%). Roedd y canlyniadau hyn yn welliant ar yr arolwg blaenorol (2015). • Er gwaethaf dirywiad yng nghyfradd yr adeiladau gwag ar gyfartaledd yng nghanol prif drefi'r Fro, o'i gymharu â chyfradd yr adeiladau gwag ar gyfartaledd yng nghanol prif drefi'r DU, mae ein perfformiad yn parhau'n gadarnhaol a'r canol tref sy'n

	<p>perfformio orau yw un lle y mae'r Cyngor wedi ymyrryd fwyaf, sef Heol Holttwn, Y Barri.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym yn parhau i wneud y gorau o gyfleoedd i wneud y Fro'n fwy deniadol i ymwelwyr a thwristiaid drwy weithio mewn partneriaeth ar lefelau rhanbarthol a lleol. Yn ôl ymchwil STEAM, cynyddodd niferoedd yr ymwelwyr i 3.97 miliwn yn 2016, sef cynnydd o 0.2% ar y flwyddyn flaenorol. Cyfanswm effaith economaidd twristiaeth yn y Fro oedd £221.60 miliwn, sef cynnydd o 0.9% ar y flwyddyn flynyddol. Cyfrannodd ein rhaglen digwyddiadau blynyddol lwyddiannus at y cynnydd mewn ymweliadau gan dwristiaid. • Yn ogystal â chyflwyno gwahanol gynlluniau trafnidiaeth yn ystod y flwyddyn, rydym yn parhau ar y trywydd cywir i gyflwyno map rhwydwaith teithio llesol integredig ar gyfer Bro Morgannwg yn unol â graddau amser Llywodraeth Cymru. Bydd hyn yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar drigolion ac ymwelwyr er mwyn teithio'n effeithlon ac yn ddiogel ac yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol. Yn ein Harolwg Barn y Cyhoedd diweddaraf, roedd mwy na 90% o ymatebwyr yn fodlon â mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus yn y Fro. • Rydym wedi lleihau lefelau NEET cyffredinol yn y Fro am y nawfed flwyddyn yn olynol, i 1.6% ar hyn o bryd. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a sefydliadau lleol gan gynnwys cyflogwyr er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae parhau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. • Gallwn ddangos meddiannaeth well yn nhair canolfan fusnes y Cyngor (BSC, CEC a VEC). Cyflawnodd y BSC a'r CEC 100% o feddiannaeth yn 2016/17. Fel rhan o'r rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau, ailwampwyd y VEC yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella cyfraddau meddiannaeth ac ymddengys bod hyn yn llwyddiannus – mae meddiannaeth eisoes wedi cynyddu i 80%. • Rydym yn ymgysylltu â chymunedau mewn modd cadarnhaol yn y Fro i fapio eu
--	---

	<p>hasedau a rhoi cymorth iddyn nhw i wneud ceisiadau am arian cyfatebol i ehangu a gwella cyfleusterau lleol. Mae ymgymryd â mapio cymunedol yn cynyddu.</p>
--	---

3.5 Beth wnaethon ni a beth ydym wedi'i gyflawni?

- Cafodd Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei gadarnhau'n ffurfiol ar 1 Mawrth 2017 a bydd yn galluogi twf economaidd sylweddol ar draws Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n cynnwys y deg awdurdod lleol canlynol: Caerdydd, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Sir Fynwy, Pen-y-bont ar Ogwr, Blaenau Gwent, Torfaen a Chasnewydd. Nod Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw creu swyddi a hybu ffyniant economaidd drwy wella cynhyrchiant, mynd i'r afael â diweithdra, adeiladu ar sylfeini arloesedd, buddsoddi mewn seilwaith ffisegol a digidol, cynnig cymorth i'r byd busnes a sicrhau bod pob rhan o'r rhanbarth yn elwa ar unrhyw fuddiannau economaidd a grëir o ganlyniad. Mae'r Fargen Ddinesig yn cynnwys cyllid o £734m ar gyfer Metro De Cymru, y mae mwy na £500 ohono yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru a £125m gan Lywodraeth y DU. Mae Llywodraeth y DU wedi rhoi cyfraniad o £375m, ac mae'r deg awdurdodau lleol wedi cytuno i ymrwymo i fenthycy cyfanswm cyfunol o £120 miliwn fel rhan o'r Gronfa Fuddsoddi Ehangach. Yn ystod y flwyddyn, mae'r Cyngor wedi neilltuo £1.25 miliwn o'i gyllideb i'w osod yn erbyn cost y Fargen Ddinesig, a thrwy hynny, oedi'r angen i fenthycy arian ychwanegol.
- Sicrhodd y Cyngor fwy na £9.7 miliwn o gyllid ar gyfer buddsoddiad cymunedol trwy gytundebau A106 wedi'u hatodi at gymeradwyaethau cynllunio yn ystod 2016/17. Gwnaed cyfanswm o 23 o gytundebau Adran 106 yn y deuddeg mis rhwng mis Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017. Mae'r cytundebau hyn yn rhwymo datblygwyr i wneud cyfraniad ariannol i'r Fro fel amod o'u caniatâd cynllunio. Cyfanswm gwerth y cyfraniadau ariannol yn y cytundebau cyfreithiol oedd £9,794,951.15. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r cyllid hwn i ddarparu neu i wella seilwaith, addysg a chyfleusterau cymunedol. Yn ystod 2016/17 defnyddiwyd yr arian i gyllido llefydd ychwanegol mewn ysgolion, cysylltiadau trafniadaeth gyhoeddus newydd, gwella palmentydd a llwybrau beicio, cynlluniau celf gyhoeddus, uwchraddio parciau a mannau chwarae i blant, a chyfleoedd hyfforddi a datblygu. Mae'r enghreifftiau sydd â'r proffil uchaf yn cynnwys agor meithrinfa newydd yn Ysgol Gynradd Gwenfô, ardal chwarae newydd yn Sgwâr Plassey, y cynllun goleuadau ar gyfer y llwybr igam-ogam ym Mhenarth, Cynllun Llwybr Beicio Port Road, cyfleusterau parcio beiciau ym Mhenarth a llwybr beicio/cerdded yn Llandochoau. Mae gofynion y rhwymedigaethau cynllunio a sicrhawyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hefyd yn cynnwys rhwymedigaethau talu mewn ffyrdd eraill megis darparu tai fforddiadwy, mannau agored cyhoeddus a gwaith celf cyhoeddus.
- Mae'r gwaith o adfywio twristiaeth yn Ynys y Barri wedi gwneud cynnydd da gyda chyfleusterau 'Gwybodaeth i Ymwelwyr' yn cael eu gosod mewn Mannau Gwybodaeth i Dwristiaid mewn safleoedd niferus o amgylch yr Ynys ac mewn 5 safle allweddol o ran nifer yr ymwelwyr i ategu gwybodaeth a llwybrau i ymwelwyr. Fel rhan o gynllun Sarn Ynys y Barri a gwblhawyd ym mis Mehefin mae'r cysylltiadau wedi'u huwchraddio gyda llwybr cerdded llydan, rheiliau wedi'u hadnewyddu, goleuadau a seddau sy'n ategu gwaith y Cyngor o ran sicrhau opsiynau trafniadaeth gynaliadwy yn ogystal ag amddiffyn yr arfordir. Mae ymdrechion i farchnata cabanau traeth wedi arwain at gynyddu nifer y

cabanau sy'n cael eu defnyddio i 66% dros y flwyddyn, gan gyrraedd penllanw o fwy na 93% o gabanau'n cael eu defnyddio ym mis Awst 2016. Mae rhaglen ddigwyddiadau hefyd wedi'i llunio i hybu'r defnydd o'r gwaith adfywio ar y promenâd Dwyreiniol ac yn ardal ehangach Ynys y Barri, gan ddatblygu cyfleoedd i dwristiaid ymhellach yn y dref lan-môr. Mae'r mentrau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar adfywio a chyfleoedd ar gyfer cyflogaeth yn yr ardal leol.

- Roedd ymwelwyr â thref lan-môr Ynys y Barri yn ystod haf 2016 yn dweud eu bod yn fodlon iawn â'r dref yn gyffredinol. Roedd 99% o ymwelwyr yn dweud bod y dref lan-môr un ai wedi bodloni neu wedi rhagori'n fawr ar eu disgwyliadau. Barnodd 84% arall bod y dref lan-môr un ai'n dda neu'n ardderchog. Roedd mwy na 97% o ymwelwyr yn fodlon â'r cyfleusterau ar Ynys y Barri gyda 77% yn dweud y byddent yn bendant yn dychwelyd yno. Yn ogystal, dywedodd dros 95% o ymwelwyr a arolygwyd y byddent yn argymhell Ynys y Barri i bobl eraill. Mae'r canlyniad hwn yn ategu'r holl waith cadarnhaol sydd wedi'i gyflawni wrth adfywio'r Ynys lan-môr.
-

- Yn ystod 2016/17, casglodd y Cyngor £6,748,338.63 o gyfraniadau ariannol gan ddatblygwyr trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol/ Cytundebau Adran 106 (A106). Fel cymhariaeth, cafodd tua £20 miliwn ei gasglu ar draws Cymru gyfan yn yr un cyfnod amser.
-

- Parheir i wneud gwelliannau i ganol trefi'r Fro fel rhan o fframwaith y Cyngor a fabwysiedir. Mae hyn wedi cyfrannu at gynnal bywiogrwydd canol ein prif drefi yn wyneb darlun cenedlaethol anodd ar gyfer canolfannau manwerthu, sy'n cynnig amgylchedd gwell i fusnesau, trigolion ac ymwelwyr. Gwerthuswyd canol trefi'r Fro yn gadarnhaol yn ôl yr arolwg Barn y Cyhoedd (2017) diweddar: Heol Holltwn Y Barri (61.4%), Stryd Fawr Y Barri (74.4%), Penarth (95.6%), Y Bont-faen (97.7%), Llanilltud Fawr (90.3%). Roedd y canlyniadau hyn yn welliant ar yr arolwg blaenorol (2015).
-

- Cafodd y cynllun blaenoriaeth i fysiau rhwng Croes Cwrlwys a Weycock Cross a'r cynllun beicio/cerdded eu rhoi ar waith ym mis Mawrth 2017. Mae'r cynllun wedi arwain at greu 188 metr o lwybrau beicio newydd a lôn fysiau sydd wedi arbed amser sylweddol i ddefnyddwyr bysiau ac wedi cynyddu'r nifer sy'n beicio yn yr ardal. Mae arwyddion cynnar yn dangos bod y nifer sy'n dewis beicio wedi cynyddu tua 500%.
-

- Yn yr Arolwg Barn y Cyhoedd diweddaraf (2017) roedd mwy na 90% o ymatebwyr yn fodlon â mynediad at drafndiaeth gyhoeddus (yn fodlon iawn 37.05%, yn weddol fodlon 53.15%) ym Mro Morgannwg.
-

- Yn 2015 gwariodd y Cyngor £344,795 a llenwodd 2,300 o dyllau o dan ei fenter Trwsio Twll. Cyn ymweld â ward, byddwn yn gofyn i aelodau'r cyhoedd adrodd am unrhyw ddiffygion priffyrdd maen nhw wedi'u gweld, gan gynnwys tyllau. Drwy gydol y flwyddyn, ymwelasom â phob un o'r 23 o wardiau a chafodd yr holl atgyweiriadau eu cwblhau dros un penwythnos. Gwnaethom barhau â'r ymgyrch lwyddiannus hon yn 2016, gan wario £392,245 arall a thrwsio 2,568 o dyllau eraill.
-

- Cafwyd blwyddyn lwyddiannus arall o ran digwyddiadau yn 2016, nid yn unig yn ystod rhaglen Penwythnosau Ynys Y Barri ond hefyd yn ehangach yn y Fro, gan sefydlu Bro
-

Morgannwg fel cyrchfan ddymunol ar gyfer digwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.

- Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys Diwrnod Roald Dahl, llawr sglefrio'r Nadolig a'r digwyddiadau blynyddol yn rhan o raglen Penwythnosau Ynys Y Barri. Mae'r digwyddiadau poblogaidd hyn sy'n denu llawer o ymwelwyr yn cefnogi ymestyn y tymor ymhell y tu hwnt i'r gwyliau haf traddodiadol fel y digwyddodd yn y blynyddoedd blaenorol. Bellach mae Ynys Y Barri yn croesawu mwy na 388,000 o ymwelwyr, gyda chyfanswm effaith economaidd o £13.9 miliwn, ac mae llawer o hyn yn seiliedig ar ffigyrau ymwelwyr yn ystod y rhaglen ddigwyddiadau. Mae'r Cyngor yn parhau i hyrwyddo digwyddiadau newydd ac arloesol er mwyn helpu i gynnal yr economi a chreu cymaint o incwm ag sy'n bosibl, ac mae ein hymagwedd wedi cynhyrchu llawer o ddiddordeb ynom wrth i ni lwyfannu digwyddiadau.
-

- Er bod y gyfradd adeiladau gwag ar gyfartaledd yng nghanol prif drefi'r Fro wedi gostwng i 8.2% o'i gymharu â 6.4% yn y flwyddyn flaenorol, wrth gymharu hynny â chyfradd gyfartalog adeiladau gwag mewn canol trefi yn y DU, sef tua 14%, ac enghreifftiau eraill megis canol dinas Caerdydd (16%) a Chasnewydd (29%), mae ein perfformiad yn parhau'n gadarnhaol, ac mae'r canol tref sy'n perfformio orau yn un lle mae'r Cyngor wedi ymyrryd i'r graddau mwyaf, sef Heol Holltwn, Y Barri. Mae perfformiad mewn perthynas â chyfraddau adeiladau gwag yn tueddu i amrywio drwy gydol y flwyddyn a gallai gael ei effeithio gan hyd yn oed nifer fach o adeiladau gwag newydd yn y tymor byr yn ogystal â pherfformiad economaidd cenedlaethol ac rydym yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon yn fanwl.
-

- Trwy'r fenter Cymunedau Gwledig Creadigol, rydym wedi datblygu a hyrwyddo pecyn cymorth mapio cymunedol er mwyn ymgysylltu â chymunedau lleol i ddysgu beth sy'n digwydd yn eu cymunedau nhw. Mae Tîm Cymunedau Gwledig Creadigol y Cyngor, Swyddog Adran 106 a gwasanaethau eraill wedi gweithio'n agos gyda chymunedau yng Ngwenfô, Sain Tathan, Ystradowen a Llangan i ddefnyddio'r pecyn cymorth hwn fel sail i wneud cais ar gyfer arian cyfatebol gan ffynonellau allanol megis Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru, i fanteisio i'r eithaf ar ffynonellau mewnol megis cyfraniadau ariannol Adran 106, er mwyn ymestyn a gwella cyfleusterau lleol. Mae'r pecyn cymorth hwn wedi helpu cymunedau i drefnu digwyddiadau megis diwrnodau gweithgareddau er mwyn dod â'u cymuned ynghyd, ac mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi hyn. Mae ymgymryd â mapio cymunedol yn cynyddu ymysg cymunedau'r Fro a bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu cefnogaeth yn y flwyddyn i ddod.
-

- Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran cynhyrchu map teithio llesol rhwydwaith integredig ar gyfer Bro Morgannwg ac rydym ar y trywydd cywir i gyflwyno'r map yn unol â therfynau amser Llywodraeth Cymru a Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Gofynnwyd i bob parti sydd â diddordeb mewn cymryd rhan wneud sylwadau cychwynnol ar gyfer llwybrau ac ymgynghorir â phob ysgol drwy gynllun gwers. Bydd y mapiau rhwydwaith cynhwysfawr ar gyfer cerdded a beicio yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar drigolion ac ymwelwyr er mwyn teithio'n effeithlon ac yn ddiogel ac yn rhoi mwy o gyfleoedd ar gyfer teithio llesol.
-

- Mae parhau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Eleni, mae canran y bobl ifanc NEET yn ysgolion y Fro wedi parhau i ostwng am y 9fed flwyddyn yn olynol, i 1.6% o 1.76% yn y flwyddyn flaenorol. Rydym yn parhau i weithio gyda sefydliadau lleol fel Cymunedau yn
-

Gyntaf sydd â gweithwyr NEET penodol i ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant drwy glybiau gwaith, mentoriaid ieuenctid a chynnig cyrsiau hyfforddiant er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dysgu. Mae'r gweithwyr NEET hefyd yn gweithio'n effeithiol gydag ysgolion, gwasanaethau addysgol a chyflogwyr er mwyn lleihau nifer y bobl ifanc NEET. Mae hyn wedi cyfrannu tuag at ein llwyddiant parhaus o ran lleihau niferoedd cyffredinol y bobl yr ystyrir eu bod yn NEET yn y Fro, sydd wedi gostwng o 21% yn y flwyddyn ddiwethaf.

- Yn unol â'n hymrwymiad i adeiladu economi gref a chynaliadwy, rydym yn parhau i hyrwyddo ein gwasanaethau cymorth busnes ac mae mwy o alw amdanynt. Cynhaliwyd cyrsiau 1 dydd "Take the Plunge" rheolaidd yn swyddfeydd dociau'r Cyngor ac yn Hen Neuadd y Bont-faen, gyda staff Datblygu Economaidd wrth law ym mhob digwyddiad i gwrdd â busnesau newydd. Mae ein tudalennau gwe Cymorth Busnes wedi mynd yn fyw ac maent yn gweithredu fel siop un stop ar gyfer gwybodaeth, cyngor a chyllid. Caiff Clwb Cychwyn Busnesau ei lansio fis Tachwedd 2017, a bydd yn cynnwys digwyddiadau chwarterol, cyfleoedd rhannu gwybodaeth a mentora unigiol Ar hyn o bryd, mae Busnes Cymru'n darparu pob prif drywydd Cymorth Busnes, ac mae'n gwaith yn y Fro wedi'i gynllunio i ategu'r hyn maent yn ei wneud yn hytrach na dyblygu cymorth presennol. Yn y dyfodol, bydd y gwaith sy'n cael ei wneud trwy Brifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ffurfio gwasanaethau cymorth busnes yn y rhanbarth.

3.6 Sut aethom ati i fesur cynnydd?

Dangosyddion Poblogaeth							
Dangosydd	Perfformiad 2014/2015	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Cyfradd y busnesau gweithredol newydd fesul 10,000 o'r boblogaeth o oedran gwaith	556	Nid yw data cenedlaethol ar gael		Nid yw data cenedlaethol ar gael			
Canran y bobl sydd mewn cyflogaeth.	71.5%	74.6%		73.52%	71.4%	☹️	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran y boblogaeth gweithio nad oes ganddynt unrhyw gymwysterau.	6.8%	7.5%		6.7%	9.6%		↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Nifer yr unigolion lleol sy'n cael hyfforddiant a chyflogaeth trwy recriwtio a hyfforddiant a dargedir mewn projectau adeiladu'r Cyngor.	46	100		60			↓ ⁷
Canran y preswylwyr a arolygwyd sy'n ystyried canol ein trefi (gan gynnwys Y Barri, Penarth, Llanilltud Fawr a'r Bont-faen) yn lleoedd deniadol i ymweld â nhw ac i siopa ynddynt.	76%	76%	78%	81%		😊	↑
Cyfanswm yr ymwelwyr â Bro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (fel y mesurir gan arolwg STEAM).	3,663,000	3,962,000		3,970,000			↑

⁷ Roedd llai o gyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth ar gael mewn prosiectau adeiladu'r Cygoed yn 2016/17 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Ar y cyfan, diogelwyd 14 o swyddi, 15 hyfforddai a 31 o brentisiaethau gan unigolion di-waith lleol yn rhan o'r prosiect Dysgu Cymunedol Llanilltud (DCLI) yn ystod 2016/17.

Pa mor dda yr ydym wedi perfformio?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Gwerth y cyfraniadau ariannol a dderbyniwyd trwy'r Ardoll Seilwaith Cymunedol/cytundebau Adran 106	£3,401,184.98	£2,603,788.40		£6,748,338.63	£1,215,833.5		↑
Cyfradd adeiladau gwag ar gyfartaledd ym mhrif drefi'r Fro.	7.4%	6.4%	6.3%	8.2%		☹	↓ ⁸
Canran y llafur lleol a gyflogwyd o fewn 25 milltir o'r Barri o ganlyniad i WHQS	42%	98.52%		100%			↑
Nifer y ceisiadau masnachol a bennwyd o fewn y Parth Menter.				4			
Bodddhad â thrafnidiaeth gyhoeddus gan gynnwys a) hygyrchedd a b) diogelwch ar y ffyrdd.				a) 90.2% b) 56.1%			

⁸ Gostyngodd cyfradd adeiladau gwag gyfartalog yng nghanol prif drefi'r Fro i 8.2% o'i gymharu â 6.4% yn y flwyddyn flaenorol, gan fethu ein targed o 6.30%. Er gwaethaf hyn, wrth gymharu â chyfradd gyfartalog adeiladau gwag yng nghanol trefi'r DU, sef tua 14%, ac enghreifftiau eraill megis Canol Dinas Caerdydd (16%) a Chasnewydd (29%), mae ein perfformiad yn parhau i fod yn gadarnhaol.

Pa mor dda yr ydym wedi perfformio?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran y bobl sy'n fodlon â safonau glanweithdra	88%	88%		93%			↑

Faint ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Grwpiau cymunedol a gefnogir i dyfu capasiti				78			

Meysydd i'w gwella		Erbyn
1	Gweithio mewn partneriaeth â Phrifddinas-ranbarth Caerdydd i hyrwyddo Maes Awyr Caerdydd a'r Parth Menter a defnyddio'r Cynllun Datblygu Lleol fel fframwaith cynllunio ar gyfer defnydd tir cadarnhaol.	31/3/2018
2	Parhau i ddarparu'r Fframwaith Canol Trefi.	31/3/2018
3	Cynyddu nifer y digwyddiadau cyhoeddus arloesol a ddyluniwyd i gefnogi a hyrwyddo'r economi leol ac annog digwyddiadau presennol i ddod yn fwy hunan gynaliadwy.	31/3/2018
4	Parhau â'r gwaith o gyflawni projectau adfywio ledled Bro Morgannwg.	31/3/2018
5	Paratoi rhwydwaith integredig y Map Teithio Llesol ac ymgynghori arno.	31/3/2018

Canlyniad Lles 3	
Mae gan holl ddinayddion Bro Morgannwg gyfleoedd i gyflawni eu llawn botensial.	

Amcan Gwella 3	Codi safonau cyflawni yn gyffredinol.
---------------------------	--

3.7 Datganiad sefyllfa

Beth a ystyrir yn llwyddiant?	Statws Gwerthuso: WEDI'I GYFLAWNI'N RHANNOL
<ul style="list-style-type: none"> • Cyrhaeddiad gwell mewn TGAU Saesneg a Mathemateg. • Mae'r bwlch cyfredol FSM yn CA4 lefel 2+ yn 37.1% ar gyfer yr Awdurdod Lleol a 32.4% ar gyfer Cymru. Mae'r bwlch rhwng disgyblion FSM a'r rhai nad ydynt yn FSM wedi culhau ar gyfer CA4 5 A*-C gan gynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg o 37.1% ym mlwyddyn academaidd 2014-15, i 30% yn y flwyddyn academaidd 2015-16. • Mae'r bylchau cyrhaeddiad a chyflawniad ar gyfer disgyblion FSM wedi culhau at gyfer pob cyfnod. • Mae'r bwlch rhwng disgyblion FSM a'r rhai nad ydynt yn FSM wedi culhau ar gyfer y Dangosydd Cyfnod Sylfaen o 12.1% ym mlwyddyn academaidd 2014-15, i 10% yn y flwyddyn academaidd 2015-16. • Mae'r bwlch rhwng disgyblion FSM a'r rhai nad ydynt yn FSM wedi culhau ar gyfer dangosydd pynciau craidd CA2 o 17.3% ym mlwyddyn academaidd 2014-15, i 12% yn y flwyddyn academaidd 2015-16. • Caiff 100% o ymyriadau disgyblion eu tracio, eu monitro a dadansoddir effeithiolrwydd yr effaith. • Gostwng ymhellach lefelau pobl ifanc NEET sy'n gadael blwyddyn 13 i 2.5%. 	<p>Er ein bod wedi gwneud cynnydd da, rydym yn cydnabod nad yw'r safonau a gyflawnwyd gan blant sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim eto yn cyrraedd rhai plant eraill ym mhob cyfnod allweddol ac mae hyn yn parhau'n flaenoriaeth i'r Cyngor:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwellodd deilliannau mewn TGAU Mathemateg o 50% ym mlwyddyn academaidd 2014/15 i 74.1% yn 2015/16. Mewn perthynas â Saesneg, gostyngodd cyrhaeddiad disgyblion o 2.87 o bwyntiau canran o 76.7% i 73.83%. • Bu cynnydd o 14% yng nghyfraeddiadau disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ar drothwy lefel 2 mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg yn y blynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16. • O ran lleihau'r bwlch, yn ystod 2015/16 (blwyddyn academaidd 2014/15) y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n FSM a disgyblion nad ydynt yn FSM ar drothwy lefel 2 oedd 39.93%, a lleihawyd hynny i 27.73% erbyn 2016/17 (blwyddyn academaidd 2015/16). Mewn ysgolion lle mae'r bwlch cyrhaeddiad wedi lledaenu, mae hyn oherwydd bod deilliannau ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gymwys i gael FSM wedi gwella ar gyfradd fwy.

<ul style="list-style-type: none"> • Caiff pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET eu nodi'n gynnar a darperir cymorth wedi'i dargedu iddynt trwy gyfnodau pontio, megis symud ymlaen i addysg ôl-16, cyflogaeth neu hyfforddiant. 	<ul style="list-style-type: none"> • Mae lefelau cyrhaeddiad disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn dangos eu bod yn cyflawni deilliannau uwch o'u cymharu â gweddill Cymru ym mron pob dangosydd perfformiad ym mhob cyfnod allweddol yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16. • Barnwyd pob un o'r 8 ysgol a arolygwyd eleni i fod o leiaf yn "dda" ar gyfer perfformiad presennol a rhagolygon ar gyfer gwella gan Estyn gan wella ar yr 80% a gyflawnwyd y llynedd. Mae ffocws cyson ar wella safonau, cyfathrebu clir ac arweinyddiaeth gref wedi cyfrannu at y gwelliant hwn. • Mae parhau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Eleni, mae canran y bobl ifanc NEET yn ysgolion y Fro wedi parhau i ostwng am y 9fed flwyddyn yn olynol, i 1.6%, fodd bynnag mae angen gostwng lefelau NEETs Blwyddyn 13 ymhellach. Rydym yn parhau i weithio mewn partneriaeth er mwyn hyrwyddo cyfleoedd dysgu, hyfforddiant a chyflogaeth.
---	---

3.8 Beth wnaethon ni a beth ydym wedi'i gyflawni?

- Yn ystod y flwyddyn, mae Atodiad yr Awdurdod Lleol wedi cynnig cyfleoedd i rannu rhagoriaeth rhwng ysgolion gyda'r nod o wella safonau cyflawni ar gyfer disgyblion ym Mro Morgannwg. Bydd y gwaith hwn yn parhau drwy gynnal ymweliadau â chymorth i ysgolion yn Lloegr wedi'u dilyn ag adolygiadau gan gyfoedion mewn triadau. Mae llwyddiant y dull hwn eisoes yn amlwg gyda safonau'n gwella ym mhob un o'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac ym mhob achos bron mae'r gyfradd gwelliant wedi bod yn fwy yn y Fro na'r cyfartaledd yng Nghymru ar gyfer y flwyddyn academaidd 2015/16.

- Mae monitro wedi dod i ben ar gyfer yr holl ysgolion a fonitryd gan yr Awdurdod Lleol a hynny o fewn blwyddyn o'r arolygiad. Dim ond 2 ysgol sydd dal i gael eu monitro gan Estyn, ac mae'r ddwy wedi gwneud cynnydd da fel y mae'r dystiolaeth yn dangos mewn cyfarfodydd cynnydd gydag Ymgynghorwyr Her (YN) a swyddogion yr awdurdod lleol, ac felly mae'n debygol y bydd monitro'n dod i ben cyn diwedd tymor yr haf.

- Barnwyd pob un o'r 8 ysgol a arolygwyd eleni i fod o leiaf yn "dda" ar gyfer perfformiad presennol a rhagolygon ar gyfer gwella gan Estyn gan wella ar yr 80% a gyflawnwyd y llynedd. Mae'r gwelliant hwn yn adlewyrchu ein ffocws clir ar wella safonau, cyfathrebu

clir ac arweinyddiaeth gadarn sydd wedi bod yn gyson drwy'r flwyddyn.

- Rydym wedi datblygu a gweithredu Rhaglen Gynefino ar gyfer Penaethiaid y Fro i gryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion ac i sicrhau bod penaethiaid newydd yn llwyr ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae adborth gan Benaethiaid wedi bod yn bositif dros ben.

-
- Mae lleihau'r bwlch mewn perfformiad rhwng disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a'r rhai hynny nad ydynt, yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Eleni, mae gwaith wedi datblygu i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol drwy Ymgynghorwyr Her (YN) yn craffu ar ddata olrhain ysgolion a chynlluniau gwario Grant Amddifadedd Disgyblion ysgolion. Ers 2012, mae perfformiad wedi gwella ym mhob un o'r prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim. Mae'r prif uchafbwyntiau'n cynnwys:

- Bu cynnydd o 14% yng nghyfraediadau disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ar drothwy lefel 2 mewn Saesneg, Cymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg rhwng 2015/16 a 2016/17 (hynny yw blynyddoedd academaidd 2014/15 a 2015/16).
- O ran lleihau'r bwlch, yn ystod 2015/16 (blwyddyn academaidd 2014/15) y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n derbyn PYADd a disgyblion nad ydynt yn derbyn PYADd ar drothwy lefel 2 oedd 39.93%, a leihawyd i 27.73% erbyn 2016/17 (blwyddyn academaidd 2015/16). Mewn ysgolion lle mae'r bwlch cyrhaeddiad wedi ehangu, mae hyn oherwydd bod deilliannau ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gymwys i gael PYADd wedi gwella ar gyfradd fwy. Maes penodol i dynnu sylw ato yw perfformiad lefel 2 lle y mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys a disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim yn lleihau'n gyflymach ym Mro Morgannwg na'r cyfartaledd yng Nghymru.

-
- Mae tuedd barhaus tuag i fyny yng nghanran y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg ar gyfer pob disgybl (96.64%) a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (heb fod yn gymwys i gael PYADd) (96.24%), y ddau yn rhagori ar y targed a pherfformiad y flwyddyn academaidd flaenorol. Mae ein perfformiad ar gyfer pob disgybl yn dangos cynnydd o 5.9% ers 2012 ac yn golygu mai ni yw'r ail Awdurdod Lleol uchaf yng Nghymru.

-
- Mae llawer o waith wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn i asesu goblygiadau'r Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ac i wneud yn siŵr ein bod ni'n cydymffurfio'n effeithiol ag ef er mwyn sicrhau deilliannau uchelgeisiol i ddysgwyr ag anghenion ychwanegol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd pedwar prosiect ei gwblhau'n llwyddiannus gan y pum awdurdod o fewn Consortiwm Canolbarth y De, a gefnogwyd gan gyllid Arloesi ADY gwerth £250,000 a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru. Arweiniodd y Fro ar y prosiect Cynlluniau sy'n Canolbwyntio ar y Person ac mae wedi darparu hyfforddiant i holl Gydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADYwyr) mewn ysgolion yn unol â chyfarwyddyd Llywodraeth Cymru.

-
- Mae data cyrhaeddiad ar gyfer disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y Fro yn dangos eu bod yn cyflawni deilliannau uwch o'u cymharu â gweddill Cymru ym mron pob dangosydd perfformiad ym mhob cyfnod allweddol yn ystod blwyddyn

academaidd 2015/16. Er enghraifft, yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 2, roedd deilliannau ar gyfer disgyblion ag ADY yn uwch nag ar gyfer Cymru gyfan yn erbyn bob un o'r dangosyddion perfformiad. Hefyd yn ystod blwyddyn academaidd 2015/16, roedd y deilliannau ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 yn uwch nag ar gyfer Cymru gyfan yn erbyn yr holl ddangosyddion perfformiad, ac eithrio Cymraeg. Yng Nghyfnod Allweddol 4, roedd perfformiad wedi gwella ar lefel 2+ ac roedd deilliannau'n uwch nag ar gyfer Cymru gyfan yn Lefel 2 Saesneg, Cymraeg a Mathemateg.

- Bu cynnydd cadarnhaol wrth fwrw ymlaen â'r rhaglen moderneiddio ysgolion yn ystod 2016/17. Mae'r prif uchafbwyntiau'n cynnwys:
 - Gwaith adeiladu yn Ysgol y Ddraig ac yn Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr wedi'i gwblhau.
 - Mae'r cyfleusterau ysgol gwell wedi'u rhoi i'r ysgolion a bellach yn cael eu defnyddio'n llawn. Cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Mawrth 2017 benderfyniad terfynol i fwrw ymlaen â'r cynnig ar gyfer dyfodol tair ysgol uwchradd newydd yn y Fro. Bydd hyn yn creu dwy ysgol gyfun cyfrwng Saesneg ar gyfer disgyblion rhwng 11 a 18 oed sy'n gymysg o ran rhyw ar safleoedd presennol Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren ac yn sefydlu chweched dosbarth ar y cyd rhwng y ddwy ysgol. Llywiwyd y penderfyniad hwn gan ymgynghoriad 6 wythnos o hyd a bydd gwaith yn parhau yn 2017/18 i fwrw ymlaen â hyn yn rhan o raglen foderneiddio'r ysgol.
 - Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran yr asesiad anghenion datblygu ysgolion yn barod ar gyfer Band nesaf cyllid rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif sydd i fod i gychwyn yn 2019/20. Bydd hyn yn amlygu anghenion datblygu pob ysgol ac yn llywio rhaglen foderneiddio'r Cyngor wrth symud ymlaen.
 - Mae gwaith ar y gweill i agor uned feithrinfa yn Ysgol Gynradd Fairfield o fis Ionawr 2018 ymlaen. Mae'r uned feithrinfa rhan amser a fydd yn cynnig 60 o leoedd yn golygu y gellir ehangu ystod oedran yr ysgol i fod yn ysgol gynradd ar gyfer disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Yn unol â blaenoriaethau'r Cyngor, bydd hyn yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn cyfrannu at godi safonau mewn ysgolion.
-
- Rydym wedi cyflwyno rhaglen o weithgareddau drwy gydol 2016/17 sydd â'r bwriad o gynyddu a gwella cyfleoedd dysgu i unigolion difreintiedig a'u teuluoedd. Mae'r prosiect EMOJIS yn rhaglen ddwys sydd wedi'i thargedu at bobl ifanc rhwng 8 ac 14 oed y nodir bod ganddynt faterion emosiynol ac ymddygiadol. Eleni, ymgysylltwyd â 30 o ddisgyblion rhwng 8 a 12 oed, ac 20 o ddisgyblion rhwng 13 a 16 oed drwy chwe rhaglen, 10 wythnos o hyd. Ar ôl cwblhau'r rhaglen, nododd 70% o'r bobl ifanc eu bod bellach yn gallu ymdopi â materion o ddydd i ddydd. Mae'r prosiect 'Rhoi Teuluoedd yn Gyntaf' wedi'i dargedu at blant oedran ysgol gynradd a'i nod yw cael gwared ar y rhwystrau rhag ymgysylltu drwy ganolbwyntio ar wella rhianta, sgiliau cymdeithasol a sgiliau sylfaenol yn y tymor hwy. Eleni, roedd 11 o ysgolion a nodwyd a 4 lleoliad cymunedol yn rhan o'r gwaith o gyflenwi'r prosiect i bron 500 o deuluoedd. Yn ystod yr un cyfnod, cyflawnodd 40 o rieni gwrs Meithrin i Rieni gan Cysylltiadau Teuluol, darparwyd 41 o gyrsgiau achrededig a 12 o gyrsgiau 'Camau i Gymhelliant' hefyd. Roedd adborth gan rieni yn gadarnhaol ac adroddodd 100% ohonynt fod y cyrsiau Meithrin i Rieni/Datblygiad Plentyn a fynychwyd ganddynt wedi gwneud gwahaniaeth i'w dealltwriaeth o'u rôl fel rhiant a dywedodd 96% o gyfranogwyr fod ganddynt yr hyder erbyn hyn i ddefnyddio gwasanaethau cymorth eraill o ganlyniad.

-
- Mae parhau i leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor. Eleni, mae canran y bobl ifanc NEET sy'n gadael blwyddyn 11 yn ysgolion y Fro wedi parhau i ostwng am y 9fed flwyddyn yn olynol, i 1.6% (1.76% yn 2015/16). Mae nifer y bobl ifanc NEET sy'n gadael blwyddyn 12 hefyd wedi lleihau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, o 1.52% i 1.3%. Drwy amrywiaeth o fentrau, mae'r awdurdod lleol yn parhau i weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, sefydliadau lleol a chyflogwyr i leihau nifer y bobl ifanc NEET. Hefyd, mae gweithwyr NEET yn ymgysylltu'n uniongyrchol â phobl ifanc drwy glybiau swyddi a mentoriaid ieuencid i gynnig cyrsiau hyfforddi ac i hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgu, hyfforddi a chyflogaeth. Mae hyn wedi cyfrannu at ein llwyddiant parhaus wrth leihau niferoedd cyffredinol y bobl yr ystyrir eu bod yn NEET yn y Fro.
-

- Rydym wedi parhau i gefnogi plant sy'n agored i niwed wrth iddynt bontio o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd, sydd hefyd wedi helpu i gryfhau cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol. Eleni, cwblhaodd 633 o ddisgyblion Gynllun Pontio Personol a gwnaethpwyd mwy na 1,500 o gysylltiadau â disgyblion a rhieni. O ganlyniad, nododd 100% o'r disgyblion a'r rhieni a gefnogwyd gan y prosiect eu bod wedi elwa ar yr ymyriadau a wnaed drwy'r prosiect. Mewn cysylltiad â'r gwaith a wnaed drwy'r fenter Cymunedau yn Gyntaf i gefnogi pontio rhwng ysgolion o fewn ardaloedd cymwys, llwyddodd 68 o bobl ifanc i wella eu perfformiad academaidd, gan ragori ar ein targed o 45, a llwyddodd 75 o bobl ifanc i gynyddu eu presenoldeb yn yr ysgol yn erbyn targed blynyddol o 45. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae 26 o rieni wedi ymgysylltu mwy ag ysgolion.
-


- Ni adawodd unrhyw ddisgybl yng ngofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol addysg orfodol, hyfforddiant na lleoliadau dysgu yn y gwaith heb gymhwyster cymeradwy y flwyddyn academaidd hon (2015/16) gan adlewyrchu ein perfformiad yn y flwyddyn flaenorol.
-

- Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy fynd ati i hyrwyddo mwy ar ddefnydd a manteision addysg cyfrwng Cymraeg wrth ddysgu gydol oes. Yn ystod 2016/17, aethom ati i ymgynghori â'r holl randdeiliaid allweddol yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ar gyfer 2017-20 a chyflwyno hyn i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2017 i'w gymeradwyo. Mae LIC yn cynnal adolygiad o'r fframwaith Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn unol â Strategaeth Cymraeg 2050 a rhagwelir y bydd hyn nawr yn golygu bod angen addasu ambell beth yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg y Fro yn ystod 2017/18.
-

- Yn ystod 2016/17 (blwyddyn academaidd 2015/16) roedd cyfradd lwyddo o 96% ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth ar gyrsiau achrededig, sy'n cynrychioli gwelliant o 10% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan ragori ar ein targed o 86%. Yn ogystal bu cynnydd yn nifer yr ymrestriadau ar gyrsiau achrededig ar gyfer dysgwyr â blaenoriaeth eleni o 736 i 910 o ddysgwyr, gan ragori ar y targed a osodwyd gan 100 o ddysgwyr ychwanegol. Roedd y gwelliant hwn yn rhannol oherwydd cynnydd yn argaeledd cyrsiau byr a thargedu gwell.

- Yn ystod y flwyddyn academaidd (2015/16), mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd wedi parhau i godi i 95.05% o'i gymharu â 94.71% yn y flwyddyn academaidd flaenorol. Cafodd y perfformiad hwn ei gefnogi gan ein cydweithio gydag ysgol o ran gweithredu hysbysiadau cosb benodedig a Strategaeth Callio. Mae hyn yn golygu ein bod ymhlith y chwarterl uchaf o berfformwyr yng Nghymru, yn yr ail safle. Roedd perfformiad mewn perthynas ag ysgolion cynradd yn adlewyrchu ein perfformiad y llynedd, a 95.3% oedd y ffigur. Roedd y ffigur hwn yn bumed orau yng Nghymru unwaith eto.

3.9 Sut aethom ati i fesur cynnydd?

Dangosyddion Poblogaeth							
Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfaraledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran y bobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.	4.07%	2.92%	2.29%	3.07%	3.11%	 ⁹	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfaraledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran yr holl ddisgyblion blwyddyn 11 yn cyflawni 5 neu fwy o raddau TGAU A* i A:	21.7%	21.2%		21.89%	15.9%		↑

⁹ Mae ein perfformiad yn adlewyrchu cynnydd yn nifer y bobl ifanc NEET, o 24 i 25. Mae'r cynnydd o 1 person wedi cael mwy o effaith ar ganran yr unigolion NEET oherwydd maint y garfan. Bu gwaith parhaus ymhlith partneriaid y Fro i ymgysylltu â phobl ifanc o'r grŵp blwyddyn hwn. Rhagwelir y bydd y perfformiad hwn yn gwella yn 2017-18, pan fydd rhaglen 'Ysbrydoli i Weithio' Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn gwbl weithredol.

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfaraledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran yr holl ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni 5 neu fwy o raddau TGAU A* i A:	6.9%	1.8%		3.78%	4.5%		↑
Canran yr holl ddisgyblion blwyddyn 11 nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yn cyflawni 5 neu fwy o raddau TGAU A* i A:	24.4%	23.9%		24.40%	18.5%		↑
Canran yr holl ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n derbyn gofal yn cyflawni 5 neu fwy o raddau TGAU A* i A:	0%	0%		0%			
Canran y disgyblion 15/16 oed yn cyflawni 5 neu fwy o raddau TGAU A* i A neu'r cymhwyster galwedigaethol cyfatebol ar gyfer:	a) 72.28%	a) 74.42%	a) 77%	a) 72.43%	a) 71.6%	☹	↑
a) Disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a b) disgyblion nad ydynt yn	b) 91.23%	b) 91.28%	b) 93%	b) 89.97%	b) 89.0%	☹	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfarfaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16 Blwyddyn Academaidd	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
derbyn prydau ysgol am ddim							
Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n parhau mewn addysg llawn amser.	94.8%	95.5%		94.2%	94.1%		↑
Canran y disgyblion 15 oed ar 31 Awst y flwyddyn flaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr ALI sydd wedi cyflawni'r trothwy lefel 2 gan gynnwys graddau TGAU A*-C mewn Saesneg, Cymraeg Iaith gyntaf a Mathemateg ar gyfer:	a) 30.69%	a) 28.7%	a) 44%	a) 42.70%	a) 35.6%	☹️	↑
	b) 68.31%	b) 68.63%	b) 74%	b) 70.43%	b) 66.8%	☺️	↑
a) Disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a b) disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim							
Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys plant	0%	0%	0%	0.1%	0.2%	☹️ ¹⁰	↑

¹⁰ Nid oedd yn bosibl nodi lleoliad 2 ddisgybl ar y gofrestr, ac o ganlyniad ni allwn ddweud yn sicr eu bod wedi mynd ymlaen i sefydliad addysgol arall neu i ddysgu yn y gwaith.

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
sy'n derbyn gofal) mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALI sy'n 15 oed ar yr 31ain o Awst blaenorol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu'n seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.							
Canran y disgyblion yng ngofal awdurdod lleol mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan yr ALI sy'n 15 oed ar yr 31ain o Awst blaenorol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu'n seiliedig ar waith heb gymhwyster allanol cymeradwy.	0%	0%	0%	0%	1.5%	😊	↔
Canran yr holl ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 (CA2), mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r	90.48%	92.12%	94%	92.72%	88.6%	😐	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Aseiad yr Athro.							
Canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd CA2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Aseiad yr Athro.	77.55%	77.13%	82%	80.6%	77.1%	☹	↑
Canran y disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd CA2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Aseiad yr Athro.	92.43%	94.39%	95%	94.55%	91.4%	☹	↑
Canran yr holl ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd	83.96%	87.38%	92%	91.15%	86.1%	☹	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Pwnc Craidd, yn ôl Asesiad yr Athro.							
Canran yr holl ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (CA3), mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Asesiad yr Athro.	65.87%	74.5%	74%	74.5%	69.4%	😊	↑
Canran y disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd CA3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni'r Dangosydd Pwnc Craidd, yn ôl Asesiad yr Athro.	87.46%	90.18%	93%	94.15%	89.8%	😊	↑
Canran yr holl ddisgyblion a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni	89.48%	91.51%	92%	91.21%	87%	😐	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Dangosydd Canlyniad y Cyfnod Sylfaen, yn ôl Asesiad yr Athro.							
Canran yr holl ddisgyblion sy'n derbyn prydau ysol am ddim a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni Dangosydd Canlyniad y Cyfnod Sylfaen, yn ôl Asesiad yr Athro.	78.67%	81.06%	83%	79.91%	75.7%	☹	↑
Canran yr holl ddisgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim a aseswyd ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, sy'n cyflawni Dangosydd Canlyniad y Cyfnod Sylfaen, yn ôl Asesiad yr Athro.	91.21%	93.17%	94%	93%	90%	☹	↑
Canran y bobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg,	2.76%	1.68%	1.6%	1.61%	2%	☹	↑

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
cyflogaeth neu hyfforddiant.							
Canran y bobl ifanc sy'n gadael blwyddyn 12 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant.	1.78%	1.52%	1.4%	1.3%	1.2%	☺	↓ 11
Canran yr holl ddisgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	92.2%	93.53%	94%	93.77%	90.3%	☹	↑
Canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	81.6%	81.91%	87.74%	85.07%	80.3%	☹	↑
Canran y disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Saesneg.	93.8%	95.28%	95.54%	95.08%	92.7%	☹	↑
Canran yr holl ddisgyblion yng	93%	93.67%	94%	94.64%	91%	☺	↑

¹¹ Er bod lefelau NEET Blwyddyn 12 wedi gwella'n gyson dros y blynyddoedd diwethaf, mae ein perfformiad yn 2016/17 yn parhau i fod ychydig o dan y cyfartaledd yng Nghymru, sef 1.2%. Rhagwelir y bydd gweithredu'r rhaglenni Ysbrydoli i Weithio ac Ysbrydoli i Gyflawni yn cyfrannu at leihau mwy ar lefelau NEET o fewn y grŵp oedran hwn.

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.							
Canran y disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	83.7%	80.85%	88.4%	84.08%	81.2%	☹	↑
Canran y disgyblion nad ydynt yn derbyn prydau ysgol am ddim yn CA2 sy'n cyflawni'r safon ddisgwyliedig mewn Mathemateg.	94.4%	95.28%	95.3%	96.24%	93.3%	☺	↑

Pa mor dda yr ydym wedi perfformio?							
Dangosydd	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2013/14	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2014/15	Targed Blwyddyn Academaidd 2015/16	Perfformiad Blwyddyn Academaidd 2015/16	Cyfartaledd Cymru Blwyddyn Academaidd 2015/16	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd.	95.29%	95.33%	95.4%	95.34%	94.9%	☹	↑
Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	94.25%	94.71%	94.4%	95.05%	94.2%	☺	↑
Canran y diwrnodau ysgol a gollwyd o ganlyniad i waharddiadau tymor penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion cynradd.	0.01%	0.01%	0.01%	0.01%	Ffigwr heb ei gyhoeddi	☺	
Canran y diwrnodau ysgol a gollwyd o ganlyniad i waharddiadau tymor penodol yn ystod y flwyddyn academaidd mewn ysgolion uwchradd.	0.11%	0.03%	0.05%	0.06%	0.09%	☹	↑

Meysydd i'w gwella		Erbyn
1	Canolbwyntio ar ddatblygu ysgolion hunan-wella drwy nodi a hwyluso cyfleoedd ar gyfer rhannu rhagoriaeth o ysgol i ysgol.	31/3/2018
2	Gwella darpariaeth ar gyfer disgyblion sydd angen addysg ac eithrio yn yr ysgol (EOTAS) drwy gydlynw'r holl adnoddau sydd ar gael yn fwy effeithiol.	31/3/2018
3	Cynnig cymorth a her ychwanegol i ysgolion wedi'u targedu i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim.	31/3/2018
4	Darparu rhaglenni Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio i leihau lefelau cyffredinol y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn y Fro.	31/3/2018
5	Gweithredu fframwaith er Rhagoriaeth ar gyfer ADY ym mhob ysgol.	31/3/2018

Canlyniad Lles 4



Mae trigolion Bro Morgannwg yn arwain bywydau iach ac mae pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a'u cefnogi.

Amcan Gwella 4

Annog a hyrwyddo ffordd o fyw actif a iach.

3.10 Datganiad sefyllfa

Beth a ystyrir yn llwyddiant?	Statws Gwerthuso: WEDI'I GYFLAWNI
<ul style="list-style-type: none"> Plant a phobl ifanc ac oedolion yn cymryd mwy o ran mewn gweithgareddau chwaraeon. Mwy o foddhad defnyddwyr o ran cyfleoedd hamdden a chwaraeon. Gwell mynediad at wybodaeth am wasanaethau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar i gefnogi teuluoedd. Mwy yn cymryd rhan yn yr ymyriadau bwyta'n iach sydd wedi'u targedu yn y gymuned, a hwylusir gan Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg. Gwella canlyniadau triniaeth ac ansawdd bywyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. 	<p>Gwyddom hyn gan ein bod, ar y cyfan, wedi cyflawni'r amcanion y gwnaethom osod i'n hunain yn 2016/17:</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae mwy o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn y Fro yn ôl ein Harolwg Barn Gyhoeddus diweddaraf (2017). Yn ôl yr Arolwg diweddaraf Chwaraeon Cymru (2015/16), mae cyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc wedi cynyddu (ers 2013) o 8% ac mae 52% o blant rhwng 7 ac 16 oed yn y Fro erbyn hyn yn cyfranogi mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol o leiaf tair gwaith yr wythnos, sef y trydydd uchaf yng Nghymru. Rydym wedi rhoi'n Cynllun Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol y Fro ar gyfer 2016/17 ar waith ac mae mwy na 292 o sefydliadau'n cyfrannu at ddenu rhagor o gyfranogi mewn gweithgareddau hamdden a gweithgarwch corfforol: Manteisiwyd ar 1,174 o gyfleoedd hyfforddi gan unigolion o fwy nag 80 o sefydliadau trwy'r rhaglen datblygu'r gweithlu; 1,019 o gyfranogwyr yn y project 'Merched yn Ymarfer Corff'; cymerodd 1,667 o blant a phobl ifanc ran yn rhaglen Cystadlaethau a Gwyliau'r Fro; bu 522 o aelodau anabl o glybiau a

	<p>630 o aelodau sesiynau chwaraeon i bobl anabl yn bresennol ar gyfer 50 o gyfleoedd cynhwysol a rhai sy'n benodol i bobl anabl; cafodd 1,012 fynediad at sesiynau 'Dysgu i Nofio' ar gyfer ysgolion mewn canolfannau hamdden yn y Fro.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Rydym wedi bod wrthi'n gweithio gyda phartneriaid a chyda'n cymunedau i wella cyfleusterau lleol a mannau cymunedol er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon. Yn ôl ein Harolwg Barn Gyhoeddus diweddaraf (2017), nododd bron 90% o breswylwyr eu bod yn fodlon â gwasanaethau hamdden yn y Fro o'i gymharu â 83% yn yr arolwg blaenorol. • Rydym yn parhau i wella hygyrchedd ac ansawdd gwybodaeth am wasanaethau cymdeithasol i oedolion, cymorth i deuluoedd a gwasanaethau gofal plant yn dilyn lansiad llwyddiannus porth gwybodaeth DEWIS Cymru ac mae ymgyrch barhaus ar waith i hyrwyddo'r adnodd i drigolion a gweithwyr proffesiynol. • Gallwn ddangos cynnydd cadarnhaol ar amrywiaeth o weithredoedd i annog ffyrdd iachach o fyw yn y Fro mewn partneriaeth drwy Fwrdd Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro. Drwy fentrau Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg yn y gymuned, rydym ni'n mynd ati'n targedu ein hymyriadau bwyta'n iach i sicrhau canlyniadau gwell. • O ganlyniad i ddull wedi'i dargedu, roedd 83.8% o unigolion a gychwynnodd driniaeth camddefnyddio sylweddau wedi llwyddo i gwblhau'r driniaeth o'i gymharu â 76.6% y llynedd. Ar gyfer 61% o gleientiaid, adroddwyd gwelliant mewn ansawdd bywyd yn dilyn triniaeth.
--	--

3.11 Beth wnaethon ni a beth ydym wedi'i gyflawni?

- Mae mwy o oedolion yn cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol yn y Fro yn ôl ein Harolwg Barn Cyhoeddus (2017). Roedd 46% o oedolion 16+ oed yn cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol bob dydd; 17% o leiaf 2-3 gwaith yr wythnos a 9% o leiaf unwaith yr wythnos. Adroddodd y data diweddaraf o'r Arolwg Oedolion Actif (Chwaraeon Cymru 2014) fod 46% o oedolion yn cyfranogi mewn gweithgareddau corfforol 3 gwaith neu fwy yr wythnos (meini prawf "wedi gwirioni ar chwaraeon")

-
- Yn ôl yr Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru (2015/16), mae cyfranogiad ymhlith plant a phobl ifanc wedi cynyddu (ers 2013) o 8% ac mae 52% o blant rhwng 7 ac 16 oed yn y Fro erbyn hyn yn cyfranogi mewn chwaraeon neu weithgareddau corfforol o leiaf tair gwaith yr wythnos, sef y trydydd uchaf yng Nghymru.
-

- Trwy ein gwaith i gynyddu cyfleoedd i bobl anabl gymryd rhan mewn gweithgareddau corffol, enillom y Wobr Efydd ar gyfer Insport gan Chwaraeon Anabledd Cymru, sef y wobwr uchaf a oedd ar gael ar y pryd ac rydym yn gweithio tuag at ennill y Wobr Arian. Rydym yn parhau i weithio gyda chlybiau chwaraeon er mwyn cynyddu'r nifer sy'n darparu naill ai cyfleoedd cynhwysol neu rai sy'n benodol i anableddau. Yn ystod 2016/17, cynigodd 50 o glybiau gyfleoedd cynhwysol neu rai sy'n benodol i anableddau o'i gymharu â 47 o glybiau yn ystod y flwyddyn flaenorol. O'r 50, mae 17 wedi cyflawni achrediad Insport cenedlaethol sy'n dangos eu cynwysoldeb ar gyfer pobl anabl.
-

- Mae'r gwasanaeth yn gweithio'n agos gyda'r Bartneriaeth Bro Ddiogelach er mwyn sicrhau ymyrraeth wedi'i thargedu sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd gyda'r nod o atal/leihau tebygolrwydd o gamddefnyddio sylweddau neu alcohol pan fo pobl yn oedolion. Ers iddo gael ei sefydlu yn ystod Ch2, mae'r gwasanaeth ar gyfer Caerdydd a'r Fro wedi derbyn 414 o atgyfeiriadau. O'r rhain roedd 37 (8.9%) ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau; 153 (36.6%) yn gysylltiedig â materion gorbryder; a 138 (33.3%) yn gysylltiedig â materion dicter. O'r holl atgyfeiriadau a dderbyniwyd, roedd 198 (48%) yn wrywaidd a 216 (52%) yn fenywaidd.
-

- O ganlyniad i ddull wedi'i dargedu, yn ystod 2016/17, roedd 83.8% o unigolion a gychwynnodd driniaeth camddefnyddio sylweddau wedi llwyddo i gwblhau'r driniaeth o'i gymharu â 76.6% y llynedd. Mae codi ymwybyddiaeth o'r niwed yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau ymhlith gweithwyr proffesiynol a thrigolion y Fro a chynyddu nifer y triniaethau camddefnyddio sylweddau a gwblheir yn parhau i fod yn flaenoriaeth ar gyfer y Bwrdd Cynllunio Ardal yn ei gynllun cyflawni ar gyfer 2016-18, gan gyfrannu ymhellach at leihau'r niwed yn gysylltiedig â chamddefnyddio sylweddau.
-

- Dyfarnwyd y Faner Werdd ddymunol i 7 o'n parciau gan elusen amgylcheddol flaenllaw Cymru, sef Cadwch Gymru'n Daclus, sy'n rhagori ar ein targed o 6. Mae statws y Faner Werdd yn nod rhagoriaeth sy'n cydnabod parciau a mannau gwyrdd gorau'r wlad. Hefyd, dyfarnwyd 3 Gwobr Gymunedol y Faner Werdd i ni, gan gydnabod y mannau gwyrdd o ansawdd dda yn y Fro a reolir gan grwpiau gwirfoddol sy'n parhau i roi lle diogel i drigolion o bob oedran ddod ynghyd er mwyn cymdeithasu a dysgu.
-

- Rydym wedi llwyddo i gyflwyno ein rhaglen addysg a hyfforddiant trafndiaeth ysgolion flynyddol ar gyfer 2016/17 er mwyn annog ffyrdd o fyw yn cynnwys teithio actif a gwella ymwybyddiaeth o ddiogelwch ar y ffyrdd i bobl ifanc. Roedd uchafbwyntiau'r rhaglen yn cynnwys: cyflwyno hyfforddiant ar Gonffederasiwn Trafnidiaeth i Deithwyr i 643 o ddisgyblion; derbyniodd 1124 o ddisgyblion lefel 1 hyfforddiant beicio safonol cenedlaethol; derbyniodd 1110 o ddisgyblion lefel 2 hyfforddiant beicio safonol a chyflwynwyd ymgynghoriad ar deithio llesol i 1,000 o ddisgyblion.
-

- Mae 100% o'r ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd y mae'r Cyngor yn darparu ar eu cyfer yn cydymffurfio â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru) 2013 ac rydym
-

yn parhau i weithio gydag ysgolion i gynnal hyn.

- Rydym yn parhau i weithio gyda chleifion a gofalwyr i gefnogi cyflawniad plant drwy raglen weithgareddau wedi'i thargedu yn canolbwyntio ar helpu teuluoedd i gyflawni eu llawn botensial. Mae boddhad gyda'r fenter Teuluoedd yn Gyntaf yn gadarnhaol iawn ar 97%. Dyma'r flwyddyn gyntaf o gofnodi'r data hwn ac mae'r perfformiad yn nodi bod 1,569 allan o 1,622 o ddefnyddwyr gwasanaeth wedi defnyddio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn.

-
- Rydym yn parhau i hyrwyddo a chefnogi ein canolfannau cenedlaethol i gynnig amrywiaeth eang o weithgareddau hamdden a chymdeithasol gan helpu i sicrhau bod mwy o drigolion y Fro yn cymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chymdeithasol. Mae hyn yn ei dro yn cyfrannu at wella eu hiechyd a llesiant. Yn ystod 2016/17, gwnaethom welliannau pellach i'n 22 o ganolfannau Cymunedol gan eu galluogi i ddiwallu mwy o anghenion defnyddwyr presennol a rhai potensial.

- Rydym wedi bod wrthi'n gweithio gyda chymunedau i wella mannau a chyfleusterau cymunedol lleol er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon. Ymgymmerwyd â nifer o brosiectau llwyddiannus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan gynnwys ardaloedd chwarae newydd yn y Barri a Phenarth, lle'r oedd y bobl leol yn rhan o'r cynllunio. Rydym hefyd wedi ystyried gweithio â chymunedau i ddatblygu cynlluniau cyfleusterau cymunedol ac yn dilyn hynny wedi gwneud ceisiadau am grantiau ar gyfer prosiectau e.e. Sain Tathan.

-
- Trwy'r cymorth effeithiol a ddarparwyd i deuluoedd, cyrhaeddodd y rhan fwyaf o'r plant (78%) sy'n cael mynediad at wasanaethau Dechrau'n Deg y cerrig milltir datblygu yn 3 oed, sy'n gynydd o 2% ar ein perfformiad y llynedd. Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn academaidd 2015/16, cyflawnodd 88.31% y canlyniad disgwylidig (Deilliant 5+) o leiaf ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.

-
- Er gwaethaf llai o gyllid ac effaith deddfwriaeth newydd, gwnaethom ddarparu rhaglen chwarae lwyddiannus, ar y cyd â sefydliadau partner megis Teuluoedd yn Gyntaf. Mynychodd 586 o blant sesiynau cynllun chwarae a Cheidwad Chwarae, a mynychodd 1,475 o deuluoedd y 9 digwyddiad ychwanegol a oedd yn cynnwys gweithgareddau chwarae. Cafodd presenoldeb yn y gweithgareddau hyn effaith gadarnhaol a galluogodd y digwyddiadau i fwy o blant gael mynediad at weithgareddau chwarae traddodiadol megis celf a chreffft a chwarae yn yr awyr agored. Hefyd mae wedi annog teuluoedd i ymgymryd â rhagor o weithgareddau gyda'i gilydd ac mae wedi darparu cyfle i blant anabl chwarae gyda'u cyfoedion yn ystod cyfnodau o wyliau'r ysgol yn ogystal â rhoi seibiant i'r teuluoedd.

-
- Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi parhau i weithio gyda Bwrdd Iechyd a Llesiant Caerdydd a'r Fro ar amrywiaeth o gamau gweithredu i atal ac i fynd i'r afael â gordewdra ac i annog ffyrdd iachach o fyw. Mae uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys: hyrwyddo'r ffaith bod gwobrau dewisiadau iachach ar gael i fusnesau bwyd yng Nghaerdydd a'r Fro; datblygu mapiau teithio llesol ar gyfer cerdded a seiclo er mwyn annog ffyrdd o fyw sy'n cynnwys teithio llesol; cyflenwi Cynllun Gweithgarwch Corfforol y Fro; gweithio gyda phob ysgol i sicrhau cydymffurfiaeth â Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion (Cymru);
-

annog datblygu amgylcheddau iach drwy weithredu'r Cynllun Datblygu Lleol; ehangu'r Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau'r Ysgol yn dilyn ei llwyddiant y llynedd; gweithio gyda chymunedau lleol i wneud y defnydd gorau o asedau presennol gan gynnwys gwella mynediad at fannau gwyrdd, cyfleusterau chwarae lleol a gweithgarwch corfforol; cyflwyno mentrau'n canolbwyntio ar leihau nifer y bobl sy'n defnyddio tybaco drwy atal (dull wedi'i dargedu o godi ymwybyddiaeth er mwyn annog pobl ifanc i beidio â chychwyn ysmegu), rhoi'r gorau iddi (annog ysmygwyr presennol i roi'r gorau i ysmegu a'u chefnogi nhw drwy'r broses) a gweithredu dros yr amgylchedd (gweithio i sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr â'r Fro yn mwynhau amgylchedd di-fwg); cyflwyno rhaglen o bryniannau prawf gwerthu (gan gynnwys pryniannau dan oed) i sicrhau cydymffurfiaeth; archwiliadau wedi'u targedu o safleoedd sy'n ymgymryd â gweithgareddau masnachol sy'n cael effaith sylweddol ar bobl agored i niwed e.e. cartrefi gofal a sefydliadau bwyd mewn ysgolion.

Mae data o Arolwg mwyaf diweddar lechyd Cymru (2014/15) yn dangos bod 18.4% o oedolion yn y Fro yn ysmegu o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 20%. Mae bwyta pum ffrwyth a llysieuyn y dydd yn fesurydd procsi ar gyfer bwyta'n iach. Yn ôl yr un arolwg, mae 32% o oedolion yn y Fro yn bwyta 5 neu ffrwyth neu llysieuyn neu fwy bob dydd o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 32.2% ac mae 66% o oedolion y Fro â phwysau iach o'i gymharu â'r cyfartaledd yng Nghymru, sef 39.9%.

- Cafodd porth gwybodaeth DEWIS Cymru ei lansio'n llwyddiannus yn ystod y flwyddyn gan wella hygyrchedd ac ansawdd y wybodaeth sydd ar gael am wasanaethau cymdeithasol i oedolion a chymorth i deuluoedd a gwasanaethau gofal plant i drigolion a chwsmeriaid. Mae ymgyrch barhaus i hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r adnodd i drigolion a gweithwyr proffesiynol.

3.12 Sut aethom ati i fesur cynnydd?

Dangosyddion Poblogaeth							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran yr oedolion 16+ oed sydd â llai na dau ymddygiad bywyd iach (ddim yn ysmegu, mynegai màs y corff, bwyta pum ffrwyth neu llysieuyn y dydd, ddim yn yfed mwy na'r canllawiau, bodloni'r canllawiau o ran munudau				Dangosydd Llesiant Cenedlaethol LIC: Nid yw Data Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi'i ddadelfennu ar gyfer lefel ALI.			

Dangosyddion Poblogaeth							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
wythnosol o weithgarwch corfforol.)							

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Gostyngiad mewn achosion o gamddefnyddio sylweddau problematig ymysg cleientiaid sy'n cael triniaeth camddefnyddio sylweddau.		78.1%	67% (targed Llywodr aeth Cymru)	70.6%		😊	↓ ¹²
Gwella ansawdd bywyd cleientiaid sy'n cael triniaeth camddefnyddio sylweddau.		72.5%	56% (targed Llywodr aeth Cymru)	60.9%		😊	↓ ¹³
Nifer y cleientiaid Cymunedau yn Gyntaf sy'n cwblhau rhaglen bwyta'n iach sy'n nodi				146			

¹² Mae tueddiadau o ran cyffuriau'n tueddu i amrywio a gall rhai gwelliannau mewn perfformiad gael effaith negyddol ar y mesur hwn, er enghraifft bydd llai o amser aros yn arwain at gyfran fwy o ddefnyddwyr gwasanaeth newydd (ac felly rhai llai sefydlog) fel cyfran o bawb sy'n derbyn triniaeth. Rhwng 2015/16 a 2016/17 gwelwyd cynnydd ymylol yn nifer y bobl yn camddefnyddio meddyginiaethau rhagnodedig a hefyd mwy o ddefnydd o sylweddau seicoweithredol newydd (SSN). Mae'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) o ran Camddefnyddio Sylweddau yn defnyddio'r wybodaeth hon i roi'r sgiliau a'r wybodaeth briodol i staff er mwyn iddynt allu cyflwyno negeseuon pragmataidd ynghylch lleihau niwed i ddefnyddwyr gwasanaethau er mwyn lleihau niwed a lleihau risg ymhellach.

¹³ Mae'r BCA wedi comisiynu cwmni o'r enw SPICE time credits, i fynd ati i annog defnyddwyr gwasanaethau i gymryd rhan mewn cyfleoedd gwirfoddoli a all hwyluso eu hadferiad a helpu i gefnogi cymunedau lleol. Am bob awr yn gwirfoddoli, mae defnyddwyr gwasanaethau'n ennill 1 credyd amser y gellir ei ddefnyddio mewn amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol lle y mae modd cymryd rhan. Rhagwelir y bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar nifer y cleientiaid sy'n nodi gwell ansawdd bywyd.

Pa wahaniaeth yr ydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
eu bod yn bwyta ffrwythau neu lysiau ffres bob dydd.							
Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyrraedd cerrig milltir datblygiadol yn dair oed.		76%		78%			↑
Canran y plant Dechrau'n Deg sy'n cyflawni o leiaf y canlyniadau disgwylidig (canlyniad 5+) ar gyfer y Cyfnod Sylfaen.	86.97%	88.16%		88.31%			↑






Pa mor dda yr ydym wedi perfformio?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Canran y bodlonrwydd cyffredinol â gwasanaethau hamdden	83%	83%	85%	89.8%		😊	↑
Nifer y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y cynllun 5x60.		43,867	45,100	43,687		😞	↓ ¹⁴
Canran yr unigolion sy'n cwblhau triniaeth camddefnyddio sylweddau.		76.6%		83.8%			↑
Canran y defnyddwyr sy'n dangos boddhad â'r gwasanaeth Teuluoedd yn Gyntaf a ddefnyddir.				97%			
Canran y plant Dechrau'n Deg cymwys sy'n manteisio ar y cynnig gofal plant.				89.4%			

Faint rydym wedi'i wneud?							
Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Nifer y plant yn mynychu cynlluniau chwarae.	814	928	700	586		😞	↓ ¹⁵

¹⁴ Rhoddodd Chwaraeon Cymru lai o gyllid i'r cynllun 5x60, a effeithiodd ar ddarpariaeth rhaglenni. Er gwaethaf y gostyngiadau yn y gyllideb, bu'n flwyddyn lwyddiannus i'r cynllun gan fod cyfranogiadau o fewn 10% o'r targed a bennwyd cyn cael gwybod am y gostyngiad.

¹⁵ O ganlyniad i lai o gyllid, cyflwynwyd llai o gynlluniau chwarae yn ystod 2016-17. Hefyd, darparodd staff Chwarae'r Fro weithgareddau mewn 9 digwyddiad gwahanol ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac roedd mwy na 1,475 o deuluoedd wedi cymryd rhan. Ni chofnodwyd nifer y bobl ifanc na nifer yr unigolion a gymerodd ran yn y digwyddiadau hyn ac ni chânt eu cynnwys yn y perfformiad a nodir gan yr oedd croeso i bawb, felly nid oedd angen i blant gofrestru. Yn seiliedig ar nifer y teuluoedd a gymerodd ran, mae'n debygol y rhagorwyd ar y targed blyneddol.

Faint rydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden a chwaraeon yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle y bydd yr ymwelydd yn gwneud gweithgarwch corfforol fesul 1,000 o'r boblogaeth.	6,256	6,028	6,400	6,056	8,357		↓ 16
Nifer yr ymholiadau GGiD am wybodaeth am ofal plant.	884 yn uniongyrchol 2,540 ar-lein	656 yn uniongyrchol 1,797 ar-lein (data 7 mis)	600 yn uniongyrchol 2,700 ar-lein	503 yn uniongyrchol 3,677 ar-lein		 	↓ 17 ↑
Nifer yr ymholiadau i GGiD am wybodaeth am iechyd, llesiant a hamdden.	234	273	320	527			↑
Nifer y cyfranogwyr sydd wedi cofrestru ar raglen bwyta'n iach Cymunedau	309	253	140 ¹⁸	219			↓ 19

¹⁶ Nid yw'r perfformiad uchod yn rhoi adlewyrchiad manwl gywir o gyfraddau cyfranogiad yn y Fro gan nad yw'n cynnwys ffigurau cyfranogiad ar gyfer rhai cyfleusterau hamdden arwyddocaol sy'n cael eu defnyddio'n eang iawn megis y rhai hynny ar safleoedd ysgol a chyfleusterau ymarfer ar draws y Fro. Er y defnyddir y cyfleusterau hyn yn helaeth gyda'r nos yn ystod yr wythnos ac ar benwythnosau, ni chaiff cyfraddau defnydd eu cofnodi.

¹⁷ Mae nifer yr ymholiadau uniongyrchol ar gyfer gofal plant wedi gostwng am nifer o resymau: rydym yn cael llai o atgyfeiriadau o'r Ganolfan Byd Gwaith; nid ydym yn mynd ati'n rheolaidd i gynhyrchu ymholiad ar gyfer rhiant unigol yn mynychu sesiwn, dim ond y rhai hynny sy'n gofyn am wybodaeth; mae cystadleuaeth gynyddol gan wefannau eraill sy'n darparu gwybodaeth am ofal ac mae mae cynnydd o 19% wedi bod mewn ymholiadau ar-lein.

¹⁸ Adolygwyd y targed gwreiddiol o 302 i 140 er mwyn adlewyrchu'r niferoedd llai o fewn y grŵp cleientiaid sy'n bodloni'r meini prawf.

¹⁹ Mae cyfeiriad teithio'n arafach gan fod llai o gleientiaid yn bodloni'r meini prawf (gweler hefyd y sylw uchod yn 17).

Faint rydym wedi'i wneud?

Dangosydd	Perfformiad 2014/15	Perfformiad 2015/16	Targed 2016/17	Perfformiad 2016/17	Cyfartaledd Cymru 2016/17	Statws Perfformiad	Cyfeiriad Teithio
yn Gyntaf a Dechrau'n Deg.							
Nifer y Parciau Baner Werdd		7	7	7		☺	↔

Meysydd i'w gwella		Erbyn
1	Cwblhau a gweithredu Strategaeth Hamdden i Fro Morgannwg.	31/3/2018
2	Gweithio mewn partneriaeth i gynnig amrywiaeth o weithgareddau trwy ein cyfleusterau hamdden, cymunedol a pharciau i gynyddu lefelau cyfranogiad a gweithgareddau corfforol.	31/3/2018
3	Gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru i nodi sut y gall y Cyngor gyfrannu at ddatblygu a darparu Cynllun Iechyd Cyhoeddus Lleol Caerdydd a'r Fro gan gynnwys blaenoriaethau perthnasol megis rhoi'r gorau i dybaco, gordewdra, atal cwmpiadau, gofal iechyd / iechyd cyhoeddus (gan gynnwys cymorth dementia).	31/3/2018
4	Gweithio gyda phartneriaid a'r Bwrdd Cynllunio Ardal i gyflawni'r camau gweithredu sydd â blaenoriaeth ar gyfer 2017/18 fel y nodir yng nghynllun gweithredu Camddefnyddio Sylweddau Caerdydd a'r Fro.	31/3/2018

Cynllunio Integredig

Amcan Gwella 5	Cyflawni rhaglen trawsnewidiol y Cyngor, 'Ailsiapio Gwasanaethau', i ddiwallu anghenion dinasyddion Bro Morgannwg yn y dyfodol ynghanol heriau ariannol sylweddol.
-----------------------	---

3.13 Datganiad sefyllfa

Beth a ystyrir yn llwyddiant?	Statws Gwerthuso: WEDI'I GYFLAWNI
<ul style="list-style-type: none"> • Mae Strategaeth Aildrefnu'r Cyngor wedi'i mewnosod o fewn ei gynlluniau corfforaethol, comisiynu a chyflenwi gwasanaethau. • Mwy o gapasiti a gallu mewnol i gynllunio, rheoli a chael gafael ar wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys mewn partneriaeth â darparwyr eraill. • Mwy o weithio mewn partneriaeth a gweithredu dulliau arloesol i gomisiynu a chyflenwi gwasanaethau'r Cyngor sy'n flaenoriaeth. • Arbedion effeithlonrwydd ac o ran cost a gyflawnir drwy arferion rheoli a gweithio gwell a thrwy ddulliau gwell o fesur perfformiad. Caiff arbedion o brosiectau cyfran 2 eu gwireddu o 2017/18 ymlaen. • Gwell canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus. • Mwy o gyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan o'r gwaith cynllunio a chyflenwi gwasanaethau. 	<p>Gwyddom hyn oherwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ategir Gwasanaethau Aildrefnu'r Cyngor gan drefniadau cadarn o ran llywodraethu a rheoli prosiectau, timoedd prosiectau sefydledig, siarter y staff a rhaglen datblygu rheolwyr, rhaglen gyfathrebu effeithiol a gwaith ymgysylltu. • Cyfrannodd y cynnydd da a wnaed gan wasanaethau ar draws y Cyngor mewn prosiectau cyfran 2 at 86% o'r targed arbedion (sef £3.052 miliwn) sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau ar gyfer 2016/17. • Yn ystod y flwyddyn, dangosodd y rhaglen y ffordd y gellid mabwysiadu amrywiaeth o fodolau eraill ar gyfer darparu gwasanaethau, er mwyn bodloni amgylchiadau unigol cwsmeriaid a'r gwasanaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys yr achos busnes a gymeradwywyd i greu cwmni masnachu ar gyfer gwasanaethau arlwygo yn dilyn gwerthusiad manwl o amrywiaeth o fodolau eraill. Hefyd, arweiniodd natur y gwasanaethau unigol at nodi model trawsnewid mewnol ar gyfer Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth fel y llwybr mwyaf addas i ddarparu rhaglen drawsnewid. Yn ogystal, ceisiodd y Cyngor sefydlu perthynas waith gyda sefydliadau newydd sy'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn, er enghraifft, wrth nodi nad oedd y gwasanaeth Pryd ar Glud mewnol yn ariannol hyfyw bellach, cyfeiriwyd cwsmeriaid at amrywiaeth o ddewisiadau eraill, gan gynnwys menter gymdeithasol, The Food Shed. • Drwy amryw drefniadau i ddarparu

	<p>gwasanaethau fel y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir a gwasanaethau llyfrgelloedd cymunedol, rydym yn sicrhau bod gwasanaethau allweddol y Cyngor ar gyfer trigolion y Fro yn wydn ac y byddan nhw'n gynaliadwy yn y dyfodol mewn hinsawdd ariannol heriol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yn yr arolwg cyllideb ar gyfer 2016/17, roedd trigolion yn gefnogol iawn o ddull y Cyngor o aildrefnu ei wasanaethau er mwyn gwneud yr arbedion gofynnol wrth symud ymlaen. • Yn yr Arolwg Barn Gyhoeddus diwethaf (2017), nododd 92% o drigolion y Fro eu bod yn fodlon â'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu. • Mae ymgynghoriadau â defnyddwyr gwasanaethau'n elfen bwysig o gyflawni rhaglen drawsnewid yn llwyddiannus. Gellir gweld amrywiaeth o enghreifftiau o'r flwyddyn ddiwethaf. Mae'r rhain yn cynnwys yr ymgynghoriad parhaus â phenaethiaid drwy fforwm yn ymwneud â newidiadau mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol. Ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd hefyd yn rhan o'r broses ar gyfer datblygu trefniadau amgen ar gyfer y gwasanaeth sy'n darparu gofal seibiant i oedolion ag anableddau dysgu.
--	--

3.14 Beth wnaethon ni a beth rydym wedi'i gyflawni?

- Yn gynharach eleni, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) ddarganfyddiadau eu Hasesiad Corfforaethol o'r Cyngor a asesodd ein capasiti i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer trigolion y Fro. Daeth yr asesiad cadarnhaol i'r casgliad, 'Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ynghylch yr hyn y mae eisiau ei gyflawni ac mae'n gwneud newidiadau cadarnhaol a ddylai sicrhau ei fod mewn sefyllfa dda i barhau â'r gwelliannau hyn'. Bu i SAC nodi bod gweledigaeth y Cyngor yn adlewyrchu anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol, a bod uwch-wleidyddion a rheolwyr yn gweithio'n effeithiol gyda staff ar bob lefel i wella gwasanaethau a chynllunio ar gyfer y dyfodol.
-
- Drwy gydol y flwyddyn mae gwaith wedi mynd yn ei flaen yn dda er mwyn cyflawni'r targed arbedion cyffredinol o £3.052 miliwn sy'n gysylltiedig â'r rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau ar gyfer 2016/17. Cafodd 86% o'r targed arbedion ei fwrw eleni o ganlyniad i'r cynnydd cryf a wnaed gan wasanaethau ar draws y Cyngor ym mhrosiectau cyfran 2.
 - Mae gwaith i symud ymlaen â'r prosiectau gofynnol ar gyfer cyfran 2 a datblygu cynigion y dyfodol wedi parhau i wneud cynnydd da.

-
- Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y swm a wariwyd yn erbyn cyllideb refeniw y Cyngor a gymeradwywyd yn 100% ac roedd gwariant yn erbyn y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd yn 84%. 94% oedd y perfformiad cyffredinol yn erbyn targedau arbedion.
-
- Yn ystod 2016/17, gwnaed y cynnydd canlynol ar brosiectau cysylltiedig â chyfrannau 1 a 2 y rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau:
 - Cymeradwyodd y Cabinet y cynigion a gynhwysir yn y Cynllun Busnes i greu Cwmni Masnachu Awdurdod Lleol ar gyfer ei wasanaethau arlwyo. Bydd y Cwmni yn barod i wneud busnes ar 1 Ebrill 2019.
 - Yn dilyn yr adolygiad o wasanaethau llyfrgell, mae'r gwasanaeth wedi gorffen ailstrwythuro ac wedi cwtdogi oriau agor. Mae wedi gweithredu nifer o bolisiâu cynhyrchu incwm o ran costau llogi ystafelloedd a chostau argraffu ac nid yw'r rhain wedi derbyn unrhyw ymateb negyddol gan ddefnyddwyr. Ni chafwyd unrhyw adborth anffafriol gan y cyhoedd i gwtogi oriau agor ac mae staff wedi addasu eu rotas a'u hegwyliâu yn unol â hynny yn dilyn ymgynghori â nhw ac undebau llafur. Mae bob un o'r pum llyfrgell bellach wedi'u trosglwyddo i Grwpiau Cymunedol yn Sain Tathan, Gwenfô, Sili a Dinas Powys a'r Rhws. Mae'r Ganolfan Ddysgu Agored (sydd wedi'i hailenwi bellach yn Ganolfan Ddysgu'r Fro) ar agor ac yn cael ei defnyddio gan lawer o bobl. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar nifer y dysgwyr a defnydd o'r llyfrgell.
 - Cynlluniau a gymeradwywyd gan y Cabinet i greu Uned Drafnidiaeth gwbl Integredig yn rhan o'r achos busnes i gael model newydd ar gyfer gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth. Byddai hyn yn cynnwys datganoli gwasanaethau trafndiaeth allweddol megis gwasanaethau Fflyd, Trafnidiaeth Ysgol a Thrafnidiaeth Gyhoeddus o dan uned weithredu unigol. Mae cynlluniau'n cynnwys y gallu i ddarparu gwasanaethau trafndiaeth penodol ar sail ranbarthol mewn cysylltiad â'r Awdurdod Trafnidiaeth Rhanbarthol Cysgodol, sydd wedi'i sefydlu yn unol â'r gwaith ar Fargen Ddinesig Prifddinas-ranbarth Caerdydd.
 - Cafodd cynigion ar gyfer trawsnewidiad mewnol y Gwasanaethau Gweladwy a Thrafnidiaeth yn seiliedig ar fodel cymdogaeth o weithio, eu datblygu'n dda yn ystod y flwyddyn.
 - Adnewyddwyd y Cytundeb rhwng y Cyngor a'r sector gwirfoddol, gan ganolbwyntio ar Gynllun Corfforaethol newydd y Cyngor a'r Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau. Cyflwynwyd cynllun gwaith newydd i strwythuro gwaith Pwyllgor Cyswilt ar y Cyd y Sector Gwirfoddol ei gyflwyno i sicrhau bod goruchwyliaeth a momentwm yn parhau wrth hyrwyddo ymrwymadau'r Cytundeb.
 - Yn rhan o'r prosiect Effeithiolrwydd Gwariant, ym mis Mawrth 2017 cymeradwyodd y Cabinet gynlluniau i greu Cronfa Grant Cymunedau Cryfion newydd. Drwy dynnu ynghyd ffynonellau lluosog ac amrywiol o gyllid grant a chaniatáu mynediad at gyllid S106, bydd y trefniant hwn yn galluogi grwpiau cymunedol a Chynghorau Cymuned a thref i wneud cais am gyllid am gynlluniau cymunedol cynaliadwy sy'n gyson ag amcanion y Cyngor, gan gynnwys Aildrefnu Gwasanaethau. Bydd cynnwys partneriaid ar y panel gwerthuso ymgynghorol yn galluogi dull cydweithredol o fynd i'r afael ag argymhellion a gyflwynwyd i'r Cabinet.
 - Mae newidiadau i gyllid Anghenion Addysgol Arbennig i ysgolion prif ffrwd, y meini prawf mynediad a gadael ar gyfer Ysgol y Deri a chynigion i newid y model darparu gwasanaethau ar gyfer Canolfannau Adnoddau Arbenigol oll wedi'u gweithredu yn dilyn ymgynghoriad â Grŵp Cynghori'r Penaethiaid o ran Aildrefnu Gwasanaethau ADY. Cytunwyd hefyd i dreialu modelau gwasanaeth amgen o ddarpariaeth yn seiliedig ar adnoddau, ac mae'r rhain wedi bod yn weithredol ers mis Medi 2016. Mae pob canolfan Adnoddau Arbenigol bellach yn darparu gwasanaethau allgymorth ac mae prosesau atgyfeirio wedi'u datblygu a'u cytuno. Mae dogfen hunanarfarnu ar gyfer
-

ysgolion prif ffrwd wedi'i datblygu ac felly hefyd dogfen "Fframwaith ar gyfer Rhagoriaeth" sy'n amlinellu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Yn dilyn adolygiad o Wasanaeth Pryd ar Glud y Cyngor, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig i roi'r gorau i weithredu gwasanaeth mewnol ym mis Ionawr 2017, a defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cyfeirio at ddewisiadau eraill addas, gan gynnwys Menter Gymdeithasol (The Food Shed) yn unol ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i gyflawni'r newidiadau hyn.
 - Cynhaliwyd adolygiad o ofal seibiant y Cyngor i Oedolion ag Anableddau Dysgu, a chymeradwyodd y Cyngor gynigion i newid y ffordd y caiff y gwasanaeth hwn ei ddarparu drwy gymysgedd o leoliadau oedolion (yn debyg i drefniadau maethu) a chomisiynu lleoliadau trydydd parti. Aeth y gwaith yn ei flaen yn dda yn ystod y flwyddyn i sicrhau proses bontio a reolir ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth pan fo cyfleuster Rhoose Road yn cau.
-

- Cafodd Cynllun Gweithluoedd Corfforaethol y Cyngor (2016-2020) ei gymeradwyo gan y Cabinet fis Mai 2016. Mae'r Cynllun yn ceisio rhagweld goblygiadau i agenda'r Cabinet ar newid ac yn rhestru camau gweithredu yn benodol er mwyn helpu i gyflawni amcanion a blaenoriaethau'r Cyngor o fewn Cynllun Corfforaethol 2016-2020.
-

- Cymeradwywyd Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2016/2020 gan y Cabinet ar 26 Medi 2016 ac mae'n adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor fel y rhestrir yn y Cynllun Corfforaethol 2016-20, egwyddorion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a sefyllfa ariannol y Cyngor.
-

- Mae'r Cynllun hefyd yn amlinellu'r heriau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r Cyngor, yn benodol diffyg o ran cyllid sy'n gofyn dod o hyd i £24.1 miliwn mewn arbedion rhwng 2017/18 a 2019/20.
-

- Mae Bwrdd Mewnwelediad y Cyngor a sefydlwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn parhau i gyfarfod er mwyn ystyried materion cynllunio integredig ac i adrodd i'r Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Cabinet. Mae gwaith y grŵp hwn wedi cyfrannu at ragor o arferion cynllunio integredig, rhagor o gyfleoedd ar gyfer datblygu staff, wedi parhau i hyrwyddo gweithio fel "un Cyngor" ac wedi lleihau yn sylweddol gyfanswm amser swyddogion a dreulir mewn cyfarfodydd. Cynigia fecanwaith defnyddiol i ddatblygu strategaethau a pholisïau'r Cyngor yn gysylltiedig â'r Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethu – er enghraifft, y Strategaeth Ddigidol, Strategaeth Cynhyrchu Incwm a Chyfleoedd Masnachol a'r Cynllun Teithio Cynaliadwy i Staff.
-

- Ar y cyfan, roedd Arolwg Barn Gyhoeddus y Cyngor a gynhelir ddwywaith y flwyddyn yn gadarnhaol, gan fod 92% o drigolion y Fro yn nodi eu bod yn fodlon ar wasanaethau a ddarparwyd gan y Cyngor. Roedd 97% yn fodlon ar Fro Morgannwg fel lle i fyw. Roedd 88% yn fodlon â chyfathrebu'r Cyngor yn gyffredinol.
-

- Drwy gydol y flwyddyn, mae boddhad cwsmeriaid mewn cysylltiad â chael gafael ar wasanaethau'r Cyngor drwy bob sianel wedi parhau'n uchel, yn uwch na 98% ar gyfer
-

pob chwarter ar gyfartaledd. Ar ddiwedd y flwyddyn adroddodd bron 99% (98.67%) o gwsmeriaid eu bod yn fodlon â mynediad at wasanaethau, a rhoddodd 81.5% (6512 o ymatebwyr) y sgôr boddhad uchaf posibl o'i gymharu â 0.4% (28 o ymatebwyr) a roddodd y sgôr isaf. Mae'r perfformiad hwn wedi golygu bod lefelau boddhad cwsmeriaid yn rhagori ar y targed o 95% a osodwyd ar gyfer y flwyddyn er bod y perfformiad ychydig o dan y 98.87% a adroddwyd yn yr un cyfnod yn 2015/16.

- Lansiodd ein Siarter Staff yn llwyddiannus ym mis Medi 2016 ac rydym yn gwneud cynnydd da o ran gweithio gyda chydweithwyr er mwyn cyflawni'r 15 ymrwymiad (cwbllhawyd 8 hyd yn hyn). Roedd y canfyddiadau o'r 'Arolwg Staff' yn gadarnhaol. Mae'r rhan fwyaf o gyflogeion yn teimlo bod eu rheolwyr yn ymddiried ynddynt, maent mewn cysylltiad rheolaidd gyda'u rheolwyr ac maent yn deall yr hyn y mae eu rheolwyr yn ei ddisgwyl ohonynt. 71% oedd y gyfradd ar gyfartaledd o staff a oedd yn cytuno'n gryf neu'n cytuno â'r 20 disgwyliad yn y Siarter Staff, ac roedd y gyfradd yn gymharol uchel ym mhob Cyfarwyddiaeth. Bydd lansio'r Siarter yn helpu i wella ymgysylltiad â gweithlu'r Cyngor, un o'r amcanion sydd wedi'u nodi yn y Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau.
-

- Lansiodd Fframwaith Cymhwysedd Rheolwyr (FfCRh) newydd ym mis Mawrth 2017 yn rhan o ail don o sesiynau briffio rheolwyr. Yn ystod y flwyddyn, rhoddwyd hyfforddiant i swyddogion (arweinwyr tîm ac uwch) ynghylch rheoli contractau, rheoli prosiectau, caffael, rheoli risg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sy'n ganolog i'r Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau. Mae gwaith ar y gweill i ddatblygu ymhellach raglen i gefnogi'r FfCRh ac mae sesiynau sydd wedi'u teilwra ar gyfer anghenion y gweithlu yn y dyfodol, wedi'u cynllunio ar gyfer mis Hydref 2017.
-

- Cafodd y cynllun newydd ar gyfer gwerthusiadau staff, '#itsaboutme' ei lansio ym mis Gorffennaf 2016. Nod y broses ddiwygiedig yw darparu ymagwedd fwy effeithiol ac ystyrlon tuag at werthusiadau staff fel rhan o'r drafodaeth barhaus rhwng rheolwyr a staff. Y gyfradd gwblhau ar gyfer gwerthusiadau staff ar draws y Cyngor yn 2016/17 oedd 97%, sydd yn unol â chyfradd gwblhau y llynedd.
-

- Rhoddwyd trefniadau ar waith gyda gwirfoddolwyr o'r Caffi Arweinyddiaeth i ddatblygu a hyrwyddo'r Caffi Arweinyddiaeth ymhellach ar draws y Cyngor drwy weithredu rhaglen barhaus o ddigwyddiadau sy'n canolbwyntio ar gynyddu presenoldeb gan gydweithwyr rheng flaen. Drwy'r Caffi Arweinyddiaeth, gall arweinwyr presennol a rhai'r dyfodol o bob maes yn y Cyngor fynd i ddigwyddiadau misol mewn amgylchedd cyfeillgar ac ymlaciedig er mwyn datblygu eu sgiliau arweinyddiaeth. Cafodd y Caffi, a fu'n rhedeg yn llwyddiannus ers dros flwyddyn, ei nodi fel arfer cadarnhaol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn Asesiad Corfforaethol diweddar y Cyngor (2016). Hefyd cafodd llwyddiant y Caffi Arweinyddiaeth ei gydnabod gan yr LGC, gan fod y tîm cydlynu wedi ennill Gwobr fawreddog Tîm y Flwyddyn LGC yn 2017.
-

- Mae cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn wrth ddatblygu ffrwd gwaith corfforaethol prosiectau gan sicrhau ymateb corfforaethol i heriau allweddol gan gynnwys rheoli galw, effeithiolrwydd gwariant, cynhyrchu incwm a gweithio gyda cyngorau Cymuned a Thref.
 - Mae uchafbwyntiau allweddol yn cynnwys: gweithredu Cytundeb Sector Gwirfoddol sydd wedi'i adnewyddu ac mae trafodaethau'n parhau ynghylch amrywiaeth o

gyfleoedd posibl. Hefyd, mae rhaglenni trosglwyddo asedau cymunedol yn parhau i gael eu gweinyddu.

- Yn dilyn cymeradwyaeth gan y Cabinet, mae 'Cronfa Cymunedau Cryfion' ar y trywydd iawn i gael ei lanio yn ystod haf 2017. Yn ychwanegol i gyllid craidd y Cyngor, cafodd ymrwymiad o £60 mil o gyllid dros 3 blynedd ei sicrhau o'r Waterloo Foundaetion a gaiff ei ychwanegu at gyllid y Cyngor a defnydd cyllid Cyfleusterau Cymunedol a Man Agored a106 fel sy'n briodol. Ochr yn ochr â hyrwyddo'r cynllun, caiff gwefan ei datblygu i gefnogi ymgeiswyr posibl. Mae gwella ardaloedd cyhoeddus a chyfleusterau cymunedol ar gyfer dinasyddion y Fro yn flaenoriaeth i'r Cyngor.
- Mae polisi cynhyrchu incwm a chyfleoedd masnachol drafft wedi'i ddatblygu. Yn ogystal â hyn, mae Tîm Rhaglen Cynhyrchu Incwm a Chyfleoedd Masnachol wedi'i sefydlu i ddatblygu ac adolygu cyfleoedd i gyfrannu tuag at darged arbedion y Cyngor. Mae nifer o achosion busnes yn cael eu datblygu ar hyn o bryd i'w hadolygu gan Fwrdd y Rhaglen Cynhyrchu Incwm a Chyfleoedd Masnachu. I gychwyn, mae'r rhain yn cynnwys proses ffilmio a chostau, storio data a chynnal system gwmwl ac incwm gan leoliadau priodasau'r Cyngor.
- Cadarnhaodd y Cabinet y Strategaeth Ddigidol sy'n canolbwyntio ar themâu canlynol: cydweithio, y gweithlu, y lleoliad a'r cwsmer. Noda'r strategaeth sut y bydd y Cyngor yn cyflwyno'r prosiectau gofynnol dros y blynnyddoedd sydd i ddod. Gwneir y gwaith hwn ar y cyd ag amrywiol fentrau corfforaethol eraill, gan gynnwys y gwaith i adnewyddu'r llwyfan technoleg sy'n cefnogi darparu canolfan gyswllt y Cyngor, sef Cyswllt Un Fro.
- Mae gwaith wedi dechrau ar brosiect gwariant trydydd parti sy'n ceisio sicrhau arbedion sylweddol o 2018/19 ymlaen drwy fabwysiadu dull ar draws y Cyngor tuag at feysydd gwariant allweddol.
- Mae adolygiad o'r ffordd y rheolir sefydliad staff y Cyngor hefyd wedi cychwyn, ac mae targed arbedion wedi'i bennu ar gyfer 2018/19.

3.15 Sut aethom ati i fesur cynnydd?

Camau allweddol / cerrig milltir project	Dyddiad cwblhau targed 2016/17	Cynnydd
Bwrdd y Rhaglen i ystyried cynigion cyfran 1	31/3/2017	Bodlonwyd yn ôl yr angen
Y Cabinet a'r Gwasanaeth Caffael i ystyried cynigion ac achosion busnes cyfran 1 (yn ôl yr angen)	31/3/2017	Bodlonwyd yn ôl yr angen
Gweithredu prosiectau a gymeradwywyd (lle y bo'n briodol)	31/3/2017	Bodlonwyd yn ôl yr angen
Bwrdd y Rhaglen i ystyried cynigion cyfran 2	31/3/2017	Bodlonwyd yn ôl yr angen
Y Cabinet a'r Gwasanaeth Caffael i ystyried cynigion ac achosion busnes cyfran 2 (yn ôl yr angen)	31/3/2017	Bodlonwyd yn ôl yr angen
Gweithredu prosiectau a gymeradwywyd (lle y bo'n briodol)	31/3/2018	Ar y trywydd iawn

Meysydd i'w gwella		Erbyn
1	Parhau i ddatblygu cynigion drwy'r Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau, ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet ar gyfer achosion busnes yn ôl yr angen a gweithredu prosiectau a gymeradwywyd lle y bo'n briodol.	31/3/2018
2	Dechrau ystyried cynigion Cyfran 3 y rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau a cheisio cymeradwyaeth y Cabinet ar gyfer achosion busnes yn ôl yr angen.	31/3/2018
3	Datblygu rhaglen hyfforddiant i gefnogi rheolwyr o ran darparu'r Rhaglen Aildrefnu Gwasanaethau.	31/3/2018


4. Perfformiad Diwedd Blwyddyn Bro Morgannwg 2016/17: Dangosyddion Cenedlaethol

4.1 Crynodeb o berfformiad yn erbyn Dangosyddion Cenedlaethol ar 11/9/2017

Bob blwyddyn, mae'r Uned Ddata Llywodraeth Leol yn cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad awdurdodau lleol mewn amrywiaeth o wasanaethau, gan dynnu sylw at feysydd lle y mae newidiadau amlwg wedi bod yn lefel gyffredinol y perfformiad. Mae hyn yn ei gwneud hi'n bosibl cymharu perfformiad 22 o awdurdodau lleol Cymru ar draws y gwasanaethau hynny. Mae'r adran hon yn crynhoi sut y gwnaethom berfformio yn 2016/17 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2015/16), a chymharu hynny ag awdurdodau lleol eraill.

4.1.1 Perfformiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

Yn ystod 2016/17, casglwyd 31 o ddangosyddion perfformiad a'u cyhoeddi'n genedlaethol. O'r 31 dangosydd hynny, mae gan 28 ddata y gellir ei gymharu yn erbyn perfformiad 2015/16, o'r rhain:




- Cyflawnodd cyfanswm o 3 dangosydd y perfformiad gorau posibl yn 2016/17, sef un yn llai na'r flwyddyn flaenorol. O'r rhain, parhaodd y tri i gadw eu perfformiad gorau posibl (naill ai 100% neu 0%) o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol²⁰. Cyflawnodd EDU/002i (canran y disgyblion sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy) berfformiad gorau posibl (0.0%) y llynedd, ond ar gyfer 2016/17, y ffigwr oedd 0.13%. O ganlyniad, cawsom ein symud o'r chwarter uchaf i'r trydydd chwarter (chwarter canol is) a'n rhoi yn y 12fed safle yng Nghymru ar y cyfan.
- Dangosodd 46.4% (13) o ddangosyddion welliant (yn seiliedig ar werth eu Dangosydd Perfformiad) yn ystod 2016/17 o'i gymharu â'r llynedd, ac mae tri ohonynt yn dangos gwelliant o ran perfformiad o'i gymharu â 2015/16 a oedd yn dirywio o'r blaen. Fodd bynnag, ar gyfer WMT/009b (canran y gwastraff dinesig a gesglir sy'n cael ei aildefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio/yn fiolegol mewn ffordd arall) er bod ein

²⁰ Roedd y dangosyddion hyn mewn perthynas ag EDU/002ii (% y disgyblion sy'n gadael addysg, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster cymeradwy) EDU/015a (% y datganiadau terfynol o AAA a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau) ac EDU/015b (% y datganiadau terfynol o AAA a gyflwynwyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau).

perfformiad yn ystod 2016/17 wedi gwella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae ein safle chwarterl wedi gostwng o'r chwarterl uchaf i'r canol uchaf.

- Dangosodd 10 o ddangosyddion (35.7%) ddirywiad o ran perfformiad, a arhosodd yn statig o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Parhaodd dau o'r 10 mesur i ddangos dirywiad yn 2016/17. Mae'r dangosyddion hyn yn cynnwys: EDU/006ii (canran y disgyblion a aseswyd gan yr ALI yn derbyn Asesiad Athrawon yn Gymraeg yn CA3) a welodd ychydig o ddirywiad sef 0.4% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ac LCL/001b (nifer yr ymweliadau â Llyfrgelloedd fesul 1,000 o'r boblogaeth) a welodd ostyngiad o 450 o ymweliadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Mae 5 dangosydd yn ystod 2016/17 heb ddangos unrhyw newid yn eu perfformiad o'i gymharu â 2015/16.²¹ Mae tri o'r rhain wedi parhau i gadw'r perfformiad gorau posibl. Mae'r rhain yn perthyn i EDU/002ii (y ganran o ddisgyblion yng Ngofal yr Awdurdod Lleol sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy), EDU/015a (canran y datganiadau AAA terfynol a ddosbarthwyd o fewn 26 wythnos gan gynnwys eithriadau) ac EDU/015b (canran y datganiadau AAA terfynol a ddosbarthwyd o fewn 26 wythnos ac eithrio eithriadau).
- Mae 6 dangosydd a oedd wedi dangos gwelliant yn flaenorol yn 2015/16 (yn seiliedig ar werth eu Dangosydd Perfformiad) sydd bellach yn dangos dirywiad yn eu perfformiad ar gyfer 2016/17. Mae'r rhain yn perthyn i:
 - Mae perfformiad EDU/011 (sgôr pwynt cyfartalog ar gyfer digybllion 15 oed a gynhelir gan yr awdurdod lleol) wedi dirywio o 33.9 pwynt gan arwain at ostyngiad o'r 3ydd safle i'r 7fed safle yng Nghymru.
 - Mae perfformiad PSR/004 (canran anheddau'r sector preifat a fu'n wag ers mwy na 6 mis a gafodd eu meddiannu eto drwy gamau gweithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol) wedi dirywio o 26.44% (40.23% yn 2015/16 i 13.79% yn 2016/17).
 - Mae perfformiad PLA/006b (nifer yr unedau fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fel canran o'r holl unedau tai) wedi haneru bron iawn, o 56% yn 2015/16 i 24% yn 2016/17. Mae hyn yn golygu ein bod wedi disgyn o'r 4ydd safle yng Nghymru i'r 21ain safle yn ystod 2016/17.
 - Mae perfformiad STS/006 (canran yr achosion tipio anghyfreithlon a adroddwyd a gafodd eu clirio o fewn 5 diwrnod gwaith) wedi dirywio o 97.9% yn 2015/16 i 93.36% yn 2016/17 gan arwain at syrthio o'r 5ed safle i'r 16eg safle yng Nghymru.
 - STS/005b (canran y priffyrdd a archwiliwyd a oedd â safon uchel/derbyniol o lendid); mae ein perfformiad wedi dirywio rhywfaint o 97% yn 2015/16 i 96.6% yn 2016/17.
 - Mae THS/007 (canran yr oedolion 60 oed neu hŷn sydd â thocyn bws rhatach), wedi gostwng o 92.1% yn 2015/16 i 84.4% yn 2016/17 a'n safle yng Nghymru yn syrthio o'r 3ydd i'r 12fed safle.

²¹ Mae dangosyddion lle y mae perfformiad wedi aros yr un fath yn cynnwys: EDU/002ii, EDU/015a, EDU/015b, EDU/016a a THS/012a.



22


4.1.2 Dadansoddi Dangosyddion yn ôl chwarter

Yn ystod 2016/17, er bod cynnydd cadarnhaol yn parhau i gael ei wneud i wella perfformiad data cenedlaethol ein cyfres o ddangosyddion, mae'r data'n dangos bod dirywriad wedi bod mewn mesurau lle'r ydym yn draddodiadol wedi perfformio'n dda. Y mwyaf nodedig yw dirywriad yn ymwneud ag EDU/002i (canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal) sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu yn y gwaith heb gymhwyster allanol cymeradwy). Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, roeddem ni mewn safle chwarter uchaf ar gyfer y mesur hwn, ond yn ystod 2016/17, dirywiodd ein perfformiad i 0.13% gan arwain at safle yn y chwarter canol is, a'r 12fed safle yng Nghymru.

O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, mae rhywfaint o ddirywriad wedi bod yn ein perfformiad, gan fod 46.4% wedi dangos gwelliant mewn perfformiad o'i gymharu â 55.8% yn 2015/16. O ganlyniad, bu newid gan fod mwy o ddangosyddion nag o'r blaen yn nesáu at safleoedd chwarter canol is a chwarter isaf. Er enghraifft, mae nifer y dangosyddion sy'n dod o fewn y chwarter canol is o ran perfformiad wedi cynyddu o 2 yn 2015/16 i 5 yn 2016/17. Mae'r un peth yn wir ar gyfer perfformiad chwarter isaf sydd wedi cynyddu o 2 ddangosydd yn 2015/16 i 5 dangosydd yn 2016/17. Mae'r dirywriad bach mewn perfformiad yn debygol o adlewyrchu'r pwysau cyllidebol a wynebir gan y Cyngor a'r her y mae hyn yn ei gyflwyno o ran cynnal darpariaeth gwasanaethau.

O'r 5 dangosydd yn y chwarter isaf, o'r blaen roedd 3 yn y chwarter isaf am y ddwy flynedd ddiwethaf (2014/15 a 2015/16), gan ddangos na fu unrhyw welliannau sylweddol er mwyn galluogi'r dangosyddion hyn i symud allan o'r chwarter isaf o ran perfformiad. Mae'r dangosyddion hyn yn ymwneud â: THS/012a (canran y prif ffyrdd mewn cyflwr gwael), PPN/009 (canran y sefydliadau bwyd sy'n cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd) ac LCS/002b (ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn ôl 1,000 o'r boblogaeth). Mae perfformiad mewn 2 ddangosydd arall, PLA/006b (nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn) a STS/006 (achosion o dipio anghyfreithlon a adroddwyd yn cael eu clirio o fewn 5 diwrnod gwaith) wedi dirywio fel eu bod yn y chwarter isaf ar gyfer 2016/17 o'i gymharu â'r chwarter uchaf ar gyfer 2015/16.

²² Noder, ni fydd y canrannau ar gyfer y tueddiadau perfformiad o reidrwydd yn gyfanswm o 100%. O ran dangosyddion sydd wedi cyflawni perfformiad gorau posibl, gallai'r mesurau hyn fod wedi aros yr un fath neu wedi gwella yn ystod y cyfnod.



Chwartzel uchaf (1^{af}):

- Roedd 46.4% (13) o ddangosyddion yn y chwartzel uchaf o ran perfformiad ar gyfer 2016/17, o'i gymharu â 69% (18) o ddangosyddion yr adroddwyd eu bod yn y chwartzel uchaf o ran eu perfformiad yn 2015/16.

Chwartzel Canol Uwch (2^{il}):

- Roedd 17.9% (5) o ddangosyddion yn y chwartzel canol uwch (2il) yn ystod 2016/17 o'i gymharu â 15% (4) o ddangosyddion yn 2015/16.

Chwartzel Canol Is (3^{ydd}):

- Mae'r canran o ddangosyddion yn safle'r chwartzel canol is wedi cynyddu o 7.7% (2) yn 2015/16 i 17.9% (5) o ddangosyddion yn ystod 2016/17.

Chwartzel isaf (4^{ydd}):

- Mae'r canran o ddangosyddion yn y chwartzel isaf wedi cynyddu o 7.7% (2) yn 2015/16 i 17.9% (5) o ddangosyddion.

4.1.3 Perfformiad o'i gymharu â Chymru a Rhanbarth De-ddwyrain Cymru

Gwasanaeth	% y dangosyddion cymharol sydd wedi gwella				Cymhariaeth â Chyfartaledd Cymru a DDd Cymru ar gyfer 2016/17		
	Nifer y dangosyddion	Y Fro	Cymru	DDd Cymru	Nifer y dangosyddion	Y Fro yn well na Chymru	Y Fro yn well na DDd Cymru
Gofal Cymdeithasol	3**	Dd/B	Dd/B	Dd/B	3	Dd/B	Dd/B
Addysg	11	36.4% (4)	63.6% (7)	63.6% (7)	11	91% (10)	91% (10)
Trafnidiaeth a Phrifyrdd	5	60% (3)	80% (4)	100% (5)	5	40% (2)	20% (1)
Tai a Chynllunio	3	33.3% (1)	33.3% (1)	33.3% (1)	3	66.6% (2)	66.6% (2)
Ynni	1	0% (0)	0% (0)	0% (0)	1	100% (1)	100% (1)
Gwasanaethau Rheoliadol	1	100% (1)	100% (1)	0% (0)	1	0% (0)	0% (0)
Hamdden a Diwylliant	2	50% (1)	50% (1)	50% (1)	2	0% (0)	0% (0)
Rheoli Gwastraff a Glendid	4	50% (2)	100% (4)	75% (3)	4	50% (2)	75% (3)
Gweithlu	1	100% (1)	0% (0)	0% (0)	1	100% (1)	100% (1)
Cyffredinol	31* Data ar gyfer 28 o fesurau	46.4% (13)	64.3% (18)	60.7% (17)	31* Data ar gyfer 28 o fesurau	64.3% (18)	64.3% (18)

* Mae 31 dangosydd cenedlaethol, fodd bynnag ar 11 Medi 2017, roedd data cymaradwy ond ar gael ar gyfer 28 o ddangosyddion.

** Does dim data cymaradwy ar gael ar hyn o bryd ar gyfer y tri mesur Gofal Cymdeithasol. Caiff data Gofal Cymdeithasol ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017 a'i adlewyrchu yn y fframwaith perfformiad ym mis Tachwedd 2017.

4.2 Trosolwg Perfformiad Dangosyddion NSI/PAM ar gyfer 2016/17

Allwedd Cyfeiriad Teithio	
Wedi gwella	↑
Sefydlog	↔
Wedi dirywio	↓
Perfformiad gorau bosibl	PG

Nodyn: Mae'r data cymharol a amlinellir isod dan embargo gan Lywodraeth Cymru tan 13 Medi 2017, felly ni ellir rhannu na chyhoeddi'r data hwn yn allanol tan hynny.

	Ein canlyniad 2015/16	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17		22 nd	21 st	20 th	19 th	18 th	17 th	16 th	15 th	14 th	13 th	12 th	11 th	10 th	9 th	8 th	7 th	6 th	5 th	4 th	3 rd	2 nd	1 st		
		Ein canlyniad 2016/17	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf												Canlyniadau gorau											
				Rheng																							
Saethau yn cychwyn o'n safle 2015/16 i'n safle 2016/17																											
Dygu a Sgiliau																											
EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal ALL) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	0.0%	0.13%	↓																								
EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal ALL, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd	0.0%	0.0%	↔ BP																							↔	
EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	92.1%	92.7%	↑																							↔	
EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3	8.8%	8.4%	↓						↔																		
EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol	585.0	551.1	↓																							←	
EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, gan gynnwys eithriadau	100%	100%	↔ BP																							↔	
EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, heb gynnwys eithriadau	100%	100%	↔ BP																							↔	
EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg	64.9%	66.40%	↑																							←	
	Ein canlyniad 2015/16	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17		22 nd	21 st	20 th	19 th	18 th	17 th	16 th	15 th	14 th	13 th	12 th	11 th	10 th	9 th	8 th	7 th	6 th	5 th	4 th	3 rd	2 nd	1 st		
		Ein canlyniad 2016/17	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf												Canlyniadau gorau											
				Rheng																							
Saethau yn cychwyn o'n safle 2015/16 i'n safle 2016/17																											

	Ein canlyniad 2015/16	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17		22 nd	21 st	20 th	19 th	18 th	17 th	16 th	15 th	14 th	13 th	12 th	11 th	10 th	9 th	8 th	7 th	6 th	5 th	4 th	3 rd	2 nd	1 st		
		Ein canlyniad 2016/17	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf											Canlyniadau gorau												
				Rheng Saethau yn cychwyn o'n safle 2015/16 i'n safle 2016/17																							
Dygu a Sgiliau																											
EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon	87.4%	91.20%	↑																								
EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd	95.3%	95.30%	↔																								
EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd	94.7%	95.00%	↑																								
LCL/001(b): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth	5,667	5,217	↓																								

	Ein canlyniad 2015/16	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17		22 nd	21 st	20 th	19 th	18 th	17 th	16 th	15 th	14 th	13 th	12 th	11 th	10 th	9 th	8 th	7 th	6 th	5 th	4 th	3 rd	2 nd	1 st		
		Ein canlyniad 2016/17	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf											Canlyniadau gorau												
				Rheng Saethau yn cychwyn o'n safle 2015/16 i'n safle 2016/17																							
PSR/002: Nifer cyfartalog y diwrnodau a gym erwyd i gyflenwi Grant Cyfleusterau i'r Anabl	178	167	↑																								
PSR/004: % yr anheddau sector preifat (yn wag am > 6 mis) a ddychwelwyd i feddiannaeth trwy weithredu uniongyrchol gan yr AU	40.23%	13.79%	↓																								
PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy newydd a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel % o'r holl unedau tai ychwanegol	56%	24%	↓																								
CAM/037: Canran y newid yn y sgôr Tystysgrif Ynni i'w Harddangos yn adeiladau cyhoeddus yr awdurdod lleol dros 1,000 M2	5.2%	4.3%	↓																								
CHR/002: Nifer y diwrnodau gwaith / sifftiau a gollwyd fesul awdurdod lleol cyferth ag amser llawn oherwydd absenoldeb salwch	9.6	8.8	↑																								

Yr Amgylchedd, Hamdden a Thai																														
	Ein canlyniad 2015/16	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2015/16 i 2016/17		22 nd	21 st	20 th	19 th	18 th	17 th	16 th	15 th	14 th	13 th	12 th	11 th	10 th	9 th	8 th	7 th	6 th	5 th	4 th	3 rd	2 nd	1 st					
		Ein canlyniad 2016/17	Gwella ↑ Sefydlog ↔ Dirywio ↓	Canlyniadau gwaethaf														Canlyniadau gorau												
		Rheng Saethau yn cychwyn o'n safle 2015/16 i'n safle 2016/17																												
THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws	92.1%	84.4%	↓																										←	
THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A), ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	9.2%	8.5%	↑																											
THS/012a: Canran prif ffyrdd (A) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	5.9%	5.9%	↔																										←	
THS/012b: Canran ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	4.7%	4.2%	↑																											
THS/012c: Canran ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol	12.3%	11.2%	↑																											
STS/005b: Canran y prifffyrdd a arolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol	97.0%	96.6%	↓																											
STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddydwyd gwobod am danynt ac y clirwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith	97.90%	93.36%	↓																										←	
WMT/004(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi	5.70%	0.99%	↑																											
WMT/009(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan ALL a gaiff ei baratoi ar gyfer aildefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi'u gwahanu yn eu tarddle ac a gom postir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall	64.54%	65.33%	↑																											
PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd	90.69%	91.56%	↑																										↔	
LCS/002(b): Nifer yr ymweliadau â chano ffannau a chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarnwch corfforol	6,028	6,056	↑																										←	

4.3 Sylwadau ar ddangosyddion perfformiad chwarterl isaf

Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Sylwadau ar berfformiad 2016/17
Cynllunio	PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn fel canran o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarperir yn ystod y flwyddyn	<p>Mae'r dangosydd hwn wedi'i lunio'n wael gan Lywodraeth Cymru ac yn dibynnu ar ddata o nifer o ffynonellau nad yw'r rhan fwyaf ohonynt gan y Cyngor nac yn cael eu darparu gan y Cyngor. Ar ben hynny, mae'r ffigurau mewn gwirionedd yn ymwneud â thai a ddarparwyd yn ystod 2015/16 nid 2016/17 felly maent eisoes flwyddyn allan ohoni. Dylid nodi mai nifer y tai fforddiadwy a adeiladwyd yn 2015/16 oedd 164 o anheddau, sy'n agos iawn i'r ffigwr ar gyfer 2014/15, sef 169. Fodd bynnag, gan fod llawer mwy o eiddo marchnad gyffredinol wedi'u hadeiladu yn 2015/16 nac yn 2014/15 mae'r ffigwr canran wedi gostwng.</p> <p>Nid oes gan y Cyngor reolaeth dros gyfraddau adeiladu tai marchnad ac mae hyn yn llwyr ddibynnol ar yr economi a datblygiad preifat, felly mae'n anodd asesu pa wybodaeth y mae'r ffigwr canran yn ei darparu. Fodd bynnag, dylid nodi bod 217 o dai fforddiadwy a 332 o eiddo fforddiadwy wedi'u cymeradwyo ar gyfer adeiladu yn 2016/17, er nad yw hynny o reidrwydd yn golygu y cânt eu hadeiladu yn ystod 2017/18.</p>
Yr Amgylchedd a Thai	THS/012a: Canran y priff ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan	<p>Mae rhwydwaith ffyrdd y Fro yn ased sy'n parhau i ddirywio ac sydd angen buddsoddiad parhaus a sylweddol gwerth mwy na £2m y flwyddyn er mwyn cynnal cyflwr sefydlog cyson.</p> <p>Ers o Fenter Benthycu Llywodraeth leol (MBLIL) Llywodraeth Cymru ddod i ben yn 2015, mae buddsoddiad cyfalaf yn ased priffyrdd y Fro tua 50% yn llai na'r</p>

Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Sylwadau ar berfformiad 2016/17
		<p>hyn sydd ei angen i gynnal cyflwr sefydlog cyson. O ganlyniad, mae cyflwr cyffredinol y rhwydwaith priffyrdd, gan gynnwys prif ffyrdd, wedi dirywio islaw'r cyflwr sefydlog gwell a chyson a gyflawnwyd yn ystod y blynyddoedd o fuddsoddiad cyfalaf drwy MBLIL. Gwaethygydd y sefyllfa hon gan fod pob dosbarth ffordd yn profi cyfeintiau uwch o draffig ar y cyfan.</p> <p>Mae'r Cyngor yn gweithredu system Flaenoriaethu Ailwynebu Lonydd Cerbydau 3 blynedd o hyd sy'n cael ei hadolygu bob blwyddyn yn unol â'r Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd er mwyn gwneud y gorau o'n gallu i gynnal y rhwydwaith priffyrdd lleol. Mae hyn yn sicrhau bod y ffyrdd sydd angen y gwaith mwyaf brys yn cael eu blaenoriaethu ac yr eir i'r afael â nhw. Hefyd, mae'r Cyngor bob amser yn ystyried triniaethau gwynebu arloesol i wella ac i amddiffyn yr ased priffyrdd yn ogystal ag ymestyn y buddsoddiad gwaith cyfalaf blaenorol yn y rhwydwaith ffyrdd.</p>
Yr Amgylchedd a Thai	PPN/009: Canran y safleoedd bwyd a oedd yn cydymffurfio'n fras â safonau hylendid bwyd .	Mae'r mesur hwn yn rhoi syniad o pa mor dda y mae busnes bwyd yn cydymffurfio â deddfwriaeth hylendid bwyd ac mae'r sgôr yn adlewyrchu perfformiad y busnes yn y pen draw yn hytrach na pherfformiad y Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir (GRhR). Rydym yn asesu busnesau drwy raglen o archwiliadau ac ystyrir bod safleoedd a chyngor yn cydymffurfio'n fras os cyflawnir sgoriau risg penodedig ar gyfer glendid, materion strwythurol a hyder yn y gwaith o reoli'r busnes. Mae'r nifer yn adlewyrchu'r safleoedd hynny sydd â Sgôr Hylendid Bwyd o 3 neu'n

Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Sylwadau ar berfformiad 2016/17
		uwch. Rhagwelir y bydd y cymorth busnes a gyflwynwyd o fewn GRhR yn chwarae rhan yn y gwaith o gynnal a codi safonau hyledndid ar draws yr ardal.
Yr Amgylchedd a Thai	STS/006: Canran yr holl achosion o dipio anghyfreithlon sydd wedi'u clirio o fewn 5 diwrnod gwaith.	Mae ein perfformiad diwedd blwyddyn, sef 93.36%, yn is na'n perfformiad diwedd blwyddyn diwethaf, sef 97.90%. Ers y llynedd, cynhaliwyd ymarfer arwyddocaol i brif ffrydio'r broses gofnodi ac adrodd ar gyfer achosion o dipio anghyfreithlon. Ar ôl logio galwadau tipio anghyfreithlon drwy'r Ganolfan Gyswllt, bellach cânt eu prosesu, eu hymchwilio a'u rheoli gan y tîm gwastraff. Mae data eleni'n adlewyrchu'r ffaith bod y dull hwn yn dal i gael ei ymgorffori, felly rydym yn rhagweld gwelliant yn nata'r flwyddyn nesaf.
Yr Amgylchedd a Thai	LCS/002b: Nifer yr ymweliadau i gyfleusterau hamdden a chwaraeon fesul 1,000 o'r boblogaeth.	Mae Bro Mogrannwg yn gyson wedi'i nodi fel un o'r 3 chyngor sy'n perfformio orau yn ôl arolygon cyfranogiad chwaraeon ysgol ac oedolion Chwaraeon Cymru, ond yn gyson wedi'i nodi yn y chwarter isaf yn y Dangosydd Perfformiad hwn o'i gymharu ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Yn y Fro, caiff nifer sylweddol o gyfleoedd gweithgarwch corfforol eu darparu o fewn Ysgolion Cymunedol, sy'n caniatáu i'w cyfleusterau gael eu defnyddio gan y gymuned gyda'r nos ac ar benwythnosau. Mae gan o leiaf 6 ysgol eu neuaddau chwaraeon ac o leiaf 5 arall eu caeau chwaraeon pob tywydd. Er bod y gymuned yn defnyddio llawer ar y cyfleusterau hyn, nid oes cymhelliant iddynt ddarparu ffigurau defnydd i'r Cyngor. Hefyd, nid yw'r Cyngor yn codi tâl ar gyfleusterau ymarfer ar ei gaeau chwaraeon, neu ar bob lefel o bêl-droed mini ac felly nid yw'n cofnodi data defnydd ar gyfer y gweithgareddau hyn, sy'n

Gwasanaeth	Dangosydd Perfformiad	Sylwadau ar berfformiad 2016/17
		<p>eang. O ran yr uchod, credwn nad yw ein data nac ein safle yn adlewyrchu y lefelau gwirioneddol o weithgarwch corfforol a gynhelir neu a hwylusir gan y Cyngor.</p> <p>Fodd bynnag, mae'r Cyngor bob amser yn ceisio cynyddu lefelau cyfranogiad drwy weithio mewn partneriaeth â Legacy Leisure a darparparwyr cyfleoedd hamdden awyr agored. Mae ein Cynllun Partneriaeth Awdurdod Lleol hefyd yn nodi llawer o fentrau allweddol wedi'u cynllunio i gynyddu cyfleoedd cyfranogi. Llwyd gefnogir hyn gan Chwaraeon Cymru, sy'n bartner ariannol allweddol wrth gyflwyno'r cynllun ac sydd wedi defnyddio'r Fro fel enghraifft o arfer gorau wrth ddatblygu rhaglenni gweithgarwch corfforol newydd.</p> <p>Hefyd yn ddiweddar, cyflwynodd y Cyngor 6 chae chwaraeon bob tywydd newydd a fydd yn cynnig rhagor o gyfleoedd i drigolion, clybiau chwaraeon ac ysgolion i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Bydd hyn yn cyfrannu at well lefelau cyfranogiad gan y byddant yn cael eu gweithredu gan y Cyngor neu bartner a fydd yn cofnodi lefelau defnydd.</p> <p>Y Fro yw'r unig Gyngor yng Nghymru nad yw'n rhoi cymhorthdal i weithredwr (sefydliad gwasanaeth uniongyrchol, ymddiriedaeth neu sefydliad arall) i reoli ei ganolfannau hamdden.</p> <p>Mae'r Cyngor yn y broses o ddatblygu Strategaeth Hamdden i gynnig mwy o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden a chwaraeon yn y Fro.</p>